# PROSIECT GOFALWYR DI-DAL: Adolygiad o wefannau awdurdodau lleol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl ac asesiadau o anghenion gofalwyr

## Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Alyson Hoskins, Nicki Harrison, a Gweithgor Prosiect yr Awdurdodau Lleol

**Mawrth 2026**

# Cynnwys


Cynnwys ... 2

Cyflwyniad ... 3

Y Dull ... 4

Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 1: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ... 7

Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 2: Adolygu adnoddau darparwyr y trydydd sector ... 9

Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 3: Adolygu'r adnoddau a'r deunyddiau hyfforddiant ar gyfer gweithio gyda gofalwyr di-dâl ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru ... 11

Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 4: Cofnodi gwybodaeth am sgyrsiau gyda gofalwyr. ... 13

Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 5: Y derminoleg a ddefnyddir ar gyfer cynnal asesiad o anghenion gofalwyr ... 15

Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 6: Taliadau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl. ... 17

Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 7: Hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau ... 19

Casgliadau Cyffredinol ... 22

Argymhellion Cyffredinol ... 24

Atodiad A: Cynllun gweithredu ar gyfer gwella i ofalwyr di-dâl ... 26

Atodiad B: Crynodeb o enghreifftiau o arfer nodedig gan awdurdodau lleol ... 36

Atodiad C: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ... 45

Atodiad D: Adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael ar wefannau sefydliadau gofalwyr y trydydd sector i gynorthwyo ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr ... 71

Atodiad E: Adolygiad o adnoddau a deunyddiau hyfforddi ar gyfer gweithio gyda gofalwyr di-dâl ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo ymarferwyr i gynnal asesiadau ... 85

Atodiad F: Pwnc 4 – Cofnodi gwybodaeth am sgyrsiau gyda gofalwyr: ... 102

Atodiad G: Adolygiad o'r derminoleg a ddefnyddir ar gyfer cynnal asesiad o anghenion gofalwr 106

Atodiad H: Adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi staff gofal cymdeithasol i helpu gofalwyr i gael mynediad at daliadau uniongyrchol ... 109

Atodiad I: Pwnc 7 – Hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau ... 113

Atodiad J: Camau i asesiad o anghenion gofalwr ar gyfer ymarferwyr ... 117

# Cyflwyniad

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru arwain rhaglen waith sy'n cefnogi gwelliant cenedlaethol yn y ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth ac asesiadau o anghenion gofalwyr gan awdurdodau lleol. Roedd y prosiect yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella (Atodiad A) i ganolbwyntio ar y tasgau allweddol sydd eu hangen i sicrhau gwelliannau. Nid oedd yn cynnwys adnoddau ariannol i weithredu'r camau gweithredu a gynhwysir yn y cynllun gweithredu. Mae'n adeiladu ar waith blaenorol o weithdai gydag uwch-arweinwyr awdurdodau lleol a sgyrsiau gyda chydweithwyr o Gofal Cymdeithasol Cymru, Rhwydwaith Dysgu a Gwybodaeth Gweithredol Gofalwyr a Rhwydwaith Proffesiynol Gofalwyr Ifanc. Mae'r cynllun gweithredu hefyd wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofalwyr Di-dâl drwy arolygon gyda staff awdurdodau lleol a digwyddiadau ymgysylltu gyda gofalwyr di-dâl.

Derbyniwyd diweddariad yng nghyfarfod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl ym mis Mehefin 2025, gan gynnwys y blaenoriaethau allweddol a oedd wedi'u nodi. Cydnabu'r grŵp yr angen i sefydlu cynrychiolaeth ranbarthol o awdurdodau lleol i fwrw ymlaen ag ystod o gamau gweithredu ac adrodd yn ôl maes o law. Sefydlwyd gweithgor prosiect a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 17 Tachwedd 2025. Mae'r papur hwn yn adrodd ar yr ymchwil a gynhaliwyd gan y grŵp hwn gydag argymhellion allweddol ar gyfer gwelliannau pellach i'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir i ofalwyr di-dâl gan awdurdodau lleol. Mae'r prosiect hefyd yn archwilio'r hyn sydd ei angen i gefnogi ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal y broses o asesu anghenion gofalwyr ac yn gwneud argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer cyflawni'r cymorth hwn.

Ni fyddai'n bosibl i'r prosiect hwn fod wedi mynd rhagddo heb ymrwymiad a chefnogaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r awduron yn ddiolchgar i bawb a roddodd amser i gyfrannu at yr astudiaeth. Mae diolch arbennig yn ddyledus i aelodau gweithgor y prosiect, a fu'n gyfrifol am gynnal y rhan fwyaf o'r ymchwil ac adolygu'r pynciau blaenoriaeth, i Gofal Cymdeithasol Cymru am gyfrannu at weithgor y prosiect, i Ymddiriedolaeth y Gofalwyr a Gofalwyr Cymru am eu parodrwydd i roi eu cyngor a'u cefnogaeth i'r gwaith hwn, ac i gynrychiolwyr gofalwyr di-dâl a gyfarfu â ni i ystyried canfyddiadau'r adolygiad.

# Y Dull

Roedd gan y prosiect hwn sawl elfen, ac mae pob un yn ddibynnol ar gefnogaeth gan dimau cymorth gofal awdurdodau lleol. Nododd cyfarfod â Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr (COLIN) barodrwydd i gefnogi'r prosiect a gweithio tuag at ddatblygu ystod o welliannau. Y man cychwyn oedd sefydlu gweithgor prosiect gyda chynrychiolwyr o saith rhanbarth yr awdurdodau lleol (Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol) yng Nghymru. Ymgysylltodd pob un o 22 adran gofal cymdeithasol yr awdurdodau lleol â'r broses a nodi cysylltiadau allweddol i'w cynrychioli yng nghyfarfodydd misol gweithgor y prosiect.

Adolygwyd y cynllun gweithredu ar gyfer gwella gan y grŵp hwn a chydnabu, er ei fod yn uchelgeisiol a bod yr amserlenni ar gyfer y prosiect hwn yn fyr, fod tasgau y gellid eu cyflawni i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael ac i gyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2026, nodwyd meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer ymchwil ac adolygiad pellach gan y grŵp. Cyfyngwyd cwmpas y prosiect i ofalwyr sy'n oedolion ar y ddealltwriaeth y byddai modd rhannu unrhyw ganfyddiadau gyda'r sector gofalwyr ifanc, a'u cymhwyso iddo, yn y dyfodol.

Yn y cyfarfod cyntaf, gofynnwyd i bob awdurdod lleol ddarparu enghreifftiau o'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn arfer nodedig yn eu rhanbarth. Mae crynodeb o'r arfer nodedig hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad B ac mae'n adnodd defnyddiol i swyddogion sy'n gweithio yn y sector. Nid oedd digon o gapasiti o fewn y prosiect i gadarnhau a yw'r enghreifftiau hyn ymhlith y gorau yn eu dosbarth. Fodd bynnag, nododd y trafodaethau a ddaeth i'r amlwg o gasglu'r wybodaeth enghreifftiau o ddogfennau a chyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth defnyddiol eraill. Mae awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau cymhwyso'r rhannu gwybodaeth hwn i'w trefniadau lleol i wella gwasanaethau.

Yn dilyn trafodaethau am arfer nodedig a bylchau mewn cymorth, nodwyd saith maes blaenoriaeth fel rhai sydd angen ymchwil bellach. Gwirfoddolodd aelodau gweithgor y prosiect i ymchwilio i'r meysydd hyn yn fanylach. Datblygwyd cwestiynau ymchwil ac adolygwyd pob pwnc i roi trosolwg o'r sefyllfa bresennol mewn awdurdodau lleol. Awgrymwyd hefyd argymhellion ar gyfer camau gweithredu a fyddai'n arwain at welliannau pellach yn yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir i ofalwyr di-dâl a'r broses o asesu anghenion gofalwyr.

Y saith pwnc gweithredu blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer adolygiad pellach yw:

- **Pwnc Blaenoriaeth 1: Gwybodaeth, cyngor a chymorth:** Adolygiad o wefannau awdurdodau lleol i nodi arfer gorau ar gyfer cyfeirio gofalwyr at wybodaeth, cyngor a chymorth.
- **Pwnc Blaenoriaeth 2: Adolygiad o'r adnoddau a ddarperir gan y trydydd sector yng Nghymru,** i gynorthwyo ymarferwyr i gynnal asesiadau.
- **Pwnc Blaenoriaeth 3: Adolygu'r adnoddau a'r deunyddiau hyfforddiant ar gyfer 'gweithio gyda gofalwyr di-dâl' ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru** i gynorthwyo ymarferwyr i gynnal asesiadau.
- **Pwnc Blaenoriaeth 4: Cofnodi gwybodaeth am sgyrsiau gyda gofalwyr.**
- **Pwnc Blaenoriaeth 5: Y derminoleg safonol** a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynnal asesiad o anghenion gofalwr.
- **Pwnc Blaenoriaeth 6: Taliadau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl.**

- **Pwnc Blaenoriaeth 7: Hyfforddiant a chymwysterau** ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau.

Mae Tabl 1 yn nodi'r saith maes pwnc ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer ffocws yr adolygiad a'r ymchwil. Neilltuwyd pwnc yr un i aelodau gweithgor y prosiect a buont yn gweithio mewn parau neu grwpiau o dri i ymchwilio i'r pwnc penodol yn fanylach.

Darparwyd penawdau adborth ymlaen llaw fel bod yr adroddiadau'n ôl yn dilyn fformat cyson. Roedd y penawdau a awgrymwyd yn cynnwys:

- Trosolwg o'r pwnc
- Beth sy'n gweithio'n dda?
- Beth allai fod yn well?
- Casgliadau
- Argymhellion ar gyfer gwella.

**Tabl 1: Pynciau blaenoriaeth ar gyfer ymchwil bellach**

| Rhif | Pwnc | Meysydd a awgrymwyd ar gyfer yr adolygiad/tasg |
|---|---|---|
| 1 | Gwybodaeth, cyngor a chymorth: Adolygu sampl o wefannau awdurdodau lleol i nodi arfer gorau ar gyfer cyfeirio gofalwyr at wybodaeth, cyngor a chymorth. Byddai rhestr o ddolenni defnyddiol i gyfeirio gofalwyr sy'n oedolion ac yn ifanc yn ddefnyddiol ar gyfer y pwnc hwn. | Adolygu gwefannau gofal cymdeithasol a phwyntiau cyswllt cyntaf i asesu pa mor hawdd yw dod o hyd i wybodaeth o safbwynt ymarferydd gofal cymdeithasol wrth gyfeirio gofalwyr at y wefan.<br>• A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?<br>• A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?<br>• Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?<br>• Pa wefannau sy'n dda? Beth sy'n eu gwneud nhw'n dda? |
| 2 | Adolygu'r adnoddau a ddarperir ar wefan Gofalwyr Cymru a gwefannau eraill darparwyr trydydd sector yng Nghymru i gynorthwyo ymarferwyr i gynnal asesiadau: [Mae'r adnoddau'n cynnwys egwyddorion arfer da ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a chael sgyrsiau gyda gofalwyr] | • Pa mor hawdd yw llywio'r adnoddau hyn?<br>• Ydyn nhw'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu swyddog i gynnal asesiad o anghenion gofalwr?<br>• A oes unrhyw fylchau yn yr adnoddau?<br>• Beth arall hoffech chi ei weld yn y canllawiau arfer da ar gyfer swyddogion sy'n cynnal asesiadau? |
| 3 | Adolygu'r adnoddau a'r deunyddiau hyfforddiant ar gyfer gweithio gyda gofalwyr di-dâl ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo ymarferwyr i gynnal asesiadau: | • Pa mor hawdd yw eu llywio?<br>• A ydynt yn eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr?<br>• Oes unrhyw fylchau?<br>• Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? |

| Rhif | Pwnc | Meysydd a awgrymwyd ar gyfer yr adolygiad/tasg |
|---|---|---|
| 4 | Cofnodi gwybodaeth am sgyrsiau gyda gofalwyr: | • Pryd mae asesiad yn dechrau?<br>• Beth ddylid ei gofnodi – sgwrs am yr hyn sy'n bwysig / asesiad llawn o ofalwr neu'r ddau?<br>• Ble mae'r wybodaeth yn cael ei chadw?<br>• Pwy sydd angen cofnodi gwybodaeth, e.e. swyddogion pwynt cyswllt cyntaf?<br>• A ddylid cael fformat cyson ledled Cymru ar gyfer cofnodi gwybodaeth? |
| 5 | Ystyried y derminoleg safonol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynnal asesiad o anghenion gofalwr: [Gall gwybodaeth a adroddwyd i Grŵp Cynghori'r Gweinidog gan Gofalwyr Cymru ar derminoleg gynorthwyo gyda'r pwnc hwn] | • Adolygiad o'r papur a baratowyd gan Gofalwyr Cymru.<br>• Beth yw'r ymadroddion allweddol a fyddai'n elwa o derminoleg safonol?<br>• A fyddai dull safonol yn ddefnyddiol? |
| 6 | Taliadau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl | Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi staff gofal cymdeithasol i helpu gofalwyr i gael mynediad at daliadau uniongyrchol. [Bydd gwybodaeth am arfer da a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cynorthwyo gyda'r dasg hon.] |
| 7 | Hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau: | • Beth yw'r gwrthdaro rhwng y cod ymarfer a'r ddeddfwriaeth?<br>• Pwy sydd angen cael hyfforddiant?<br>• Beth ydym ni'n ei olygu wrth gymhwysedd?<br>• Beth yw dull rhai awdurdodau lleol o allanoli gwaith i aseswyr trydydd sector? Cymwysterau/cymhwysedd?<br>• A ddylai swyddogion Lefel 4 yn unig gynnal asesiad? Oes opsiynau eraill, fel cymeradwyo gan swyddogion Lefel 4?<br>• Pa fath o hyfforddiant yw'r arfer gorau / pa mor aml?<br>• Pa argymhellion y gellid eu gwneud i Lywodraeth Cymru i roi eglurder ar hyfforddiant, cymwysterau, cymhwysedd a chymesuredd? |

## Crynodeb o ganfyddiadau ymchwil / adolygiadau o'r meysydd pwnc

Cofleidiodd holl aelodau gweithgor y prosiect yr adolygiad a'r ymchwil i bob un o'r saith pwnc yn llawn, gan ddarparu adroddiadau cryno o'u canfyddiadau. Mae'r adroddiadau llawn hyn wedi'u cynnwys yn atodiadau C i I.

Mae crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad o bob pwnc wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'r pwyntiau allweddol. Mae'r paragraffau isod yn cynnwys canfyddiadau cyffredinol ar gyfer pob pwnc, ynghyd ag enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio'n dda, neu sydd angen ei wella, gyda chasgliadau ac awgrymiadau/argymhellion penodol yn unol ag adolygiad gweithgor y prosiect.

# Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 1: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Roedd yr adolygiad o wybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol yn asesu eglurder a hygyrchedd yr wybodaeth i ofalwyr a ddarperir gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar lywio, asesu'r wybodaeth, cyfeirio allanol, tôn, ac ansawdd cynnwys cyffredinol gwefannau awdurdodau lleol. Tynnodd y canfyddiadau sylw at amrywiad sylweddol, gydag enghreifftiau o arfer cryf ochr yn ochr â meysydd sydd angen gwelliant sylweddol. Mae Atodiad C yn cynnwys canfyddiadau'r adolygiad o wefan pob awdurdod lleol.

## Canfyddiadau Cyffredinol

Mae bron pob cyngor yn darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i ofalwyr di-dâl, ond mae ansawdd, strwythur a hygyrchedd yr wybodaeth hon yn amrywio'n fawr. Er bod sawl awdurdod yn cynnig cynnwys clir, cefnogol a threfnus ar eu gwefannau, mae eraill yn dibynnu ar dudalennau sydd wedi dyddio, llywio gwael neu wybodaeth gyfyngedig. Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth ar draws awdurdodau lleol yn cael eu cyflwyno'n anghyson, ac efallai y bydd rhai gofalwyr yn cael trafferth gwybod gyda phwy i gysylltu neu sut i gael mynediad at gymorth cynnar.

### Beth sy'n gweithio'n dda?

- Mae sawl cyngor yn dangos strwythur ac eglurder cryf, yn enwedig **Sir Gaerfyrddin**, **Ceredigion**, **Bro Morgannwg** a **Phen-y-bont ar Ogwr**.
- Mae enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth allanol, yn enwedig **Sir y Fflint** a **Phen-y-bont ar Ogwr**.
- Er nad yw'r prosiect hwn wedi edrych yn benodol ar wybodaeth a ddarperir ar gyfer gofalwyr ifanc, canfu'r adolygiad fod rhai awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth dda ac adnoddau ymarferol i ofalwyr ifanc.
- Mae sawl cyngor yn defnyddio offer gwe-lywio clir neu gynlluniau seiliedig ar deils sy'n gwella profiad y defnyddiwr.

### Beth allai fod yn well?

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y canlynol:

- Mae gwelededd gwybodaeth, cyngor a chymorth yn anghyson neu ar goll mewn rhai cynghorau, gan adael gofalwyr yn ansicr ynghylch ble i geisio cymorth cynnar.
- Mae llywio yn rhwystr mawr, gyda thudalennau hir, llawn testun neu gynnwys cudd.
- Gwybodaeth sydd wedi dyddio. Mae angen diweddaru gwefannau sawl cyngor fel bod yr wybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir ar gyfer gofalwyr di-dâl yn gliriach ac yn haws eu llywio.
- Mae cyfeirio allanol yn amrywio'n sylweddol, gyda rhai cynghorau'n cynnig sawl dolen ac eraill yn darparu rhestrau cyfyngedig neu ailadroddus.
- Mae tôn a hygyrchedd yn amrywio'n fawr; mae rhai tudalennau'n teimlo'n gynnes ac yn gefnogol, tra bod eraill yn teimlo'n ffurfiol neu'n glinigol.

### Themâu Cymru Gyfan

- Mae gwefannau'n tueddu i ganolbwyntio mwy ar asesu yn hytrach na gwybodaeth, cyngor a chymorth ataliol.
- Defnydd cyfyngedig o ddelweddau, gan wneud tudalennau'n ddwys ac yn anoddach eu darllen.
- Terminoleg anghyson a dyblygu ar draws tudalennau.
- Amrywiad yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn esbonio dolenni allanol neu adnoddau cymunedol.

## Casgliadau

Mae arfer cryf ledled Cymru wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl. Fodd bynnag, mae anghysondeb hefyd yn yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu ar wefannau. Drwy wella gwelededd, llywio, ansawdd cynnwys a chyfeirio allanol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth, gall awdurdodau lleol greu gwybodaeth gliriach, fwy cefnogol a mwy hygyrch i ofalwyr di-dâl. Ystyriodd gweithgor y prosiect y gallai fod problem i rai awdurdodau lleol gyda'r cyfyngiadau a gymhwysir gan safonau cyfathrebu corfforaethol. Mae hyn yn cyfyngu ar greadigrwydd a dyluniad tudalennau, fel nad ydynt mor hawdd eu darllen. Gall hefyd gyflwyno rhwystrau i fynediad cyflym at ddiweddaru tudalennau gwefan. Mae nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn yr adran hon o'r adroddiad. Byddai gweithredu'r rhain yn helpu i sicrhau bod pob gofalwr yn derbyn cymorth amserol, cywir a thosturiol, waeth ble maen nhw'n byw.

### Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Mae gweithgor y prosiect wedi gwneud yr awgrym canlynol i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl trwy wefannau awdurdodau lleol:

- Dylai pob awdurdod lleol adolygu'r wybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir ar gyfer gofalwyr di-dâl ar eu gwefan, cyfeirio at yr wybodaeth yn Atodiad C a'r enghreifftiau arfer da a roddir yn yr adroddiad hwn (Atodiad B) i ddysgu gan eraill, hyrwyddo cysondeb, codi safonau, a gwella darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ymhellach.

Mae'r canlynol yn awgrymiadau penodol eraill i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud gwelliannau i'w gwefannau:

- Cryfhau gwelededd gwybodaeth, cyngor a chymorth gyda phwynt mynediad a manylion cyswllt clir a chyson ar bob tudalen i ofalwyr.
- Gwella llywio a strwythur gan ddefnyddio dewislenni neu deils a rhannu tudalennau hir yn adrannau â thema.
- Cyflwyno delweddau a fformatio hygyrch i wella darllenadwyedd ac ymgysylltiad.
- Darparu gwybodaeth asesu glir a chyfredol, gan gynnwys sut i ofyn am gymorth.
- Gwella cyfeirio allanol, gyda chyd-destun ar gyfer pob sefydliad a defnydd cyson o wefannau gwybodaeth allweddol fel Gofalwyr Cymru a Dewis Cymru.
- Gweithredu adolygiadau cynnwys rheolaidd i sicrhau cywirdeb a gwybodaeth gyfoes.
- Lleihau dyblygu a gwella cysondeb ar draws tudalennau.
- Mabwysiadu naws gynnes a chefnogol sy'n croesawu gofalwyr ac yn annog ymgysylltiad.

# Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 2: Adolygu adnoddau darparwyr y trydydd sector

Archwiliwyd yr adnoddau sydd ar gael gan sefydliadau trydydd sector mawr yng Nghymru gan yr adolygiad o'r pwnc hwn – yn bennaf Gofalwyr Cymru, Gofalwyr y DU, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Carer Aware, Cyngor ar Bopeth, ac Age UK. Nod hyn oedd penderfynu pa mor effeithiol y maent yn cefnogi ymarferwyr i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. Mae llawer o'r wybodaeth a ddarperir gan y sefydliadau hyn wedi'i hanelu'n briodol at ofalwyr, nid at ymarferwyr. Wedi dweud hynny, mae rhai o'r adnoddau sydd ar gael yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am asesiadau o anghenion gofalwyr o safbwynt gofalwyr a'r sefydliadau sy'n ceisio eu cynrychioli a'u cefnogi. Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol ei defnyddio wrth gyfeirio at adnoddau i hyrwyddo gwybodaeth, cyngor a chymorth ar eu gwefannau. Mae Atodiad D yn cynnwys y tabl ymchwil gyda mwy o fanylion am ganfyddiadau'r adolygiad hwn.

## Canfyddiadau Cyffredinol

Ar draws sefydliadau'r trydydd sector, mae adnoddau'n hawdd yn gyffredinol i ofalwyr eu defnyddio ond maent yn cynnig gwerth ymarferol cyfyngedig i ymarferwyr. Mae'r pwyslais ar rai wefannau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac nid gofal cymdeithasol. Gall rhywfaint o'r deunydd a ddarperir greu disgwyliadau afrealistig drwy awgrymu y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n awtomatig yn dilyn asesiad o anghenion gofalwr. Er enghraifft, mae un daflen ffeithiau yn rhestru cymorth i deithio o gwmpas, ffioedd tacsi a gwersi gyrru fel mathau posibl o gymorth, a allai roi'r argraff y bydd yr awdurdod lleol yn darparu'r gwasanaethau hyn yn awtomatig. Nid yw canllawiau i ymarferwyr mor hawdd eu cael, ac yn aml maent yn tybio bod aseswyr yn weithwyr cymdeithasol cymwys. Mae Carer Aware (Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru) yn cynnig hyfforddiant i ymarferwyr gofal cymdeithasol, er nad yw'r wybodaeth ar y wefan yn hawdd ei chael. Yn y gorffennol, mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda gofalwr di-dâl yn bresennol.

### Beth sy'n gweithio'n dda?

- Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector wedi'u hanelu at ofalwyr, nid ymarferwyr, ac mae hyn yn darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol i ymarferwyr gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn wybodaeth ddefnyddiol i awdurdodau lleol gyfeirio gofalwyr ati ar eu gwefannau.
- Mae fideos a thaflenni ffeithiau yn ddeniadol yn weledol, yn hawdd eu deall, ac yn ymdrin â hawliau, prosesau, a'r cymorth sydd ar gael.
- Esboniadau clir o hawliau asesu: Mae Ymddiriedolaeth y Gofalwyr a Gofalwyr y DU yn darparu disgrifiadau syml o hawliau gofalwyr a phwrpas asesiadau.
- Mae elfennau defnyddiol o fewn deunyddiau Gofalwyr Cymru: Mae 'egwyddorion arfer da' a 'chael sgyrsiau gyda gofalwyr' yn rhoi pwyslais ar empathi, ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, a chwestiynu myfyriol, gan roi awgrymiadau defnyddiol i ymarferwyr gofal cymdeithasol.

### Beth allai fod yn well?

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y canlynol:

- Mae gwybodaeth gyfyngedig ar gael am sut i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr o safbwynt ymarferydd. Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael yn hawdd ei chanfod. Nid oedd

llawer o ymarferwyr gofal cymdeithasol yn ymwybodol bod yr wybodaeth hon ar gael iddynt ei defnyddio.

- Mae risg o godi disgwyliadau afrealistig oherwydd enghreifftiau o gymorth nad ydynt o bosibl yn statudol neu ar gael yn rheolaidd.
- Mae rhai deunyddiau'n awgrymu mai dim ond gweithwyr cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr, nad yw'n adlewyrchu arfer ledled Cymru ac unwaith eto sy'n gallu codi disgwyliadau ynghylch pwy fydd yn cynnal yr asesiad.
- Cynnwys cyfyngedig sy'n benodol i Gymru:Mae rhai gwefannau trydydd sector yn dibynnu ar wybodaeth ledled y DU, nad yw o bosibl yn uniongyrchol berthnasol i'r sefyllfa yng Nghymru.

## Casgliadau

Mae'r trydydd sector yn darparu gwybodaeth werthfawr a hygyrch i ofalwyr, ond mae rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael ledled y DU ac efallai nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r sefyllfa yng Nghymru. Mae gwybodaeth gyfyngedig ar gael i ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr ac nid yw hon yn hawdd ei chael. Gall rhai deunyddiau ar gyfer gofalwyr godi disgwyliadau ynghylch pa gymorth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddarparu ac efallai na fydd hyn bob amser yn berthnasol a gall ei gwneud hi'n anoddach i ymarferwyr pan fyddant yn cynnal yr asesiad. Mae sgyrsiau gyda sefydliadau cymorth i ofalwyr wedi bod yn gadarnhaol ac maent wedi mynegi parodrwydd i weithio gydag awdurdodau lleol i wella'r deunyddiau maen nhw'n eu defnyddio ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr.

### Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Mae gweithgor y prosiect wedi gwneud yr awgrymiadau canlynol i awdurdodau lleol wella'r adnoddau hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr:

- Adolygu'r wybodaeth sydd yn Atodiad D a defnyddio'r wybodaeth hon ar dudalennau gwe gwybodaeth, cyngor a chymorth eu hawdurdod lleol i gyfeirio gofalwyr at y tudalennau cymorth perthnasol.
- Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a sefydliadau'r trydydd sector i awgrymu gwelliannau yn hygyrchedd deunyddiau i ymarferwyr.
- Awgrymu newidiadau i'r enghreifftiau o gymorth a ddarperir i ofalwyr ar wefannau'r trydydd sector er mwyn osgoi awgrymu bod darpariaeth gwasanaeth yn warantedig, fel bod y rhain yn adlewyrchu cymesuredd.

# Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 3: Adolygu'r adnoddau a'r deunyddiau hyfforddiant ar gyfer gweithio gyda gofalwyr di-dâl ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru

Gwerthuswyd adnoddau “gweithio gyda gofalwyr di-dâl” Gofal Cymdeithasol Cymru a deunyddiau hyfforddiant cysylltiedig gan yr adolygiad hwn i benderfynu pa mor effeithiol y maent yn cefnogi ymarferwyr i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. Mae'r wybodaeth a adolygwyd yn cynnwys tudalennau gwe, llawlyfrau hyfforddiant, pecynnau o sleidiau, llyfrau gwaith hunanhyfforddi, pecynnau cymorth ymarferwyr, modiwlau e-ddysgu, a dogfennau ymchwil cysylltiedig. Amlygodd yr ymchwil hygyrchedd, perthnasedd, cywirdeb a defnyddioldeb ymarferol i staff rheng flaen. Disgrifiwyd bod rhai o'r adnoddau a ystyriwyd yn cynnwys ‘llawer o destun' a'u bod yn ‘anhygyrch'. Roedd yna rai dolenni wedi torri i ddogfennau a chynnwys wedi dyddio. Mae Atodiad E yn cynnwys y tabl ymchwil gyda mwy o fanylion am ganfyddiadau'r adolygiad hwn.

## Canfyddiadau Cyffredinol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu ystod eang o ddeunyddiau, ond mae eu hansawdd, eu hygyrchedd a'u perthnasedd yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai adnoddau'n gynhwysfawr ac wedi'u strwythuro'n dda, fel y pecyn cymorth i ymarferwyr, tra bod eraill wedi dyddio, yn anhygyrch, neu heb fod yn uniongyrchol gysylltiedig ag asesiadau o anghenion gofalwyr. Nid yw sawl dolen yn gweithio, gan gynnwys modiwlau e-ddysgu a fideos wedi'u mewnblannu. Crëwyd llawer o ddogfennau yn 2018–2019 ac mae angen eu diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol ac arfer da. Gall problemau llywio a chrynodebau o wybodaeth fod yn gliriach er mwyn ei gwneud hi'n haws i ymarferwyr prysur ddod o hyd i ganllawiau hanfodol yn gyflym.

### Beth sy'n gweithio'n dda?

- Mae yna rai deunyddiau hyfforddiant cynhwysfawr sy'n cynnig canllawiau manwl ar ymarfer asesu, deddfwriaeth, sgiliau cyfathrebu ac ymarferion myfyriol.
- Mae gan rai dogfennau strwythur clir, fel y pecyn cymorth i ymarferwyr, sydd â mynegai gyda hyperddolenni.
- Mae cyd-destun ac astudiaethau achos defnyddiol yn cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr.
- Mae cwmpas y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r egwyddorion asesu yn glir.
- Mae sleidiau hyfforddiant yn cynnwys testun Cymraeg a Saesneg.

### Beth allai fod yn well?

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y canlynol:

- Dolenni wedi torri neu anhygyrch, gan gynnwys modiwlau e-ddysgu a fideos wedi'u mewnblannu.
- Deunyddiau wedi dyddio a grëwyd yn 2018–2019 nad ydynt yn adlewyrchu deddfwriaeth newydd fel Deddf Absenoldeb Gofalwyr 2023.
- Dogfennau hir a llawn testun yn lleihau hygyrchedd.
- Diffyg canllawiau ymarferol, cam wrth gam ar asesu anghenion gofalwyr clir ar dudalennau glanio.

- Heriau llywio, gan gynnwys gwybodaeth a bostiwyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, er gwaethaf y ffaith nad yw llawer o aseswyr yn weithwyr cymdeithasol.
- Nid yw'r wybodaeth yn adlewyrchu rôl sefydliadau'r trydydd sector wrth gynnal asesiadau ar ran rhai awdurdodau lleol.

## Casgliadau

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnig casgliad sylweddol o adnoddau ar gyfer ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau. Canfuwyd bod rhai adnoddau yn anghyson o ran ansawdd, hygyrchedd a pherthnasedd i arfer asesu anghenion gofalwyr. Awgrymodd ymarferwyr eu bod yn cael trafferth defnyddio'r deunyddiau oherwydd bod rhai dolenni wedi torri, cynnwys wedi dyddio, a dogfennau rhy hir. Byddai'r ganolfan adnoddau yn fwy defnyddiol pe bai'n fwy cryno, ymarferol, a hawdd ei defnyddio; gellid gwella mynediad i'r brif dudalen we i gynyddu ei gwerth i staff rheng flaen.

### Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Mae gweithgor y prosiect wedi gwneud yr awgrymiadau canlynol i wella'r adnoddau hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr:

- Dylai Gofal Cymdeithasol Cymru adolygu'r wybodaeth a baratowyd gan weithgor y prosiect ac sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad E. Paratowyd hon gyda meddylfryd cadarnhaol i gynorthwyo gyda'r adolygiad y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei gynnal.
- Gall gwelliannau penodol i'r adnoddau hyfforddiant gynnwys y canlynol:
  - Atgyweirio neu ddileu dolenni sydd wedi torri.
  - Gwneud yn siŵr bod yr holl fideos a modiwlau e-ddysgu yn gweithio.
  - Creu canllawiau cryno ac ymarferol ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ar y brif dudalen we.
  - Darparu crynodebau clir a fersiynau darllen cyflym o ddogfennau hir.
  - Datblygu fideos sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr sy'n dangos sgyrsiau asesu anghenion gofalwyr go iawn.
  - Cynnwys dolenni i fentrau cenedlaethol fel Carer Aware a Carer Friendly.
  - Disodli dogfennau ymchwil sydd wedi dyddio gydag adroddiadau cyfredol fel State of Caring.

# Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 4: Cofnodi gwybodaeth am sgyrsiau gyda gofalwyr.

Archwiliwyd sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cofnodi gwybodaeth yn ymwneud â sgyrsiau ac asesiadau gyda gofalwyr di-dâl gan yr adolygiad hwn. Archwiliwyd pryd mae asesiad yn dechrau'n ffurfiol, pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chofnodi, ble mae cofnodion yn cael eu cadw, pwy sy'n gyfrifol am gofnodi, ac a ddylid mabwysiadu fformat cenedlaethol cyson. Mae'r pwnc wedi'i wreiddio mewn dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n nodi *"lle mae'n ymddangos i awdurdod lleol y gallai fod angen cymorth ar ofalwr, rhaid i'r awdurdod asesu"*, sy'n golygu bod asesiad yn dechrau'n effeithiol yn y sgwrs ystyrlon gyntaf. Mae Atodiad F yn cynnwys mwy o fanylion am yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn.

## Canfyddiadau Cyffredinol

Mae deddfwriaeth yn darparu disgwyliadau clir ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gofnodi, gan gynnwys gallu a pharodrwydd y gofalwr i barhau i ofalu, canlyniadau personol, ystyriaethau gwaith/addysg, gwybodaeth a ddarperir, a chymorth arfaethedig. Fodd bynnag, mae arfer yn amrywio ledled Cymru. Mae rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chasglu'n anffurfiol yn ystod y cyswllt cyntaf, tra bod mwy o gofnodi yn digwydd yn ystod asesiad ffurfiol o anghenion gofalwyr. Mae systemau recordio digidol yn amrywio rhwng awdurdodau, sy'n ychwanegu at gymhlethdodau darparu un ateb i Gymru o ran cofnodi. Mae rhai gofalwyr yn nodi nad ydynt yn sylweddoli eu bod wedi cael asesiad a dangosodd tystiolaeth gan un awdurdod lleol nifer o lwybrau atgyfeirio ac arferion cofnodi amrywiol, gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn nodi *"nad oedd rhai gofalwyr yn ymwybodol eu bod wedi cael asesiad"*.

### Beth sy'n gweithio'n dda?

- Fframwaith deddfwriaethol clir sy'n nodi'r cynnwys gofynnol, cofnodion ysgrifenedig, cydsyniad, cymesuredd, a phrosesau adolygu.
- Offeryn asesu a chymhwystra cenedlaethol sy'n darparu "set ddata graidd" gyson ledled Cymru.
- Cydnabod bod asesu'n dechrau'n gynnar, gyda sgyrsiau cychwynnol am "yr hyn sy'n bwysig" yn rhan o'r daith asesu.
- Llwybrau mynediad lluosog i ofalwyr, gyda staff cefnogol brwdfrydig iawn, gan gynnwys ymarferwyr gofal cymdeithasol, cysylltwyr cymunedol a staff y trydydd sector.

### Beth allai fod yn well?

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y canlynol:

- Arferion cofnodi anghyson, yn enwedig yn y pwynt cyswllt cyntaf, yn arwain at ofalwyr yn ailadrodd eu stori.
- Nid yw gofalwyr bob amser yn cael gwybod bod asesiad wedi digwydd, sy'n dynodi bylchau mewn cyfathrebu a rhannu dogfennaeth.
- Amrywiad mewn systemau digidol (e.e. WCCIS, Mosaic, systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid lleol) yn cyfyngu ar gysondeb a chludadwyedd.
- Diffyg eglurder i ofalwyr y gall cymorth ddechrau cyn asesiad ffurfiol o anghenion gofalwr.

- Cyfrifoldebau cofnodi aneglur ymhlith staff a oedd yn rhan o sgyrsiau cynnar.

### Themâu Cymru Gyfan

- Mae asesu'n dechrau'n gynharach nag y mae llawer o ymarferwyr yn ei sylweddoli.
- Angen egwyddorion cyson ar gyfer cofnodi disgwyliadau ledled Cymru, yn enwedig ar gyfer staff cyswllt cyntaf.
- Yn aml, mae'n rhaid i ofalwyr ailadrodd eu stori oherwydd bylchau yn llif yr wybodaeth.
- Mae amrywiad mewn systemau digidol yn effeithio ar barhad.
- Mae bylchau cyfathrebu yn golygu efallai na fydd gofalwyr yn cydnabod pryd mae asesiad wedi digwydd.
- Mae gofynion deddfwriaethol yn glir, ond mae arfer gweithredol yn amrywio'n sylweddol.

## Casgliadau

Mae cofnodi gwybodaeth am ofalwyr wedi'i seilio ar ddeddfwriaeth, ond sut mae'n cael ei gymhwyso a'i roi ar waith ledled Cymru yn anghyson. Nid yw sgyrsiau cynnar bob amser yn cael eu cofnodi mewn ffordd sy'n cefnogi parhad, ac efallai nad yw gofalwyr yn ymwybodol bod asesiad wedi dechrau. Er bod yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol yn darparu sylfaen ar gyfer cysondeb, mae amrywiad mewn systemau a phrosesau, ac o ran cyfrifoldebau staff, yn creu bylchau. Y mater pwysicaf ym marn gweithgor y prosiect yw'r angen am ddull cliriach a mwy unedig ar gyfer cofnodi ar draws pob cam o daith y gofalwr.

### Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Mae gweithgor y prosiect wedi gwneud yr awgrymiadau canlynol i wella'r broses o gofnodi gwybodaeth am ofalwyr di-dâl:

- Cryfhau hyfforddiant i staff cyswllt cyntaf ar gofnodi cyfrifoldebau a gofynion deddfwriaethol.
- Cynhyrchu canllawiau clir ynghylch yr hyn sydd angen ei gofnodi o ran asesiad o anghenion gofalwr er mwyn cael gwared ar yr anghysondebau ledled Cymru. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys y canlynol:
  - Manylion y ffordd y caiff gwybodaeth ei chofnodi ar gyfer pob cam o daith y gofalwr, gan gynnwys y cyswllt cyntaf. Bydd yr egwyddorion cofnodi yn safonol, ond bydd y system a ddefnyddir yn benodol i bob awdurdod lleol yn dibynnu ar y system ddigidol a ddefnyddir ganddynt i gofnodi gwybodaeth.
  - Cyfathrebu clir â gofalwyr bod cymorth yn dechrau gyda sgyrsiau cynnar.
  - Mecanwaith i sicrhau bod gofalwyr yn derbyn copi o'u cofnod asesu ym mhob achos.
  - Gwybodaeth a ddarperir i ofalwyr i sicrhau eu bod yn deall pwrpas a phroses asesiadau o anghenion gofalwyr, gan gynnwys sgwrs ynghylch a yw'r gofalwr yn fodlon ac yn gallu parhau â'r rôl hon.

# Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 5: Y derminoleg a ddefnyddir ar gyfer cynnal asesiad o anghenion gofalwyr

Archwiliwyd y derminoleg a ddefnyddir ledled Cymru mewn perthynas ag asesiadau o anghenion gofalwyr, a'r cyngor a'r wybodaeth a ddarperir iddynt, gan yr adolygiad hwn. Mae'n nodi termau allweddol sydd angen eu safoni, yn archwilio sut mae iaith anghyson yn effeithio ar ddealltwriaeth ac ymgysylltiad gofalwyr, ac yn ystyried manteision dull unedig. Mae tystiolaeth gan ofalwyr, adroddiadau yr ombwdsmon a sefydliadau cenedlaethol yn dangos bod terminoleg aneglur neu anghyson yn cyfrannu at ddryswch a phryder a "loteri cod post" o ran profiad. Mae Atodiad G yn cynnwys mwy o fanylion am yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn.

## Canfyddiadau Cyffredinol

Mae amrywiad sylweddol yn y ffordd y defnyddir termau ar draws awdurdodau lleol a sefydliadau partner. Yn aml, mae gofalwyr yn adrodd eu bod yn cael eu llethu gan jargon, yn aneglur ynghylch prosesau, ac yn ansicr ble i ddechrau eu taith. Adroddodd rhai ymarferwyr fod y term *asesiad o anghenion gofalwr* wedi'i ddisgrifio fel un dyfarniadol neu'n awgrymu craffu ar allu gofalwr i ddarparu gofal. Mae rhestrau termau a chanllawiau presennol yn amrywio o ran ansawdd a hygyrchedd, ac mae gofalwyr ifanc yn teimlo fod y derminoleg broffesiynol yn ddigalon. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o iaith glir ac arfer da ledled Cymru. Mae'r ymchwil a gynhaliwyd yn nodi ystod o dermau a fyddai'n elwa o gael eu hesbonio mewn rhestr dermau safonol gydag esboniad clir o'u hystyr.

### Beth sy'n gweithio'n dda?

- Cydnabyddiaeth ar draws sefydliadau bod angen i derminoleg fod yn gliriach ac yn fwy cyson.
- Enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys rhestrau termau gan Gofalwyr Cymru a deunyddiau hygyrch ar gyfer gofalwyr ifanc.
- Dealltwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o sut mae iaith yn effeithio ar ymgysylltiad, gan gynnwys canfyddiadau gan yr ombwdsmon (2024) a Track the Act (2024).
- Enghraifft gan un awdurdod lleol, 'Y Gwasanaeth Cof', yn dangos sut y gellir defnyddio terminoleg yn effeithiol.
- Ymrwymiad gan ymarferwyr a sefydliadau i wella cyfathrebu a lleihau jargon.

### Beth allai fod yn well?

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y canlynol:

- Amrywiad sylweddol mewn terminoleg rhwng rhanbarthau, gwasanaethau a sefydliadau partner.
- Mae gofalwyr yn adrodd am ddryswch ynghylch termau fel *asesiad*, *cynllun cymorth*, *sgwrs am yr hyn sy'n bwysig*, a *chymhwystra.*
- Diffyg pecyn gwybodaeth cyflwyniadol safonol ar gyfer gofalwyr newydd ledled Cymru.
- Mae teitlau swyddi amrywiol (e.e. Swyddog Gofalwyr yn erbyn Cydgysylltydd Cymorth) yn creu ansicrwydd ynghylch rolau.

- Gall iaith broffesiynol fod yn anhygyrch, yn enwedig i ofalwyr ifanc neu ofalwyr sy'n anghyfarwydd â systemau gofal cymdeithasol.
- Nid oes unrhyw eirfa na chanllaw terminoleg unigol ar gyfer Cymru gyfan yn bodoli ar hyn o bryd.

### Themâu Cymru Gyfan

- Mae gofalwyr yn profi "loteri cod post" o ran terminoleg a dogfennaeth.
- Mae jargon ac iaith anghyson yn lleihau dealltwriaeth a hyder.
- Mae gofalwyr ifanc yn cael eu heffeithio'n arbennig gan derminoleg anhygyrch.
- Mae nifer o sefydliadau'n defnyddio diffiniadau gwahanol ar gyfer yr un termau.
- Byddai safoni yn cefnogi eglurder a chydymffurfedd â deddfwriaeth.
- Gellir adeiladu ar arfer da presennol i greu dull cenedlaethol.

## Casgliadau

Mae tystiolaeth sylweddol y gall y derminoleg a ddefnyddir mewn gwybodaeth ac asesiadau gofalwyr achosi dryswch ac atal ymgysylltiad. Byddai terminoleg gliriach a mwy cyson yn gwella profiad y gofalwr, yn lleihau pryder, ac yn cefnogi cyfathrebu gwell rhwng gofalwyr ac ymarferwyr. Byddai safoni hefyd yn gwella ansawdd data ac yn cryfhau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled Cymru.

### Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Mae gweithgor y prosiect wedi gwneud yr awgrymiadau canlynol i wella'r defnydd o'r derminoleg a ddefnyddir mewn asesiadau o ofalwyr di-dâl.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Adeiladu ar yr ymchwil a gynhaliwyd yn ystod yr adolygiad hwn a datblygu canllaw terminoleg cenedlaethol a safonol i'w ddefnyddio ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.
- Sefydlu grŵp ffocws gyda gofalwyr i gyd-greu'r derminoleg a ddefnyddir i sicrhau eglurder, hygyrchedd a pherthnasedd.
- Creu pecyn gwybodaeth cyflwyniadol sylfaenol y mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i gynorthwyo gofalwyr newydd ac sy'n esbonio termau, rolau a phrosesau allweddol.
- Hyrwyddo symleiddio a lleihau jargon ym mhob deunydd at ddefnydd y cyhoedd, gan gynnwys darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar wefannau awdurdodau lleol.

# Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 6: Taliadau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl.

Mae'r adolygiad hwn yn archwilio'r adnoddau, y canllawiau a'r cymorth sydd ar gael i helpu ymarferwyr gofal cymdeithasol i gynorthwyo gofalwyr di-dâl i gael mynediad at daliadau uniongyrchol. Mae'n archwilio fframweithiau cenedlaethol, arfer awdurdodau lleol, rhwystrau a adroddwyd a brofwyd gan ofalwyr, ac eglurder yr wybodaeth sydd ar gael ledled Cymru. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at enghreifftiau cryf o arfer hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac anghysondebau sylweddol yn y ffordd y mae taliadau uniongyrchol i ofalwyr yn cael eu cyfleu, eu cynnig a'u rheoli. Mae Atodiad H yn cynnwys mwy o fanylion am yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn.

## Canfyddiadau Cyffredinol

Mae taliadau uniongyrchol i ofalwyr wedi'u hen sefydlu mewn deddfwriaeth ac yn cael eu cefnogi gan ganllawiau cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y cod ymarfer, a'r Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Ledled Cymru, mae llawer o awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth glir, offer ymarferol, a gwasanaethau cymorth pwrpasol i helpu gofalwyr i ddeall a defnyddio taliadau uniongyrchol.

Mae'r adolygiad wedi canfod bod arfer yn anghyson. Mae rhai awdurdodau'n cynnig canllawiau cynhwysfawr, pecynnau croeso, a thimau cymorth arbenigol, tra bod eraill yn darparu gwybodaeth gyfyngedig neu aneglur. Mae gofalwyr wedi nodi eu bod yn aml yn cael trafferth deall cymhwystra, cyfrifoldebau, a'r gwahaniaeth rhwng taliadau uniongyrchol iddyn nhw eu hunain ac i'r sawl sy'n derbyn gofal. Mae anghysondebau hefyd mewn rheolau megis a ellir defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu perthnasau. Mae hyder y gweithlu yn amrywio, ac mae ymarferwyr yn nodi amwysedd o ran cofnodi, canllawiau a disgwyliadau.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae enghreifftiau cryf o Dorfaen, Sir y Fflint, Conwy, Sir Benfro ac eraill yn dangos y gall taliadau uniongyrchol hyblyg, creadigol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wella llesiant gofalwyr yn sylweddol a chynnal rolau gofalu.

### Beth sy'n gweithio'n dda?

- Mae canllawiau cenedlaethol yn darparu sylfaen gyfreithiol glir ar gyfer cynnig taliadau uniongyrchol.
- Mae sawl awdurdod lleol yn darparu adnoddau rhagorol a hygyrch (e.e. llyfryn croeso Sir y Fflint, mae Sir Ddinbych yn cynnig canllawiau ar y we ac adnoddau y gellir eu lawrlwytho gydag enghreifftiau o ofalwyr yn dod at ei gilydd i gronni taliadau uniongyrchol, hwb taliadau uniongyrchol Ceredigion, gwasanaeth cymorth a gomisiynwyd Caerdydd, mae Powys yn darparu canllawiau ar-lein, yn cefnogi gofalwyr).
- Enghreifftiau cryf o ddefnydd hyblyg a chreadigol o daliadau uniongyrchol i gefnogi llesiant gofalwyr (e.e. tai chi, gweithgareddau hamdden, seibiannau byr, offer, gwersi gyrru).
- Canfuwyd bod Gofalwyr Cymru a Chyngor ar Bopeth ill dau yn cynnig canllawiau clir ac ymarferol ar daliadau uniongyrchol wedi'u teilwra i Gymru.
- Gall taliadau uniongyrchol leihau dibyniaeth ar wasanaethau traddodiadol a gwella cynaliadwyedd trefniadau gofalu.

### Beth allai fod yn well?

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y canlynol:

- Anghysondeb ledled Cymru o ran sut mae taliadau uniongyrchol i ofalwyr yn cael eu cynnig, eu hesbonio a'u gweinyddu.
- Yn aml, mae gofalwyr yn camddeall cymhwystra, cyfrifoldebau, a'r gwahaniaeth rhwng taliadau uniongyrchol iddyn nhw eu hunain a'r unigolyn sy'n derbyn gofal.
- Mae gwybodaeth i'r cyhoedd yn amrywio'n fawr o ran ansawdd a hygyrchedd.
- Amwysedd ynghylch rheolau fel talu perthnasau, cyfrifoldebau cyflogwyr, a dangos dewisiadau eraill cyn cymeradwyo.
- Mae ymarferwyr yn adrodd am anghysondeb o ran canllawiau, cofnodi disgwyliadau, a hyder wrth gynnig taliadau uniongyrchol.

### Themâu Cymru Gyfan

- Parodrwydd cryf i ddefnydd hyblyg a chreadigol o daliadau uniongyrchol.
- Amrywiad sylweddol mewn gwybodaeth i'r cyhoedd a chanllawiau ymarferwyr.
- Mae gofalwyr yn profi dryswch ynghylch cymhwystra a chyfrifoldebau.
- Mae hyder y gweithlu yn amrywio, yn enwedig o amgylch agweddau sy'n gysylltiedig â chyflogwyr.
- Mae anghysondebau mewn rheolau (e.e. talu perthnasau) yn creu anghydraddoldeb.

## Casgliadau

Mae gan daliadau uniongyrchol y potensial i wella llesiant, gwydnwch a gallu gofalwyr i barhau i ofalu'n ddiogel ac yn gynaliadwy yn sylweddol. Fodd bynnag, mae arfer anghyson, cyfathrebu aneglur ac arweiniad amrywiol yn creu rhwystrau i ymarferwyr. Byddai dull cenedlaethol cliriach a mwy cyson yn gwella dealltwriaeth ac yn cryfhau hyder y gweithlu.

### Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Mae gweithgor y prosiect wedi gwneud yr awgrymiadau canlynol i wella'r broses taliadau uniongyrchol ar gyfer gofalwyr di-dâl:

- Ystyried datblygu canllawiau cenedlaethol penodol ar gyfer taliadau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys meini prawf cymhwystra clir ac enghreifftiau ymarferol. Gallai hyn fynd i'r afael â'r meysydd lle mae anghysondebau, e.e. taliadau i berthnasau.
- Taflen Gymraeg/Saesneg glir yn egluro bod taliadau uniongyrchol ar gael i ofalwyr, gan gynnwys sut maen nhw'n gweithio a defnyddiau nodweddiadol, gyda gwybodaeth am sut i gael mynediad at gymorth. Dylid ei chynnig mewn ieithoedd eraill hefyd yn ôl yr angen. Byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i ofalwyr ac ymarferwyr.
- Gall yr adnoddau hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol gynnwys gwybodaeth am y cynnig ac esboniad o daliadau uniongyrchol ar gyfer gofalwyr di-dâl.
- Gellir archwilio ymhellach gyfleoedd i gronni taliadau uniongyrchol.

# Pwnc Gweithredu Blaenoriaeth 7: Hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau

Mae'r adolygiad hwn yn archwilio'r gofynion hyfforddiant, cymwysterau a chymhwysedd ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. Mae'n archwilio'r berthynas rhwng deddfwriaeth a'r cod ymarfer, pwy ddylai gael ei hyfforddi, beth mae "cymhwysedd" yn ei olygu yn ymarferol, rôl aseswyr y trydydd sector, ac a ddylid cyfyngu asesiadau i ymarferwyr Lefel 4. Mae'r adolygiad hefyd yn ystyried modelau hyfforddiant arfer gorau ac yn nodi meysydd lle gallai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder. Mae Atodiad I yn cynnwys mwy o fanylion am yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn.

## Canfyddiadau Cyffredinol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gael eu cwblhau gan rywun sydd â'r "sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd priodol", ond nid yw'n nodi lefelau cymwysterau. Mewn cyferbyniad, mae'r cod ymarfer proffesiynol yn pwysleisio cymwysterau proffesiynol a safonau ymddygiad uchel. Mae hyn yn creu amwysedd ynghylch pwy sy'n "gymwys" yn ffurfiol i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr.

Mae awdurdodau lleol yn amrywio yn eu dull o weithredu. Mae rhai yn dibynnu ar ymarferwyr Lefel 4, tra bod eraill yn defnyddio staff Lefel 3 ar gyfer sgyrsiau ataliol neu'n allanoli asesiadau i sefydliadau trydydd sector. Gall allanoli gynyddu capasiti ond gall gyflwyno anghysondeb mewn safonau hyfforddiant oni bai fod prosesau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd ar waith. Mae cymhlethdod amgylchiadau gofalwyr hefyd yn ei gwneud hi'n anodd penderfynu ymlaen llaw a yw achos yn "syml" neu'n "gymhleth", gan gyfyngu ar ddefnyddioldeb modelau anhyblyg sy'n seiliedig ar lefelau ar gyfer pwy sy'n cynnal pob asesiad.

Mae arfer gorau yn pwysleisio llwybrau hyfforddiant clir, disgwyliadau cymhwysedd cyson, a goruchwyliaeth gref. Mae hyfforddiant gorfodol ar ddyletswyddau deddfwriaethol, cymhwystra, diogelu, a sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" yn hanfodol, ochr yn ochr â hyfforddiant arbenigol ar straen a llesiant gofalwyr a'r hyn a all beri risg iddynt. Adroddir hefyd fod goruchwyliaeth fyfyriol reolaidd a datblygiad proffesiynol parhaus yn bwysig.

### Beth sy'n gweithio'n dda?

- Mae deddfwriaeth yn darparu sylfaen glir ar gyfer asesiadau cymesur sy'n seiliedig ar gryfderau.
- Mae llawer o awdurdodau lleol eisoes yn darparu hyfforddiant strwythuredig ar y gofynion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cymhwystra, a sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig".
- Mae allanoli i sefydliadau'r trydydd sector yn fuddiol mewn rhai awdurdodau lleol a gall gynyddu capasiti a gwella ymyrraeth gynnar.
- Mae enghreifftiau o arfer da yn tynnu sylw at werth fframweithiau cymhwystra clir a phrosesau sicrhau ansawdd.
- Cydnabyddiaeth ar draws y sector bod rhaid i hyfforddiant fod yn gyson ac yn briodol i'r rôl, a'i fod yn cael ei adnewyddu'n rheolaidd.

### Beth allai fod yn well?

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y canlynol:

- Mae amwysedd rhwng deddfwriaeth a'r cod ymarfer yn creu ansicrwydd ynghylch pwy sy'n "gymwys" i asesu gofalwyr.
- Diffyg eglurder ynghylch y disgwyliadau ar gyfer hyfforddiant, cymwysterau a chymhwystra ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau.
- Safonau hyfforddiant anghyson ar draws awdurdodau lleol a darparwyr y trydydd sector.
- Anhawster pennu cymhlethdod ar y cyswllt cyntaf, gan ei gwneud hi'n anodd rhagweld dyrannu asesiadau.

### Themâu Cymru Gyfan

- Dryswch ynghylch lefelau cymwysterau a disgwyliadau cymhwysedd.
- Amrywiad yn ansawdd ac amlder hyfforddiant ar draws awdurdodau lleol.
- Mae allanoli yn cynyddu capasiti ond gall gyflwyno anghysondeb heb sicrwydd ansawdd cryf.
- Parodrwydd cryf i gael canllawiau ac eglurhad cliriach ar lefel genedlaethol.
- Angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus cyson a goruchwyliaeth fyfyriol ar draws pob lefel ymarferydd.

## Casgliadau

Mae angen clir am fwy o eglurder cenedlaethol ar hyfforddiant, cymwysterau a chymhwysedd ar gyfer ymarferwyr sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr. Er bod deddfwriaeth yn pwysleisio sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd, mae'r cod ymarfer yn rhoi mwy o bwyslais ar gymwysterau a safonau proffesiynol. Mae hyn yn creu ansicrwydd i awdurdodau lleol ac ymarferwyr. Byddai dull cyson, ledled Cymru, yn cryfhau arfer, yn gwella ansawdd, ac yn sicrhau bod gofalwyr yn derbyn asesiadau teg o ansawdd uchel waeth ble maen nhw'n byw.

### Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Mae gweithgor y prosiect wedi gwneud yr awgrymiadau canlynol i wella eglurder ynghylch y gofynion hyfforddiant, cymwysterau a chymhwysedd ar gyfer ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau:

- Gellir cynhyrchu canllawiau pellach a fyddai'n helpu i ddatrys y materion a nodir yn Atodiad I. Dylai hyn gynnwys cyfarwyddyd clir ynghylch pa lefelau o hyfforddiant, cymwysterau neu gymhwysedd sy'n dderbyniol i ymarferydd sy'n cynnal asesiad, ynghyd â lefelau goruchwylio neu gymeradwyo priodol os yw hyn yn berthnasol.
- Dylai fod lefel ofynnol o hyfforddiant ar gyfer pob ymarferydd sy'n cynnal asesiadau a byddai hyn yn cynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cymhwystra, sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig", ac anghenion penodol i ofalwyr (gan gynnwys y gallu a'r parodrwydd i fod yn ofalwr di-dâl).
- Dylai'r awdurdodau lleol hynny sy'n dewis allanoli asesiadau i sefydliadau trydydd sector gael trosolwg o hyfforddiant y staff sy'n cynnal yr asesiadau, gan gynnwys disgwyliadau o ran cymwysterau, hyfforddiant gofynnol a safonau sicrhau ansawdd.

- Cryfhau systemau goruchwylio mewn awdurdodau lleol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau arfer myfyriol a chyson ledled Cymru a bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi yn y rôl hon.

## Casgliadau Cyffredinol

Mae'r Prosiect Gofalwyr Di-dâl wedi dod â phob un o'r 22 awdurdod lleol ynghyd i archwilio sut mae gwybodaeth, cyngor a chymorth ac asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu darparu ar hyn o bryd ledled Cymru. Mae'r gwaith a wnaed gan weithgor y prosiect yn dangos ymrwymiad cryf ar y cyd i wella profiad gofalwyr di-dâl a chryfhau cysondeb, eglurder ac ansawdd y cymorth sydd ar gael iddynt.

Datblygwyd y cynllun gweithredu ar gyfer gwella (Atodiad A) yn dilyn ymgynghori helaeth ac roedd yn cynnwys ystod o gamau gweithredu a nodwyd fel rhai sydd eu hangen i wella darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol a chefnogaeth i ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. Mae hwn yn gynllun gweithredu uchelgeisiol a chytunwyd na ellid adolygu pob maes o fewn yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y prosiect hwn. Nodwyd saith maes pwnc blaenoriaeth i'w hadolygu ymhellach.

Ar draws pob un o'r saith pwnc blaenoriaeth, mae sawl thema glir yn dod i'r amlwg. Er bod llawer o arfer da ledled Cymru, mae awdurdodau lleol yn amrywio o ran sut maen nhw'n cyflwyno gwybodaeth, sut mae asesiadau'n cael eu cofnodi, sut mae terminoleg yn cael ei defnyddio, a sut mae ymarferwyr yn cael eu cefnogi trwy hyfforddiant ac adnoddau. Mae'r amrywiad hwn yn creu'r hyn a ddisgrifiwyd fel loteri cod post i ofalwyr, a all dderbyn gwahanol lefelau o eglurder, cymorth a chyfathrebu yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw.

Mae'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at y ffaith y gall gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol i ofalwyr di-dâl fod yn gymhleth, yn anghyson neu'n amwys. Mae gan rai gwefannau awdurdodau lleol strwythurau aneglur, maent yn defnyddio terminoleg anhygyrch, neu mae diffyg tryloywder ynghylch prosesau asesu. Gall fod yn anodd i ofalwyr ddeall ble i ddechrau, beth i'w ddisgwyl, a beth yw eu hawliau. Mae gwella eglurder, hygyrchedd a thôn ar draws pob math o gyfathrebu yn hanfodol i sicrhau bod gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu cefnogi a'u grymuso.

Mae enghreifftiau o arfer nodedig ar draws awdurdodau lleol o ran cefnogi gofalwyr. Mae yna hefyd enghreifftiau o awdurdodau lleol sydd â darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth dda a gyflwynir trwy wefannau eu cynghorau gyda chyfeiriadau at wybodaeth gywir a chyfredol. Mae'r prosiect hwn wedi tynnu sylw at y meysydd hynny o arfer nodedig, ac mae hyn wedi ffurfio sail ddefnyddiol i eraill sydd angen gwneud gwaith pellach i wella eu darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Mae'r canfyddiadau'n nodi'r angen am fwy o gydlyniant a chydlyniad rhwng awdurdodau lleol, cyrff cenedlaethol a sefydliadau'r trydydd sector wrth ddarparu deunyddiau i gynorthwyo ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. Er bod llawer o sefydliadau'n darparu gwybodaeth, canllawiau ac offer gwerthfawr, nid yw'r rhain bob amser yn hawdd i ymarferwyr ddod o hyd iddynt, ac nid ydynt yn gyson yn benodol i Gymru. Mae rhai deunyddiau wedi dyddio a'u bod yn anodd eu defnyddio neu mewn perygl o godi disgwyliadau afrealistig. Bydd cryfhau cydweithio rhwng sectorau yn helpu i sicrhau bod gofalwyr ac ymarferwyr yn derbyn gwybodaeth glir, gywir a chydlynol.

Nodir hefyd bwysigrwydd sgyrsiau cynnar a'r angen am arferion cofnodi cyson. Mae deddfwriaeth yn glir bod asesiad yn dechrau pan fo'n ymddangos y gallai fod angen cymorth ar ofalwr, ond mae arfer gweithredol yn amrywio'n fawr. Efallai na fydd gofalwyr bob amser yn sylweddoli bod asesiad wedi digwydd, ac nid yw gwybodaeth bob amser yn cael ei chofnodi na'i rhannu'n gyson. Byddai dull cenedlaethol o gofnodi yn cefnogi parhad, yn lleihau ailadrodd i ofalwyr, ac yn gwella ansawdd data. Byddai hyn yn cynnwys sgyrsiau ar y pwynt cyswllt cyntaf ag awdurdodau lleol.

Mae tystiolaeth sylweddol y gall y derminoleg a ddefnyddir mewn gwybodaeth ac asesiadau gofalwyr achosi dryswch ac atal ymgysylltiad. Byddai terminoleg gliriach a mwy cyson yn gwella profiad y gofalwr, yn lleihau pryder, ac yn cefnogi cyfathrebu gwell rhwng gofalwyr ac ymarferwyr. Byddai safoni hefyd yn gwella ansawdd data ac yn cryfhau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled Cymru. Mae'r adolygiad wedi nodi rhai geiriau ac ymadroddion allweddol a fyddai'n elwa o ddefnyddio terminoleg safonol a byddai canllaw sy'n nodi'r derminoleg hon yn glir yn ddefnyddiol, yn enwedig os caiff ei fabwysiadu'n eang gan ymarferwyr ledled Cymru. Er mwyn i hyn gael ei dderbyn a bod yn fwy ystyrlon, dylid cydgynhyrchu datblygiad y canllaw hwn gyda chynrychiolwyr gofalwyr di-dâl.

Mae gan daliadau uniongyrchol y potensial i wella llesiant, gwydnwch a gallu gofalwyr i barhau i ofalu'n ddiogel ac yn gynaliadwy yn sylweddol. Fodd bynnag, mae arfer anghyson, cyfathrebu aneglur a chanllawiau amrywiol yn creu rhwystrau i ofalwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd. Byddai dull cenedlaethol cliriach a mwy cyson yn gwella dealltwriaeth ac yn cryfhau hyder y gweithlu. Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn gwneud defnydd da o daliadau uniongyrchol i gefnogi gofalwyr di-dâl ac wedi gweld y manteision y mae hyn yn eu cynnig. Maent wedi llunio canllawiau clir ar eu defnydd ac maent yn barod i rannu eu profiadau ag eraill i sicrhau dull cadarnhaol mwy cyson o daliadau uniongyrchol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Canfu adolygiad y prosiect hwn o wefan ac adnoddau hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru, er y cynigir casgliad sylweddol o adnoddau ar gyfer hyfforddiant ymarferwyr, eu bod yn anghyson o ran ansawdd, hygyrchedd a pherthnasedd i ymarfer. Mae ymarferwyr yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at wybodaeth, fel dolenni wedi torri, cynnwys sydd wedi dyddio, a dogfennau sy'n rhy hir ac sydd angen eu hadnewyddu. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn rhan o weithgor y prosiect ac wedi croesawu'r adolygiad o'r wefan a'r adnoddau hyfforddiant a ddarperir ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol. Maent hefyd yn cynnal adolygiad mewnol o'r adnoddau hyn a bydd canfyddiadau'r prosiect hwn yn cefnogi'r adolygiad hwnnw.

Yn olaf, mae'r astudiaeth hon yn pwysleisio'r angen am ganllawiau cliriach ar hyfforddiant, cymhwysedd a rolau ymarferwyr sy'n ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr. Mae arfer cyfredol yn amrywio'n sylweddol, gyda disgwyliadau gwahanol ynghylch pwy all gynnal asesiadau, pa hyfforddiant sydd ei angen, a sut mae cymhwysedd yn cael ei ddiffinio. Byddai mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi gweithlu mwy hyderus, medrus a chyson. Er bod deddfwriaeth yn pwysleisio sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd, mae'r cod ymarfer yn rhoi mwy o bwyslais ar gymwysterau a safonau proffesiynol. Byddai awdurdodau lleol yn croesawu eglurhad ar hyn gan fod amwysedd yn creu ansicrwydd i awdurdodau lleol ac ymarferwyr. Byddai dull cyson, ledled Cymru, yn cryfhau arfer, yn gwella ansawdd, ac yn sicrhau bod gofalwyr yn derbyn asesiadau teg o ansawdd uchel waeth ble maen nhw'n byw.

Gyda'i gilydd, mae canfyddiadau'r prosiect hwn yn cyflwyno achos cryf dros ddull mwy unedig a hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gefnogi gofalwyr di-dâl ledled Cymru. Drwy gryfhau cysondeb, gwella cyfathrebu, gwella'r cymorth sydd ar gael i ymarferwyr, diweddaru adnoddau, a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, gall awdurdodau lleol sicrhau bod gofalwyr yn derbyn cymorth amserol a thosturiol o ansawdd uchel waeth ble maen nhw'n byw. Mae'r gwaith a wneir drwy'r prosiect hwn yn darparu sylfaen gref ar gyfer gwelliant a chydweithio parhaus yn y blynyddoedd i ddod.

Dylid nodi hefyd fod adnoddau ychwanegol wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2025 i gyflawni nifer fach o gamau gweithredu a awgrymwyd yn y cynllun gweithredu ar gyfer gwella. Mae'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio i ddarparu adnoddau hyfforddiant ychwanegol, ar ffurf fideos a siart llif un dudalen ar y 'camau i asesiad o anghenion gofalwr ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol'. Bydd y ddogfen hon yn cefnogi ymarferwyr gofal cymdeithasol ac yn ffurfio cymorth hyfforddiant defnyddiol. Mae wedi'i chynnwys fel Atodiad J.

# Argymhellion Cyffredinol

Mae'r adroddiad hwn wedi archwilio saith pwnc blaenoriaeth a gymerwyd o'r cynllun gweithredu ar gyfer gwella (Atodiad A). Mae pob pwnc wedi'i grynhoi gydag awgrymiadau o dan bob pennawd ar gyfer gwelliannau. Er ein bod yn cydnabod bod llawer y gellid ei wneud, rydym hefyd yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyflawni argymhellion.

Yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ar gyfer pob pwnc blaenoriaeth, mae rhestr o argymhellion cyffredinol wedi'i chynnwys yn yr adran hon o'r adroddiad. Mae'r argymhellion hyn ar gyfer awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae pob argymhelliad yn adlewyrchu themâu Cymru gyfan, a ddangosir o'r saith pwnc ymchwil blaenoriaeth, a'r gwelliannau ymarferol a nodwyd gan weithgor y prosiect.

Argymhellir y canlynol:

1. Bod pob awdurdod lleol yn adolygu'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir i ofalwyr di-dâl ar ei wefan fel bod ganddo bwyntiau mynediad clir, manylion cyswllt gweladwy, a therminoleg gyson. Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod "*gwelededd gwybodaeth, cyngor a chymorth yn anghyson neu ar goll mewn rhai cynghorau*" a bod rhwystrau rhag llywio yn atal gofalwyr rhag cael mynediad at gymorth cynnar. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn atodiadau B ac C yn adnodd defnyddiol i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda'r adolygiad hwn. Dylai cynghorau ddefnyddio cynlluniau hawdd eu deall a'u defnyddio (e.e. teils, dewislenni, adrannau â thema) a chyflwyno delweddau i wella darllenadwyedd.

2. Dylai gwefannau awdurdodau lleol wneud y mwyaf o gyfeirio at adnoddau cenedlaethol dibynadwy sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl, fel Gofalwyr Cymru, Dewis Cymru ac Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, gydag esboniadau clir o'r hyn y mae pob un yn ei gynnig. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod *"cyfeiriadau allanol yn amrywio'n sylweddol"* ac yn aml yn brin o gyd-destun. Mae Atodiad D yn cynnwys mwy o fanylion am yr wybodaeth a ddarparwyd gan y sefydliadau hyn.

3. Dylai Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn (Atodiad E). Dylid diweddaru'r adnoddau hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr, dylid atgyweirio dolenni sydd wedi torri, a dylid paratoi canllawiau cryno, cam wrth gam ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr. Dylai gwefannau Gofal Cymdeithasol Cymru gynnwys deunyddiau ar gyfer hyfforddiant ymarferwyr gofal cymdeithasol a chyd-fynd yn agos â sefydliadau'r trydydd sector i wella gwelededd a llywio deunyddiau i ymarferwyr.

4. Dylai awdurdodau lleol adolygu'r broses o gofnodi gwybodaeth ar gyfer pob cam o daith y gofalwr, gan gynnwys y cyswllt cyntaf. Bydd hyn yn benodol i bob awdurdod lleol yn dibynnu ar y system maen nhw'n ei defnyddio i gofnodi gwybodaeth. Dylid gwneud gwaith pellach i ddatblygu fframwaith cofnodi safonol ar gyfer pob cam o daith y gofalwr. Gall hyn gynnwys dull Cymru gyfan i sefydlu'r egwyddorion ar gyfer cofnodi'r pwynt cyswllt cyntaf, sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig', asesiadau ffurfiol, a chynllunio cymorth.

5. Dylid cyd-greu geirfa safonol o derminoleg Cymru gyfan sy'n ymwneud â gofalwyr gyda gofalwyr di-dâl. Argymhellir sefydlu grŵp ffocws i oruchwylio'r gwaith hwn a bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad G ac adroddiad Gofalwyr Cymru i Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn llywio'r set gyffredin hon o dermau er mwyn sicrhau eglurder, hygyrchedd a pherthnasedd.

6. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o eglurder ynghylch pwy sy'n gallu cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr, gan gynnwys lefelau cymhwysedd gofynnol a rôl bwysig staff allanol.

Dylai hyn gyd-fynd â'r Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol a bydd yn helpu i gael gwared ar yr amwysedd presennol ynghylch beth yw'r gofynion deddfwriaethol a gofynion y cod ymarfer ar gyfer sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd ar gyfer rhywun sy'n cynnal asesiad o anghenion gofalwyr.

7. Dylid cryfhau rhannu arfer da ledled Cymru. Mae Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr yr awdurdodau lleol yn cyfarfod yn rheolaidd a dylid parhau i gael ei gefnogi i rannu enghreifftiau o arfer effeithiol, adnoddau wedi'u diweddaru, gwybodaeth, cyngor a chymorth, a phrosesau asesu anghenion gofalwyr.

8. Dylid cyhoeddi'r adnoddau a gynhyrchwyd fel ychwanegiadau at y prosiect hwn, h.y. y fideos hyfforddiant yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n ymdrin â sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sydd â phrofiad o gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr, ar wefan ADSS Cymru a'u cysylltu ag adnoddau hyfforddiant gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhagwelir y bydd y fideos hyn yn cael eu defnyddio i feithrin hyder mewn eraill wrth iddynt gynnal asesiadau. Dylid rhannu'r crynodeb siart llif un dudalen sy'n dangos 'camau ymarferydd ar gyfer asesiad o anghenion gofalwyr' (Atodiad J) gyda'r holl ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau a dylai fod yn rhan o hyfforddiant yn y dyfodol i ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau.

# Atodiad A: Cynllun gweithredu ar gyfer gwella i ofalwyr di-dâl

## Cefndir

Gofynnwyd i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru gan Lywodraeth Cymru gefnogi gwelliant cenedlaethol yn y ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth ac asesiadau o anghenion gofalwyr gan awdurdodau lleol.

Roedd y gwaith yn cynnwys datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i ganolbwyntio ar y tasgau allweddol y mae angen eu cyflawni i sicrhau gwelliannau. Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofalwyr Di-dâl drwy arolygon gyda staff awdurdodau lleol a digwyddiadau ymgysylltu gyda gofalwyr di-dâl. Mae hefyd yn cynnwys data a gasglwyd o weithdai diweddar gydag uwch-arweinwyr awdurdodau lleol a sgyrsiau gyda chydweithwyr o Gofal Cymdeithasol Cymru, Rhwydwaith Dysgu a Gwybodaeth Gweithredol Gofalwyr a Rhwydwaith Proffesiynol Gofalwyr Ifanc.

Derbyniodd cyfarfod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl ym mis Mehefin 2025 ddiweddariad a oedd yn cynnwys y blaenoriaethau allweddol a oedd wedi'u nodi. Cydnabu'r grŵp hwn yr angen i sefydlu cynrychiolaeth ranbarthol o awdurdodau lleol i fwrw ymlaen ag amrywiaeth o gamau gweithredu ac adrodd yn ôl maes o law.

## Canfyddiadau allweddol ac arfer da a nodwyd o ymgynghori ac ymgysylltu

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofalwyr Di-dâl yn cefnogi'r gwelliant cenedlaethol yn y ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr gan awdurdodau lleol ac mae wedi cynnal arolygon yn ddiweddar (Tachwedd 2024) i gefnogi gwelliannau.

Nodwyd y themâu canlynol gan **uwch-reolwyr** er mwyn teimlo'n fwy hyderus bod ymarferwyr yn rhagweithiol wrth gynnig **asesiad o anghenion gofalwr**:

- hyfforddiant cynyddol/ychwanegol i ymarferwyr
- ailgynllunio ffurflen asesu pobl sy'n derbyn gofal gyda maes gorfodol i gadarnhau bod y gofalwr di-dâl wedi cael cynnig asesiad o anghenion gofalwr (rydym yn deall bod hwn yn faes gorfodol i rai awdurdodau lleol ond nid pob un)
- cynnal gwybodaeth gywir a chyfredol am y gwasanaethau a'r buddion sydd ar gael i ofalwyr di-dâl
- bob amser yn cynnig asesiad gofalwyr ar wahân pan fo'n briodol

Nodwyd y themâu canlynol gan **reolwyr gwasanaeth/tîm** er mwyn teimlo'n fwy hyderus bod ymarferwyr yn rhagweithiol wrth gynnig **asesiad o anghenion gofalwr**:

- cofnodi a gallu adrodd ar pryd y mae anghenion cymorth gofalwr di-dâl wedi'u hystyried yn ogystal ag asesiad yr unigolyn ag anghenion gofal

- peidio â defnyddio'r term 'asesiad o anghenion gofalwr' wrth siarad â gofalwyr di-dâl er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i ofalwyr nad eu gallu sy'n cael ei asesu
- dull cyson o ran terminoleg ac asesiadau ar draws pob awdurdod lleol
- awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth well i ofalwyr di-dâl i hyrwyddo dealltwriaeth o asesiadau o anghenion gofalwyr (gan gynnwys gwybodaeth ar wefan yr awdurdod lleol)
- gwell cymorth a gwybodaeth gynnar i ofalwyr, fel deunyddiau ysgrifenedig, hyfforddiant, neu gyngor arbenigol
- gall swyddog/tîm gofalwyr wrth y drws blaen wella ansawdd ac amseroldeb asesiadau o anghenion gofalwyr
- mwy o gyfweliadau asesu wyneb yn wyneb a llai o asesiadau dros y ffôn, er mwyn gwella ansawdd
- asesiad gwell o anghenion gofalwyr ifanc

Roedd enghreifftiau o arfer da **gan staff awdurdodau lleol ar bob lefel** yn cynnwys y canlynol:

- ailgynllunio'r dull o asesu gofalwyr – cawsant eu hailenwi'n "sgyrsiau gofalwyr" a chynhyrchwyd gwybodaeth a chanllawiau i staff a gofalwyr di-dâl
- symud y tîm gofalwyr i'r drws blaen, gan alluogi ehangu cyrhaeddiad i'r gymuned
- gweithio gyda thimau mewn hybiau cymunedol i gynnig ystod eang o wasanaethau i ofalwyr
- cynnwys gofalwyr di-dâl wrth ddatblygu gwasanaethau

Roedd adborth o ddigwyddiadau i **ofalwyr di-dâl sy'n oedolion** yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol:

- dylai awdurdodau lleol fod yn 'ymgysylltu' yn rheolaidd â gofalwyr i weld a oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor
- cydnabyddiaeth o brofiadau a phwyntiau gwahanol pobl yn eu taith ofalu – gweithwyr proffesiynol i deilwra gwybodaeth yn unol â hynny
- cael 'siop un stop' neu un ffynhonnell wybodaeth

Mae awgrymiadau eraill gan **ofalwyr di-dâl** yn cynnwys syniadau ynghylch gwella asesiadau o anghenion gofalwyr:

- sicrhau bod ymarferwyr yn glir ynglŷn â'r pwrpas a'r broses, ac yn ateb cwestiynau ymlaen llaw
- anfon gwybodaeth am y broses asesu ymlaen llaw, cyn ystyried asesiad
- gofyn cwestiynau cyn asesiad i helpu gofalwyr i lunio eu meddyliau
- gwirio'n ôl gyda'r hyn y mae'r gofalwr di-dâl wedi'i ddweud i sicrhau cywirdeb
- ymateb i broblemau gofalwyr a bod yn rhagweithiol wrth geisio helpu i'w datryspeidio â rhuthro
- bod yn gydymdeimladol a heb farnu
- nodi amser aros i asesiad ddechrau – roedd awgrymiadau ar gyfer asesiadau di-argyfwng yn amrywio o ddwy i wyth wythnos

- peidio â throsglwyddo pobl rhwng adrannau na sefydliadau ar wahân
- tryloywder, bod yn glir ynghylch pa gymorth sydd ar gael a pha gymorth sydd ddim ar gael a pham
- adnewyddu asesiadau o bryd i'w gilydd
- rhoi copi (papur neu ddigidol) o'r asesiad i'r gofalwr di-dâl yn brydlon ar ôl ei gwblhau, o fewn saith i ddeg diwrnod ar ôl cwblhau'r asesiad

Roedd adborth o'r **digwyddiad i ofalwyr ifanc** yn nodi y byddai gofalwyr ifanc yn hoffi'r canlynol:

- gwybod beth i'w ddisgwyl a sut i baratoi ar gyfer asesiad o anghenion gofalwr
- cydnabyddiaeth nad oes angen asesiad o anghenion gofalwr bob amser i gael mynediad at wasanaethau cymorth
- dewis ynghylch ble mae'r asesiad yn digwydd, e.e. gartref neu yn yr ysgol
- ailasesiad – i ystyried amgylchiadau newidiol gofalwyr ifanc

## Cynllun gweithredu ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn gynllun gweithredu ar gyfer gwella sy'n tynnu sylw at y tasgau allweddol a nodwyd o'r digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer pwy fydd yn bwrw ymlaen â phob cam gweithredu, o fewn amserlen arfaethedig. Nid yw'n nodi adnoddau ariannol ar gyfer cyflawni'r gweithgareddau hyn.

| **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 1**<br>**Gwybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol – adnabod ac ymgysylltu â gofalwyr** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Tasg** | **Pwy?** | **Pryd?** | **Diweddariad** |
| 1.1 | Nodi dull cyson ar gyfer y trothwy cofnodi ar gyfer sgyrsiau gyda gofalwyr drwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a'u pwynt cyswllt cyntaf. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Rhagfyr 2025 | Adolygiad o gofnodi gwybodaeth am sgwrs gyda gofalwyr wedi'i gwblhau (Atodiad F, adroddiad terfynol) ac argymhellion penodol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cyffredinol. |
| 1.2 | Sefydlu cysondeb wrth gofnodi'r sgwrs pwynt cyswllt cyntaf gyda gofalwyr ac opsiynau ar gyfer cyfeirio at gymorth pellach. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Rhagfyr 2025 | Fel yn 1.1. |
| 1.3 | Rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr di-dâl a sut i gael mynediad atynt drwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y pwynt cyswllt cyntaf. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Mawrth 2026 | Adolygiad o holl wybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol wedi'i gwblhau (Atodiad B, adroddiad terfynol) gydag argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cyffredinol ar gyfer ADSS Cymru a Llywodraeth Cymru. |
| 1.4 | Datblygu terminoleg safonol ar gyfer asesiadau gofalwyr di-dâl y gellir ei chyflwyno ar draws pob platfform cyfryngau cymdeithasol / pob gwefan awdurdod lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o fanteision asesiadau gofalwyr. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Mawrth 2026 | Adolygiad o derminoleg safonol (Atodiad G) wedi'i gwblhau gydag enghreifftiau o arfer da wedi'u cofnodi. Argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cyffredinol. |

| **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 2**<br>**Dealltwriaeth gofalwyr o asesiadau** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Tasg** | **Pwy?** | **Pryd?** | **Diweddariad** |
| 2.1 | Datblygu deunyddiau mewn fformat hawdd ei ddarllen i wella dealltwriaeth gofalwyr o asesiadau, gyda phwyslais ar y ffaith nad asesiad o'u gallu ydyw, gan ganolbwyntio ar y manteision posibl a'r canlyniadau cadarnhaol. | Gofal Cymdeithasol Cymru / ADSS Cymru | Ionawr 2026 | Ni lwyddwyd i gwblhau'r gwaith hwn o fewn cwmpas y prosiect hwn. Fodd bynnag, bydd y gwaith ar ddatblygu'r siart llif yn cynorthwyo gyda'r dasg hon, a dylid ei gynhyrchu ar y cyd â gofalwyr. |
| 2.2 | Datblygu gwybodaeth hawdd ei darllen i ofalwyr i'w cefnogi i baratoi ar gyfer asesiad gofalwr, gan gynnwys cydnabod anghenion gofalwyr ifanc. | Gofal Cymdeithasol Cymru / ADSS Cymru | Mawrth 2026 | Mae crynodeb o ddogfen arfer nodedig awdurdodau lleol (Atodiad B yn yr adroddiad terfynol) yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da y dylid eu datblygu ymhellach i gefnogi asesiadau o anghenion gofalwyr. |
| 2.3 | Datblygu canllawiau arfer gorau fel bod y gofalwr yn glir beth i'w ddisgwyl gyda'r asesiad, gan gynnwys y canlynol:<br>• Gall fod wyneb yn wyneb neu rithwir / dros y ffôn<br>• Derbyn gwybodaeth cyn yr asesiad i alluogi gofalwr i baratoi'n iawn ar gyfer yr asesiad<br>• Rhoi'r cyfle i wirio'r nodyn a gofnodwyd am gywirdeb<br>• Arddull asesu empathig, gan wrando'n weithredol ar yr hyn a ddywedir a gwirio'n ôl ar ddealltwriaeth<br>• Caniatáu digon o amser ar gyfer yr asesiad<br>• Heb fod yn feirniadol<br>• Rhoi copi o'r asesiad i'r gofalwr o fewn amserlen benodol<br>• Sgwrs yn seiliedig ar gryfderau | Arweinydd ADSS Cymru gyda chynrychiolwyr y gweithgor / gofalwyr | Mawrth 2026 | Mae siart llif un dudalen yn nodi camau i asesiad da ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol wedi'i ddatblygu. Bydd hyn, ynghyd â'r enghreifftiau nodedig sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad B yn yr adroddiad, yn llywio datblygiad canllawiau arfer gorau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Egluro lefel y cymwysterau, yr hyfforddiant neu'r cymhwysedd sydd ei hangen ar yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad | | | |
| 2.4 | Datblygu deunyddiau penodol sy'n addas ac yn berthnasol i ofalwyr ifanc. | Arweinydd ADSS Cymru gyda chynrychiolwyr y gweithgor / gofalwyr | Mawrth 2026 | Penderfynwyd eithrio deunyddiau gofalwyr ifanc o gwmpas y gwaith hwn gan fod adnoddau'n gyfyngedig. Rhagwelwyd y byddai modd rhannu canfyddiadau o'r gwaith cyffredinol yn ehangach mewn perthynas ag asesiadau gofalwyr ifanc. |
| **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 3**<br>**Ymarfer cofnodi: dull ymarferwyr o asesu** | | | | |
| **Cyf** | **Tasg** | **Pwy?** | **Pryd?** | **Diweddariad** |
| 3.1 | Sefydlu gweithgor gyda chynrychiolaeth ranbarthol o bob awdurdod lleol i roi cyngor ac arweiniad a chynorthwyo gyda gweithredu'r camau gweithredu a nodwyd. | Arweinydd ADSS Cymru | Medi 2025 | Sefydlwyd gweithgor prosiect gyda chynrychiolaeth o bob rhanbarth yng Nghymru. Mae pob awdurdod lleol wedi ymgysylltu â'r broses. |
| 3.2 | Datblygu Canllawiau Arfer Gorau Cymru Gyfan ar gyfer asesiadau gofalwyr, gyda therminoleg safonol, yn seiliedig ar ganfyddiadau arolygon diweddar yr awdurdodau lleol. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Mawrth 2026 | Adolygiad o derminoleg safonol wedi'i gwblhau gydag enghreifftiau o arfer da wedi'u cofnodi. Argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cyffredinol. |
| 3.3 | Sefydlu canllawiau i ymarferwyr awdurdodau lleol sy'n cynnal asesiadau ar arfer gorau ar gyfer cofnodi'r sesiynau hyn, gan gynnwys adrodd ar wybodaeth am berfformiad. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Mawrth 2026 | Mae adolygiad o gofnodi gwybodaeth am y sgwrs gyda gofalwyr wedi'i gwblhau (Atodiad F) ac mae |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | argymhellion penodol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cyffredinol.<br>Mae angen gwaith pellach o ran casglu gwybodaeth am berfformiad. |
| 3.4 | Adnewyddu deunyddiau hyfforddiant i gefnogi ymarferwyr i gynnal asesiadau gofalwyr di-dâl. | Gofal Cymdeithasol Cymru | Chwefror 2026 | Adolygiad o ddeunyddiau hyfforddiant ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i gwblhau gydag argymhellion ar gyfer gwella – mae diweddariadau i'r deunyddiau yn mynd rhagddynt.<br>Mae gwaith i ddatblygu fideos ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau ar y gweill. |
| 3.5 | Diweddaru tudalennau adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru gyda'r deunyddiau hyfforddiant newydd gyda'r opsiwn ar gyfer e-ddysgu fel bod gan ymarferwyr awdurdodau lleol fynediad at y rhain. Gall hyn gynnwys enghreifftiau o asesiadau o anghenion gofalwyr wedi'u cwblhau. | Gofal Cymdeithasol Cymru | Mawrth 2026 | Gwaith sy'n mynd rhagddo yn seiliedig ar 3.4. |
| 3.6 | Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o gyfrifoldeb awdurdodau lleol i gynnig asesiadau gofalwyr ac o'r deunyddiau dysgu sydd ar gael i gynnal asesiadau gofalwyr. | ADSS Cymru / Gofal Cymdeithasol Cymru | Mawrth 2026 | Diweddariadau rheolaidd i Grŵp Arweinyddiaeth ADSS Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.7 | Mae gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol yn cael gwybod am yr adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael ar gyfer cynnal asesiadau gofalwyr a phwysigrwydd cynnig yr asesiad hwn i bob gofalwr di-dâl. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Mawrth 2026 | Adolygiad o holl wybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol wedi'i gwblhau (Atodiad C) gydag argymhellion wedi'u cynnwys mewn adroddiad cyffredinol ar gyfer ADSS Cymru a Llywodraeth Cymru.<br>Crynodeb o enghreifftiau arfer nodedig o wybodaeth, cyngor a chymorth wedi'i baratoi, sef Atodiad B yn yr adroddiad cyffredinol. |
| 3.8 | Dylai cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod ymarferwyr rheng flaen yn cael hyfforddiant ac adnoddau perthnasol i gynnal asesiadau gofalwyr di-dâl. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Mawrth 2026 | Diweddariadau rheolaidd i Grŵp Arweinyddiaeth ADSS Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan.<br>Fideos hyfforddi newydd wedi'u datblygu i gynorthwyo ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau.<br>Siart llif un dudalen wedi'i gynhyrchu sy'n cynnwys camau hawdd eu deall i ymarferydd eu dilyn wrth gynnal asesiad. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.9 | Dylai prifysgolion roi sicrwydd bod pwysigrwydd asesiadau gofalwyr wedi'i gynnwys ar faes llafur y cwrs ar gyfer darparwyr hyfforddiant gofal cymdeithasol. | Gofal Cymdeithasol Cymru | Mawrth 2026 | Cyfarfod i'w drefnu ar gyfer trafodaethau pellach gyda phrifysgolion. |
| **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 4**<br>**Cynnal cysylltiad â gofalwyr / adolygiadau** | | | | |
| **Cyf** | **Tasg** | **Pwy?** | **Pryd?** | **Diweddariad** |
| 4.1 | Datblygu adnoddau dysgu i nodi gwybodaeth am gymorth yn glir i ofalwyr a sut i gael mynediad at hyn, gan gynnwys defnyddio taliadau uniongyrchol. | Gofal Cymdeithasol Cymru | Mawrth 2026 | Mae adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi staff gofal cymdeithasol i helpu gofalwyr i gael mynediad at daliadau uniongyrchol wedi'i gwblhau ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad H yn yr adroddiad terfynol, ynghyd â'r camau gweithredu sydd eu hangen ar gyfer gwelliannau. |
| 4.2 | Sicrhau bod pob asesiad gofalwr yn cael ei adolygu yn unol â chanlyniadau personol. | Arweinydd ADSS Cymru gyda'r gweithgor | Mawrth 2026 | Mae siart llif camau i asesiad da yn tynnu sylw at bwysigrwydd canlyniadau personol.<br>Mae fideos a deunyddiau hyfforddiant eraill yn canolbwyntio ar yr angen hwn. |

## Papurau a adolygwyd wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu

Wedi'u darparu gan Alyson Hoskins a Denise Moultrie:

- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofalwyr Di-dâl – Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac Asesiadau o Anghenion Gofalwyr   Adroddiad: Grŵp Gorchwyl a Gorffen – Canfyddiadau a'r camau arfaethedig nesaf Tachwedd 2024
- Gweithdy Uwch-arweinwyr ADSS Cymru 15 a 22 Mai 2025: Canfyddiadau o arolygon
- Cyflwyniad PowerPoint i gyfarfod Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan 14 Chwefror 2025
- Cyflwyniad PowerPoint i uwch-arweinwyr 15 a 22 Mai 2025
- Cynllun Gweithdy Uwch-arweinwyr ADSS Cymru

Papurau ychwanegol o adolygiad bwrdd gwaith:

- Llywodraeth Cymru:Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl – Yr hyn a wnawn i wella cydnabyddiaeth a chefnogaeth i ofalwyr di-dâl. Cyhoeddwyd: 23 Mawrth 2021
- Llywodraeth Cymru:Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl: cynllun cyflawni 2021 Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer gofalwyr di-dâl yn cefnogi ein strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl. Cyhoeddwyd: 25 Tachwedd 2021
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:  Adolygiad cyflym o sut mae hawliau gofalwyr di-dâl wedi cael eu cynnal yn ystod ac ar ôl yr ymateb i COVID–19 – Mehefin 2023
- Cofnodion o gyfarfod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr – 19 Mehefin 2025
- Gofal Cymdeithasol Cymru: Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr Adnodd A – Llawlyfr Hyfforddiant – Ionawr 2019
- Gofal Cymdeithasol Cymru: Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr Adnodd B – Pecyn sleidiau hyfforddiant – Ionawr 2019
- Gofal Cymdeithasol Cymru: Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr Adnodd C – Llyfr gwaith hunanhyfforddi ymarferwyr –Ionawr 2019
- Gofal Cymdeithasol Cymru: Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr Adnodd D – Pecyn cymorth ymarferwyr – Ionawr 2019
- Gofal Cymdeithasol Cymru a Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, Cymorth ataliol i ofalwyr sy'n oedolion yng Nghymru: adolygiad cyflym 2018

**Alyson Hoskins – arweinydd ADSS Cymru ar ran Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan**

**Nichola Harrison – Rheolwr Prosiect**

3 Medi 2025

# Atodiad B: Crynodeb o enghreifftiau o arfer nodedig gan awdurdodau lleol

| Pwnc | Awdurdod lleol | Math o adnodd | Dolen i'r adnodd |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth, cyngor a chymorth ar wefannau cynghorau | Ynys Môn | Gwefan cyngor:<br>Gwybodaeth am asesiadau gofalwyr<br>Ydych chi'n gofalu am rywun? | Asesiad gofalwr<br>A ydych chwi'n ofalydd?<br>Ydych chi'n edrych ar ôl rhywun.pdf |
| | Gwynedd | Gwefan cyngor: Llyfryn edrych ar ôl rhywun<br>Sut i gael y gorau o'ch dogfen asesu? | Asesiad i ofalwyr<br>Edrych ar ôl rhywun?<br>Asesiad-Anghenion-Gofalwyr.pdf |
| | Sir y Fflint | Gwefan cyngor: Canllawiau Hanfodol ar gyfer Gofalwyr | Help i Ofalwyr<br>Canllawiau Hanfodol ar gyfer Gofalwyr |
| | Sir Ddinbych | Dolen i daflen ffeithiau asesiad Gofalwyr Cymru, Eich canllaw i gael asesiad yng Nghymru | https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/gofalwyr/asesiad-o-anghenion-gofalwr.aspx |
| | Conwy | Dolenni i fideos Gofalwyr Cymru:<br>Canllaw gofalwyr i asesiadau. Beth i'w ddisgwyl. Sut maen nhw'n cael eu gwneud | Beth yw Asesiad Gofalwyr? – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Wrecsam | Sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig – dolen i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Dolen i Carers UK: Cael asesiad, pecyn cymorth a fideo i ofalwyr | Gofalwyr di-dâl \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Carer's assessment \| Carers UK<br>[byddai'n well cael dolen uniongyrchol i ddogfen asesu Carers Wales gan y byddai hon yn haws ei llywio] |
| | Caerdydd | Gofynnwch am asesiad o anghenion gofalwyr ar-lein | Asesiad gofal |

| Pwnc | Awdurdod lleol | Math o adnodd | Dolen i'r adnodd |
| --- | --- | --- | --- |
| | Bro Morgannwg | Siarter Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a'r Fro<br>Llesiant Meddwl – Gofalwyr Di-dâl<br>Dolenni i wefan Gofalwyr Cymru a dogfen hawdd ei deall | https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/adult_services/Unpaid-Carers/Carers-Assessment.aspx<br><br>Dewis Cymru<br>https://www.carersuk.org/media/1jvoiczu/final-welsh-easy-read-guide-to-assessments-in-wales-2023-2024.pdf |
| | Sir Benfro | Gwybodaeth i ofalwyr<br>Taflen ffeithiau asesiad Gofalwyr Cymru<br>Taflen ffeithiau Gofalwyr Cymru ar ddod allan o'r ysbyty<br>Gofalwyr Cymru – Gofalu am rywun<br>Gofalwyr Cymru – Canllaw i ofalwyr sy'n gweithio<br>Gofalwyr Cymru – Cael eich clywed – canllaw hunaneirioli | Cymorth a chefnogaeth – Cyngor Sir Penfro |
| | Ceredigion | Gwefan wedi'i hailwampio'n ddiweddar<br>Pecyn gwybodaeth i ofalwyr<br>Cylchgrawn gwasanaeth gwybodaeth i ofalwyr<br>Canllaw i ofalwyr ar gynllunio at argyfyngau –<br>Gwybodaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig –<br>Canllawiau Gofalwyr Cymru<br>Stondinau gwybodaeth rheolaidd mewn digwyddiadau cymunedol.<br>Cynghrair y Gofalwyr (chwarterol) a fforymau ledled y sir.<br>Cylchlythyr gofalwyr ifanc a gofalwyr oedolion<br>Digwyddiadau ar gyfer Wythnos Gofalwyr, Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc a Diwrnod Hawliau Gofalwyr.<br>Mae swyddogion datblygu gofalwyr wedi'u lleoli yn yr un tîm â Chysylltwyr Cymunedol a'r Swyddog Heneiddio'n Dda, sy'n | Cymorth i Ofalwyr – Cyngor Ceredigion –<br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr – Cyngor Sir Ceredigion<br>Cylchgrawn Gofalwyr – Gaeaf 2025<br>OS YDYCH CHI'N GOFALU AM RHYWUN, EFALLAI Y BYDD ANGEN I CHI DDARLLEN HWN<br>Pecyn Gwybodaeth Ddigidol ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig yng Ngheredigion<br>Pecyn Cymorth Hunan-gymorth i Ofalwyr – Cyngor Sir Ceredigion |

| Pwnc | Awdurdod lleol | Math o adnodd | Dolen i'r adnodd |
|---|---|---|---|
| | | cynyddu'r cyrhaeddiad o ran darparu gwybodaeth ynghylch cymorth i ofalwyr.<br>Cyflwyniad gwasanaeth – a gyflwynir i sefydliadau a thimau ledled Ceredigion | |
| | Gwent | Canllaw i rieni a gofalwyr – Pam nad yw byth yn rhy hwyr i gynllunio ymlaen llaw<br>Cynnig i Ofalwyr | Mae Canllaw Gofalwyr ar gael fel pdf. Mae Swyddfa'r Gofalwyr ar gael fel dogfen Word. |
| | Sir Fynwy | Gwybodaeth i ofalwyr ar-lein<br>Llawlyfr Gofalwyr – dogfen Word | Croeso i Rwydwaith Gofalwyr Sir Fynwy – Sir Fynwy |
| | Caerffili | Cynllunio at argyfyngau | Caerffili – Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| | Powys | Mae ein darparwr a gomisiynwyd yn mynychu cyfarfodydd sgrinio dyddiol a hwylusir gan ASSIST (ein drws blaen). | https://cy.powys.gov.uk/article/1821/Asesiad-Anghenion-Gofalwr |
| | Rhanbarth Gorllewin Morgannwg (Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) | Gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi'u cryfhau: Mae cynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wedi gwella hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr i staff, wedi sefydlu Swyddogion Datblygu Gofalwyr, ac wedi creu Hybiau Cymorth Cynnar lleol i ddarparu cymorth amserol, wedi'i deilwra a gwella cydnabyddiaeth gofalwyr. Mae Castell-nedd Port Talbot wedi adolygu'r adnoddau digidol ar-lein ar gyfer gofalwyr ac wedi creu posteri gyda chodau QR er mwyn cael mynediad hawdd at wybodaeth well. | |
| | Merthyr | Gwybodaeth ar-lein i ofalwyr sy'n oedolion | https://www.merthyr.gov.uk/resident/social-services-and-well-being/adult-social-care/carers/adult-carers/?lang=cy-GB& |

| Pwnc | Awdurdod lleol | Math o adnodd | Dolen i'r adnodd |
|---|---|---|---|
| | Rhondda Cynon Taf | Gwybodaeth asesu gofalwyr ar-lein<br>Mae Cynllun Cynnal y Cynhalwyr yn hyrwyddo cymorth i ofalwyr gyda staff Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion, e.e. rhannu gwybodaeth/diweddariadau gyda gwasanaethau "drws ffrynt" fel ein timau Pwynt Mynediad Sengl a'n Hymateb Cyntaf<br>Mae hyn yn cynnwys cael "ffurflen gais galwad yn ôl gofalwyr" ar waith. Os bydd gofalwr yn ffonio'r cyngor, mae'r gweithiwr sy'n derbyn yr alwad yn y tîm ymateb cyntaf "drws blaen" yn cwblhau ffurflen syml a anfonir yn uniongyrchol i flwch derbyn generig Cynllun Cynnal y Cynhalwyr, sydd wedyn yn sbarduno ymateb amserol a galwad yn ôl gan staff y cynllun.<br>Gwneir galwad ffôn "galwad croeso" i bob gofalwr newydd sy'n cael ei gyfeirio at Gynllun Cynnal y Cynhalwyr a chwblheir asesiad cymesur.<br>Mae pob gofalwr newydd sydd wedi cofrestru gyda Chynllun Cynnal y Cynhalwyr yn derbyn "pecyn croeso" gyda chyfoeth o wybodaeth sydd wedi'i theilwra i gais/sefyllfa'r gofalwr, fel y nodir yn y "galwad croeso".<br>Mae Cynllun Cynnal y Cynhalwyr wedi datblygu pecynnau gwybodaeth penodol ar gyfer pynciau penodol a dolenni i wybodaeth/adnoddau y maent yn eu hanfon at ofalwyr, e.e. pecyn dementia, pecyn rhieni/gofalwyr, pecyn cymorth llesiant a chwnsela | https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/AdultsandOlderPeople/Caringforotherpeople/Carersassessments.aspx |
| | | | |
| Taliadau uniongyrchol | Sir y Fflint | Taflen | Taflen Wybodaeth: Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr |
| | Caerdydd | Taflen taliadau uniongyrchol – canllaw generig | |
| | Bro Morgannwg | Taflen taliadau uniongyrchol<br>Polisi taliadau uniongyrchol<br>Polisi hawdd ei ddeall ar daliadau uniongyrchol | |

| Pwnc | Awdurdod lleol | Math o adnodd | Dolen i'r adnodd |
|---|---|---|---|
| | Ceredigion | Gwasanaethau cymorth taliadau uniongyrchol – gwybodaeth ar-lein | Taliadau uniongyrchol – Cyngor Sir Ceredigion |
| | Gwent | Taliadau uniongyrchol – Canllawiau / taflenni ffeithiau a ddefnyddir ledled Gwent. | https://gwentrpb.wales/direct-payments |
| | Rhanbarth Gorllewin Morgannwg (Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) | System taliadau uniongyrchol wedi'i gwella: Mae'r ddau gyngor wedi blaenoriaethu adolygu taliadau uniongyrchol. Symleiddiodd Abertawe'r broses ymgeisio, gan leihau amseroedd aros, tra bod Castell-nedd Port Talbot yn gweithio ar argymhellion i wella ymatebolrwydd ac opsiynau creadigol. | |
| | | | |
| Gofalwyr ifanc | Sir y Fflint | Dogfen cyn-asesu gofalwyr ifanc | |
| | Sir Ddinbych a Chonwy | Asesiadau anghenion gofalwyr ifanc | |
| | Bro Morgannwg | Padlet Gofalwyr Ifanc<br>Siarter Gofalwyr Ifanc Caerdydd a'r Fro<br>Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion | |
| | Ceredigion | Pecyn cymorth hunan-gymorth i ofalwyr – Gwasanaeth a Gomisiynwyd Gofalwyr Ifanc | Ardal Gofalwyr Ifanc \| Gofalwyr Ceredigion |
| | Gwent | Dogfen gofalwyr ifanc | |
| | Powys | Arhosiad seibiant preswyl i deuluoedd â phlant niwroamrywiol yn dilyn angen a nodwyd. | |
| | Rhondda Cynon Taf | Ar gyfer y Gwasanaeth Gofalwyr Oedolion Ifanc mae cysylltiadau a phrosesau pontio effeithiol iawn ar waith gyda'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc, sy'n cynnwys digwyddiadau pontio a gynhelir o leiaf bob deufis. | |

| Pwnc | Awdurdod lleol | Math o adnodd | Dolen i'r adnodd |
|---|---|---|---|
| | | Mae gan y Gwasanaeth Gofalwyr Oedolion Ifanc gysylltiadau rhagorol â darparwyr cymorth llesiant mewn colegau lleol i hyrwyddo'r gwasanaeth ac i godi ymwybyddiaeth | |
| | | | |
| Asesiadau o anghenion gofalwyr | Caerdydd | Cyfeiriadur gwasanaethau defnyddiol<br>Taflen ffeithiau yn manylu ar beth yw gofalwr a'r cymorth sydd ar gael<br>Llythyr cynnig wedi'i dderbyn – taflen ffeithiau Gofalwyr Cymru wedi'i hanfon<br>Cylchlythyr Gofalwyr Di-dâl | Dim ond pan dderbynnir atgyfeiriad ar gyfer asesiad y caiff gwybodaeth ei hanfon allan.<br>Dolen i daflen ffeithiau Gofalwyr Cymru |
| | Bro Morgannwg | Llythyr asesiad anghenion cyn-ofalwyr<br>Llythyr asesiad anghenion ôl-ofalwyr<br>Canllaw arfer da ymarferwyr ar gyfer cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr<br>Matrics trothwyon<br>Bwletin Gofalwyr Di-dâl y Fro<br>Nod y Fenter sy'n Gyfeillgar i Ofalwyr yw gwella a chydnabod cymorth i ofalwyr di-dâl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan ddarparu hyfforddiant, adnoddau a gweithdai. | |
| | Powys | Ffurflen hunanasesu holiadur gofalwyr<br><br>Prosiect seibiant creadigol – dull pwrpasol a theilwredig i fodloni canlyniadau a chryfderau'r unigolyn.<br><br>Mae Powys wedi ailosod eu fforwm Ymgysylltu i Newid ar gyfer gofalwyr yn dilyn ymgysylltu â gofalwyr ynghylch sut yr hoffent i hyn edrych, gyda'r canlyniadau canlynol:<br>• Mae gan ofalwyr gyfleoedd i deimlo eu bod yn cael eu clywed ac i nodi blaenoriaethau sy'n bwysig iddyn nhw<br>• Mae gofalwyr yn cael eu grymuso i gael llais cyfartal i ddylanwadu ar newid trwy sianeli llywodraethu cadarn | |

| Pwnc | Awdurdod lleol | Math o adnodd | Dolen i'r adnodd |
|---|---|---|---|
| | | • Mae pob partner ac asiantaeth yn cydweithio i gefnogi iechyd a llesiant y gofalwr a'i deulu | |
| | Sir Benfro | Taflen ffeithiau asesiad Gofalwyr Cymru<br>Gofalwyr Cymru – Taflen ffeithiau dod allan o'r ysbyty<br>Gofalwyr Cymru – Gofalu am rywun<br>Gofalwyr Cymru – Canllaw i ofalwyr sy'n gweithio<br>Gofalwyr Cymru – Cael eich clywed – canllaw hunaneirioli | Cymorth a chefnogaeth – Cyngor Sir Penfro |
| | Ceredigion | Tudalennau gwe'r cyngor<br>Taflen ffeithiau gofalwyr – paratoi ar gyfer asesiad o anghenion gofalwr ifanc, canllawiau Gofalwyr Cymru<br>Canllaw i Ofalwyr: Paratoi ar gyfer eich Asesiad o Anghenion Gofalwr. | Asesiadau Gofalwyr – Cyngor Sir Ceredigion<br>Taflen Ffeithiau Gofalwyr: Paratoi ar gyfer eich Asesiad o Anghenion Gofalwr |
| | Gwent | Canllawiau ar gyfer cwblhau dogfen asesiad o anghenion gofalwr | |
| | Rhanbarth Gorllewin Morgannwg (Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) | Gwasanaethau seibiant wedi'u gwella: Mae cynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wedi cyflwyno opsiynau seibiant mwy hyblyg, gan ganiatáu i ofalwyr archebu seibiannau wedi'u teilwra heb gymeradwyaethau hir, gan gynnwys amrywiol gyfleoedd preswyl a dydd. Mae seibiant nyrsio yn parhau i gael ei adolygu. | |
| | | | |
| Cynnal cysylltiad â gofalwyr | Ceredigion | Cynnal cysylltiad â gofalwyr ac adolygu<br>• Aelodaeth Cyflogwyr i Ofalwyr<br>• Polisi a phasbort gofalwyr<br>• Cofrestr gofalwyr a cherdyn gofalwr | |
| | Rhanbarth Gorllewin Morgannwg (Abertawe a | **Cymorth yn y gweithle i ofalwyr wedi'i ehangu:** Diweddarwyd polisi gweithio hyblyg gan Gyngor Abertawe a chodi ymwybyddiaeth yn fewnol, tra ymunodd Castell-nedd Port Talbot | |

| Pwnc | Awdurdod lleol | Math o adnodd | Dolen i'r adnodd |
|---|---|---|---|
| | Chastell-nedd Port Talbot) | â'r Cynllun Cyflogwyr i Ofalwyr i roi cyngor a chymorth gan gymheiriaid i staff. Mae'r ddau gyngor yn pwysleisio cefnogi gweithwyr i gydbwyso gwaith a gofal.<br>**Cyfathrebu rhwng gweithwyr/gofalwyr:** Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Abertawe wedi datblygu menter ymgysylltu staff i gynyddu cyfathrebu gwybodaeth o sefydliadau trydydd sector i ddarpariaeth y gweithlu trwy ddefnyddio Hyrwyddwyr Gofalwyr. | |
| | Merthyr | Partneriaeth Gofalwyr Di-dâl Merthyr Tudful: Tan 2021, gwasanaeth sy'n diwallu anghenion gofalwyr waeth beth fo unrhyw nodweddion gwarchodedig neu anghenion, cyflyrau neu anableddau amrywiol yr unigolyn yr oeddent yn gofalu amdano.<br>Hwb canol y dref: Darparu cymorth wyneb yn wyneb galw heibio i ofalwyr di-dâl pum diwrnod yr wythnos – gan weithredu gyda chysylltiadau uniongyrchol â budd-daliadau, tai a sefydliadau eraill i gefnogi gofalwyr ag anghenion ychwanegol.<br>Hwb/Caffi Niwro – cymorth i ofalwyr sy'n cefnogi unigolyn â chyflwr niwrolegol.<br>Grŵp Facebook – grŵp Facebook preifat ar gyfer gofalwyr di-dâl yn yr ardal i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, cyngor a gwybodaeth, a gweithgareddau ar eu cyfer.<br>Cydgysylltydd Cymorth i Ofalwyr wedi'i nodi fel hyrwyddwr gweithle gofalwyr o fewn yr awdurdod lleol, gan ddarparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i'r gofalwyr hynny sy'n gweithio gyda'r awdurdod lleol.<br>Hunangyfeirio at Wasanaethau Cymorth i Ofalwyr ar gyfer gofalwyr di-dâl; gallant gael mynediad uniongyrchol at fanylion cyswllt i gael cyngor/apwyntiadau pellach.<br>Mae'r Gwasanaethau Cymorth i Ofalwyr yn mynychu boreau coffi, grwpiau, gweithgareddau ac ati i ofalwyr yn rheolaidd, ac yn chwilio am grwpiau a allai fod â gofalwyr anhysbys.<br>Mae'r Gwasanaethau Cymorth i Ofalwyr yn cynnal sesiynau 'galw heibio' rheolaidd mewn lleoedd sy'n boblogaidd, fel | |

| **Pwnc** | **Awdurdod lleol** | **Math o adnodd** | **Dolen i'r adnodd** |
| --- | --- | --- | --- |
| | | canolfannau cymunedol, yr ysbyty lleol, canolfannau hamdden ac ati, i chwilio am ofalwyr newydd.<br>Maent yn gweithio gyda'r coleg lleol i ofalwyr sy'n 18+ oed gael mynediad at gymorth.<br>Mae'r gwasanaethau hefyd yn cynnig ymweliadau cartref i ofalwyr gyda a/neu heb weithwyr cymdeithasol, a sefydliadau trydydd sector eraill fel Cymdeithas Alzheimer ac ati, i dynnu sylw at y ffaith y gall gofalwyr barhau i gael mynediad at gymorth os na allant adael eu cartref.<br>Cysylltiadau rheolaidd â chanolfannau dydd a chartrefi gofal mewnol i gefnogi'r gofalwyr yno. | |
| | | | |
| Cofnodi asesiadau | Ceredigion | Ymarfer cofnodi (asesiadau)<br>• Canllawiau sicrhau ansawdd ar gyfer asesiadau gofalwyr ifanc. Darperir asesiadau gan wasanaeth a gomisiynwyd a sampl Qad gan Gyngor Sir Ceredigion.<br>• Fframwaith sicrhau ansawdd y cyngor ar gyfer asesiadau. | |

**Nicholas Harrison, Rheolwr Prosiect ADSS Cymru**

**6 Rhagfyr 2025**

*Gwybodaeth a ddarparwyd gan aelodau gweithgor y prosiect.*

## Atodiad C: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Mae yno datganiad cenhadaeth ac egwyddorion allweddol sy'n eithaf gwahanol – ond mae'n debyg nad yw'n bwysicach na'r wybodaeth sy'n dod ar ei ôl – 'Sut ydw i fel gofalwr yn cael mynediad at gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol?' | Hafan>Preswylydd>Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol>Gwasanaethau Cymdeithasol>AR GOLL! Mae'n ymddangos eich bod chi'n mynd i 'Cael y cymorth rydych ei angen' yna i 'Cymorth i oedolion' yna i 'Gofalwyr'. Mae'r chwiliad yn gweithio ond nid yw'n hawdd dod o hyd iddo os ydych chi'n clicio trwy dudalennau. Tudalen hir sengl heb offer llywio na chynnwys. | Ddim yn enghraifft wych. Adnoddau cyfyngedig iawn a heb ffocws ar wybodaeth, cyngor a chymorth ond yn canolbwyntio ar asesu a'n hegwyddorion, nad yw gofalwyr o bosibl yn chwilio amdanynt. | Dileu'r egwyddorion, dileu grant na all pobl wneud cais amdano – efallai eu cuddio y tu ôl i ddolenni fel y gellir eu dadactifadu pan nad ydynt ar gael. Ychwanegu offer llywio os ydych chi'n cadw un dudalen fawr a theitlau ac esbonio pwrpas dolenni allanol. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Yn cynnwys 'caethiwed' yn y diffiniad o pam y gallai rhywun fod angen gofal, mae'r testun yn ymddangos yn debyg iawn i rai eraill – a oedd templed blaenorol a ddefnyddiwyd gan bawb neu a yw hwn wedi'i gymryd o'r Ddeddf? Mae taflen ffeithiau i ofalwyr di-dâl yn edrych yn hyfryd ond nid oes unrhyw gyfeiriad at wybodaeth, cyngor a chymorth. | Mae'r dudalen yn dechrau gyda 'Cronfa Cymorth Gofalwyr Cymru' ac yna'n dweud ar unwaith ei bod wedi cau – cuddiwch hyn, rhowch hyn ar y gwaelod – rhowch ddolen – nid yw'n ddelfrydol croesawu pobl i'r dudalen gyda dyma rywbeth na allwch chi ei gael. Mae asesiad gofalwyr yn cyfeirio at 'abl' eto ac mae'r ffocws ar asesiad nid ar wybodaeth, cyngor a chymorth yn gyntaf. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | | Rhai dolenni allanol ond dim esboniad arnynt. Mae cyfeiriad at wybodaeth, cyngor a chymorth yn rhan olaf y dudalen ond yna'n cyfeirio at y 'tîm ar ddyletswydd'. Cymorth trydydd sector – mae un sefydliad a restrir yn ei gwneud hi'n ymddangos mai dyna'r holl gymorth – dim byd ar gyfer cymorth elusennol ar gyfer dementia na chyflyrau eraill nac elusennau gofalwyr mwy cyffredinol. | | |
| https://www.blaenau-gwent.gov.uk/resident/health-wellbeing-social-care/getting-the-help-you-need/help-for-adults/carers/ | | | | |

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Yn glir a hawdd ei deall. Gwybodaeth glir a chynhwysfawr am asesiadau o anghenion gofalwyr a pharatoi ar gyfer un. | Mae'r iaith yn newid rhwng 'gofalwr' a 'gofalwr di-dâl'. | Diffiniad clir o ofalwr di-dâl a hawliau. Hawdd ei deall. Dolenni i TuVida am gymorth ychwanegol a dolenni i'r trydydd sector. Gellid gwneud rhai gwelliannau. | Ynysu cyswllt Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer asesiad. Gwirio'r iaith am gysondeb. Ychwanegu dolen ar gyfer gofalwyr ifanc. Teitl y dudalen yw 'Gofalwyr', yn hytrach na 'Gofalwyr di-dâl' neu 'Gofalu am rywun' – gellid fod yn gliriach ar gyfer at bwy y bwriedir y dudalen. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Dolenni a chysylltiadau clir i 'Gwasanaeth llesiant gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr'. Dolen i'r 'Llyfryn gofalwr di-dâl' ar gyfer cyfeirio. | Mae manylion cyswllt ar gyfer pwynt mynediad cyffredin y cyngor wedi'u rhestru yn adran TuVida – nid yw'n glir mai dyna gyswllt y cyngor na | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sut i gael mynediad at asesiad. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Dolenni gweledol i TuVida – Gwasanaeth Llesiant Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, Gofalwyr Cymru, Cyngor ar Bopeth, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Turn2Us. | Mewnosod dolen i'r wybodaeth am ofalwyr ifanc. | | |
| https://www.penybontarogwr.gov.uk/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-a-llesiant/gofalwyr/ | | | | |

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | . | Hafan > Preswylydd > Oedolion a phobl ifanc (nid Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â thudalen sydd wedyn yn cysylltu'n ôl i 'Gofalu am rywun' o dan 'Oedolion a phobl ifanc') > Gofalu am rywun. Mae 'Gofalyddion ifanc' hefyd ar gael o dan 'Oedolion a phobl ifanc' yna 'Gofalu am rywun'. Efallai na ellir ei chanfod bob amser. | Mae rhai agweddau ar goll – mae'n anodd dod o hyd iddi i ddechrau ond mae'r ffordd y mae gwahanol dudalennau'r wefan yn gyffredinol yn cysylltu â'i gilydd yn golygu eich bod chi'n gallu dolennu'n ôl os ydych chi'n dal i glicio ar ddolenni ac yn y pen draw yn cyrraedd yr wybodaeth rydych chi'n ei disgwyl. Mae angen adolygu'r tudalennau gan fod rhywfaint o'r wybodaeth wedi darfod | Ar y cyfan, mae'r cynnwys yn iawn ond nid yw'r cyfeirio at wybodaeth, cyngor a chymorth yn dda, mae awgrymiadau ar gyfer gofalwyr yn y deg cam cyntaf ond dim manylion cyswllt penodol heblaw am y cysylltwch â ni generig, ac nid yw'n glir a yw hwn yn wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. Dim ond ar y dudalen asesu y mae cyfeiriad at wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Wrth chwilio am dudalen, dangosir dyddiad cyhoeddi |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Tudalen 'Cael help a chymorth' – mae deg awgrym yn ffordd eithaf braf o wneud hynny – dylid gwneud mwy o'r daflen efallai. Mae 'Pan fydd y gofalu yn dod i ben' o ansawdd da. Adran gref ar 'Delio ag argyfyngau' gyda | Cylchlythyr y Gofalyddion – mae'n ymddangos yn anghyson o ran cyhoeddiad, gyda'r cylchlythyr diwethaf wedi'i gyhoeddi yn 2025. Dileu'r adran hon os nad yw wedi'i chwblhau mwyach? 'Gofalu amdanoch eich hun', mae | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | chanllaw a chynllun ynghlwm i'w gwblhau gan ofalwr di-dâl. Mae tudalen ar gyfer 'Grwpiau cefnogi gofalyddion' a oedd yn wahanol i eraill. Mae'r dudalen asesu yn dweud yn benodol y dylid cysylltu â'r tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth ac mae dogfen fewnol i baratoi ar gyfer asesiadau gofalwyr – mae hefyd yn sôn am gefnogaeth i ofalwyr ag anableddau dysgu. | canllawiau ynghlwm yn mynd i wahanol feysydd fel byw'n iach, ond mae'r brif dudalen yn ymdrin â maeth yn unig. Nid oes tudalen gwybodaeth, cyngor a chymorth na manylion cyswllt pwrpasol. | a'r digwyddiadau i gyd yn y gorffennol. | ond ni ellir gweld hynny ar y dudalen. Yn amlwg, mae'n swyddogaeth felly efallai y byddai'n well ar y dudalen yn hytrach na'r chwiliad? |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Amrywiaeth eithaf eang, gan gynnwys llawer o wasanaethau a ddarperir yn fewnol. | Mae nifer o wahanol lefydd y gellir cysylltu â nhw, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn. Gallai fod yn eithaf dryslyd i wybod pa dîm i'w ffonio. | | |
| https://www.caerffili.gov.uk/services/services-for-adults-and-older-people/caring-for-someone?lang=cy-gb | | | | |

## Cyngor Dinas Caerdydd

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Wedi'i rhannu'n dda yn adrannau hawdd eu deall. Cymaint â phosibl wedi'i rhannu'n bwyntiau bwled i'w gwneud mor hawdd â phosibl eu darllen. | Llawer o destu heb unrhyw ddelweddau. Byddai rhywbeth i rannu'r testun yn ddefnyddiol. | Nid yw'n hawdd mynd yn ôl i'r adran 'gofalwyr' heb ddefnyddio'r botwm yn ôl gan nad yw'r saethau ar y brig pan fyddwch mewn adran yn | Gellid cael tudalen i esbonio beth yw 'Hawliau gofalwyr' a 'Dewis Cymru' cyn eich anfon yn syth i wefan. Byddai delweddau i rannu'r testun, yn enwedig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Mae gan ofalwyr ifanc gydgysylltydd gofalwyr ifanc y mae ganddyn nhw wybodaeth gyswllt ar ei gyfer ar y wefan rhag ofn y byddai unrhyw un am gael sgwrs. • Porth teulu. • Prosiect gofalwyr ifanc YMCA Caerdydd. • Dolen i Dewis Cymru. • Hawliau gofalwyr. | • Mae adran 'Dewis Cymru' yn cysylltu'n uniongyrchol â'r wefan. Dim gwybodaeth am beth ydyw ar wefan y cyngor. • Mae hyn hefyd yr un fath ag uchod ar gyfer yr adran 'Hawliau gofalwyr'. | mynd â chi yn ôl i'r adran 'gofalwyr'. Fodd bynnag, mae'n hawdd iawn chwilio yn y bar chwilio am gynnwys. Mae'r teitl 'Edrych ar ôl perthynas neu ffrind' yn dda gan nad yw pawb yn sylweddoli eu bod yn ofalwr ac mae hyn yn arwain at ddechrau sgwrs. Hefyd, y ffaith bod manylion cyswllt yn cael eu gadael ar gyfer cydgysylltydd fel y gall pobl gael sgwrs ac nid dim ond cael eu hanfon i bwynt mynediad / switsfwrdd i'w trosglwyddo. At ei gilydd, mae'n teimlo ychydig fel nad gofalwyr yw'r flaenoriaeth wrth gasglu'r wybodaeth ar eu gwefan at ei gilydd. Dim llawer o esboniad i bethau na pham eich bod chi'n cael eich anfon i wefannau eraill. | yn yr adran 'gofalwyr ifanc', yn braf. Efallai rhyw fath o ffordd hawdd i lywio yn ôl i'r adran 'Gofalwyr'. Ddim yn siŵr a oes gwasanaeth gwybodaeth i ofalwyr y gall pobl ymuno ag ef neu gerdyn gofalwr gan nad yw'n hawdd dod o hyd iddo hyd yn oed wrth chwilio. |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | | | | |
| https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Lles/gofalwyr/Pages/default.aspx | | | | |

## Cyngor Sir Caerfyrddin

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Hawdd llywio gyda gwybodaeth y tu ôl i wahanol eiconau/teils – rwy'n hoffi'r effaith weledol hon. Mae esboniad o beth yw gofalwr di-dâl yn bodoli. | Gellid gwella'r diffiniad o ofalwr di-dâl i gynnwys cyflyrau, h.y. anabledd, anghenion ychwanegol ac ati. Gellid nodi hefyd nad yw gofalwyr di-dâl yn cael cyflog am eu rôl, ond nid yw'r Lwfans Gofalwr yn cyfrif fel cyflog. | Diweddarwyd y dudalen ar: '30/10/25' ar frig y dudalen, ac rwy'n hoffi hyn. Arfer da i ofalwyr wybod a yw'r wybodaeth yn gyfredol ai peidio. Clir a hawdd llywio i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Mae teils llywio fel delwedd yn ddefnyddiol. Gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n gynhwysfawr. | Efallai y dylid ystyried newid teitl y dudalen i 'Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl' yn lle 'Cefnogaeth i ofalwyr'. Mae rhif ffôn ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth ac asesiad yn hanfodol, ac o bosibl cyfeiriad post. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Gwybodaeth helaeth o dan eiconau gwahanol. Mynediad clir i asesiad drwy ddolen we, ffôn neu'n ysgrifenedig. Cyswllt clir ar gyfer gofalwyr ifanc. | Anodd dod o hyd i rif ffôn i ofyn am asesiad neu wybodaeth, cyngor a chymorth. Wnes i ddim dod o hyd i un. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Adferiad. Cysylltu Sir Gâr. Ymddiriedolaeth y Gofalwyr. Crossroads Gorllewin Cymru. Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru. Breakthro. Planed. Gofalwyr Cymru. Gwefannau llywodraeth. Opsiynau seibiant byr. | | | |
| https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/gwasanaethau-cymdeithasol/cefnogaeth-i-ofalwyr/ | | | | |

## Cyngor Sir Ceredigion

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Hawdd dod o hyd iddi – Hafan> Lles a Gofal> Cymorth i Ofalwyr. Mae rhai tudalennau'n syml iawn ac yn berthnasol ac yn hawdd eu deall, fel y dudalen 'Asesiadau gofalwyr' a'r dudalen 'Cymorth Ysbyty'. Mae tudalennau 'Gofalwyr Ifanc' gydag 'Oedolion' ond, gan eu bod nhw o dan y categori eithaf generig ac eang 'Lles a Gofal', mae hyn yn gwneud synnwyr. | Mae gwefan 'Gofalwyrceredigioncarers.cymru' (Credu) yn ymddangos cyn tudalennau'r cyngor ar beiriannau chwilio. Mae tudalen o dan 'Lles a Gofal' o'r enw 'Chwilio am Wybodaeth, Cyngor a Chymorth' – mae yma dolenni i amrywiaeth o adnoddau ond dim byd sy'n gysylltiedig â gofalwyr a dim disgrifiadau o'r hyn sydd y tu ôl i'r dolenni hynny os nad oeddech chi eisoes yn gwybod. Mae angen diweddaru ac adolygu rhai tudalennau – e.e. 'Hawliau gofalwyr'. | Mae llawer o wybodaeth ar gael ar amrywiaeth eang o bynciau a rhai enghreifftiau posibl o arfer gorau fel y pecyn hunangymorth a thudalennau 'Cardiau gofalwyr Ceredigion'. | Wedi dyddio – dim 'cynnwys' nag offer llywio o fewn llawer o dudalennau ac mae'r rhai sydd â'r cynnwys hwnnw wedi'u cuddio gan 'flychau' wrth i chi symud rhyngddynt. Mae angen adolygu rhywfaint o'r cynnwys ond mae llawer yn gyfredol. Mae yna lawer iawn o gynnwys ond mae wedi'i rannu a'i drefnu'n eithaf da gyda rhywfaint o welliant yn bosibl. Mae yna gysylltiadau cyfyngedig i wefannau yn y trydydd sector. Nid oes tudalen gwybodaeth, cyngor a chymorth na rhif ffôn penodol ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi'u rhestru ond mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, ond mae honno'n ymddangos fel rhestr aelodaeth diweddariadau e-bost/digidol. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Amrywiaeth o ddolenni – arddull ddylunio wedi dyddio. Mae'n glir gyda phwy y dylid cysylltu ar gyfer asesiad ac mae tudalen bwrpasol ond dim byd ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r dudalen 'Ydych chi'n ofalwr newydd?' yn syniad da – byr ac ymarferol iawn – ddim yn ormod i orfod ei darllen – bron yn rhestr wirio – dolenni i becyn gwybodaeth i ofalwyr sydd, ar y cyfan, wedi'i ddiweddaru. Mae'r dudalen | Byddai'n well peidio â chynnwys cyfeiriadau at gyfraddau talu ar y dudalen 'Arian a Budd-daliadau' fel nad oes rhaid eu hadolygu'n flynyddol. Y canllaw asesu yw ffurflen Gofalwyr Cymru 2016 – mae angen ei diweddaru neu ddolen i'w gysylltu â'r ffurflen gyfredol. Canllawiau a gynhyrchwyd yn lleol ar gyfer asesiadau i oedolion a gofalwyr ifanc. Rwy'n cwestiynu pwrpas y dudalen 'Cynllunio cymorth i ofalwyr a deddfwriaeth sy'n effeithio | | |

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| | 'Hawliau Gofalwyr' – 'Cyflogaeth a Dysgu Personol' yn dda o ran cynnwys – gallai'r cynllun fod yn well – mae'r wybodaeth wedi'i chuddio ar yr olwg gyntaf. Mae 'Iechyd a Lles' – 'Pecyn Cymorth Hunangymorth i Ofalwyr' yn syniad gwahanol o'i gymharu â gwefannau eraill a adolygwyd – gall fod yn syniad da i'w weithredu'n genedlaethol. Mae tudalennau 'Cardiau Gofalwyr Ceredigion' yn dda ac yn hawdd eu deall ac mae'r holl ddolenni'n gweithio i wneud cais – disgowntiau lleol. | ar ofalwyr'. Nid yw'n amlwg bod y dudalen 'Gofalwyr mewn Cyflogaeth' i fod i gefnogi cyflogwyr i gefnogi gofalwyr yn eu gweithlu ac nid i gefnogi gofalwyr yn uniongyrchol ochr yn ochr â gwaith. Mae cynnwys y dudalen 'Gofalwyr Ifanc' yn iawn ond mae'n cael ei guddio gan gwymplen wrth i chi lywio – gellid ei wella. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Cyfeirio da at wasanaethau mewnol a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ofalwyr. | Mae rhai dolenni i wasanaethau allanol ar goll. Mae'r defnydd o rai o ddogfennau'r trydydd sector wedi dyddio. | | |
| https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/lles-a-gofal/cymorth-i-ofalwyr/ | | | | |

## Cyngor Bwrdeistref Conwy

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy’n gweithio’n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw’r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Anodd dod o hyd i unrhyw wybodaeth ddefnyddiol. Nid yw’n anodd ei deall ond nid yw’n ymddangos fel pe bai unrhyw beth yno mewn gwirionedd. Yr adran ‘Rhieni sy’n ofalwyr’ yw’r rhan orau ar y wefan. Mae popeth arall fel ychydig linellau yn egluro cyn lleied â phosibl ac yna mae gwybodaeth gyswllt neu ddolenni i wefannau eraill i esbonio / rhoi cymorth a chefnogaeth. | Dylid rhoi gwybodaeth a fyddai’n ddefnyddiol ac yn hawdd ei deall i ofalwyr fel bod ganddynt un ganolfan wybodaeth yn lle llawer o ddolenni i barhau i chwilio am gymorth. | Rwy’n teimlo bod hon yn wefan wael iawn ac, fel gofalwr, ni fyddwn yn gweld hyn yn ddefnyddiol nac yn teimlo bod y cyngor eisiau fy nghefnogi yn fy rôl ofalu. Anodd llywio i ddod o hyd i unrhyw beth defnyddiol. Roeddwn i’n meddwl fy mod i’n chwilio yn y lle anghywir am ychydig ac o bosibl nid gwefan y cyngor, ond dyna sydd yma. | Ailwampio pob tudalen gyda ffocws ar roi’r cymorth y mae gofalwyr yn chwilio amdano. |
| **A yw’r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Ydy, mae llwythi, ond mae’n teimlo fel bod yr adnoddau eraill yn cael eu defnyddio i wneud yn iawn am y diffyg gwaith maen nhw wedi’i wneud i’w gwefan. | Symleiddio dolenni gan ei bod braidd yn llethol gweld rhestr o leoedd pan fydd sawl dolen i’r un sefydliad. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Gofalwyr Cymru – tudalennau amrywiol. Amrywiaeth o elusennau gwahanol. Cyngor ar Bopeth. | Yr un fath â’r uchod. | | |
| https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Carers/Information-Advice-and-Assistance-for-Carers.aspx | | | | |

## Cyngor Sir Ddinbych

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Rhoddir y dewis o gael galwad yn ôl i ofalwyr ifanc. Llawer o ddolenni i wefannau allanol. | Llawer o destun du yn erbyn sgrin wen, yn ei gwneud hi'n anodd ei ddarllen / ei ddilyn. Byddai delwedd neu ddwy a fformatio gwell (tudalen adrannau) o gymorth. | Gwybodaeth sylfaenol wedi'i chynnwys ac mae dolenni i Credu/Dewis ond heb lawer o wybodaeth ynghylch pam mae ei hangen ar ofalwyr na sut i gael mynediad ati. Nid yw'n ymddangos bod gofalwyr yn flaenoriaeth. Yn teimlo'n ddi-groeso gydag iaith ffurfiol iawn a dim esboniad gwirioneddol o beth yw'r manteision i ofalwyr sy'n symud ymlaen i gael mynediad at gymorth. | Gwybodaeth ar sut i gofrestru fel gofalwr yn y sir gyda dolenni. Ychwanegu cwymplen llywio ar y dudalen fel y gallaf weld yr holl dudalennau a gwybodaeth arall sydd ar gael i ofalwyr (a chymorth perthnasol) mewn un lle. Defnyddio delweddau. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Gwefan Credu, dolenni 'teleofal'. | Mwy o adnoddau/dolenni allanol perthnasol(NEWCIS ac ati). | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Mae gofalwyr yn cael eu cyfeirio gan mwyaf at wefan Dewis a Credu – Gofalwyr Ifanc \| Cymorth i Ofalwyr Ifanc. | Unrhyw wybodaeth neu adnoddau digidol sy'n benodol i'r ardal. Unrhyw gyfryngau cymdeithasol neu grwpiau a mentrau cymorth lleol. | | |
| https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/gofalwyr/gofalwyr.aspx | | | | |

## Cyngor Sir y Fflint

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Ddim yn siŵr a oes CIS ar gyfer y cyngor hwn chwaith. Canllaw i ofalwyr yn braf. Mae'n ymddangos bod yr holl | Methu dod o hyd i ddim byd o gwbl i ofalwyr ifanc. | NEWCIS – y peth gorau am y wefan yw cysylltu â hyn. Mae cynnwys wedi'i greu gyda | Mae angen mwy o wybodaeth yn lle dim ond cysylltu â thudalennau. Os ydych chi'n mynd i gael |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wybodaeth mewn un lle / dolenni i bob tudalen a allai helpu. | | gofalwyr mewn golwg! Mae ganddyn nhw luniau, testun lliwgar hyfryd yn rhannu adrannau yn yr adran gofalwyr ifanc, dolenni defnyddiol y gallwch chi glicio yn y testun i fynd â chi i rannau eraill o'u gwefan i esbonio adrannau ymhellach, lluniau braf, penawdau lliwgar i rannu testun du – nid yw YCN wedi cael eu gwneud ers 2022 felly dydw i ddim yn siŵr pa mor gyfredol yw'r wybodaeth, teils braf gyda lluniau i rannu adrannau. | gwefan fel hon – tynnwch sylw at NEWCIS gan ei fod yn ganolfan wybodaeth wych maen nhw'n talu iddi. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Gwasanaeth gwybodaeth Gogledd-ddwyrain Cymru – Gwasanaeth gwybodaeth da iawn i ofalwyr. | Amlygu NEWCIS yn fwy. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Teleofal. Ailalluogi. Dementia.Taliadau uniongyrchol. Taflen wybodaeth am wasanaethau cymdeithasol. Cartrefi gofal. Cyfarpar ac addasiadau Dewis. Gwasanaeth gwybodaeth Gogledd-ddwyrain Cymru. Wythnos y Gofalwyr. Hafal. Cymdeithas Alzheimer ar gyfer y sir. Canolfan therapi Niwro. Caffi Crossroads. | Nid yw Gofalwyr Cymru ar y rhestr hon hyd yn oed. | | |
| https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Help-for-Carers-Welsh.aspx | | | | |

## Cyngor Gwynedd

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Ar wahân i'r disgrifiad o bwy sy'n ofalwr, mae cwymplen glir o wybodaeth bellach. | Mae'r pwynt mynediad i wybodaeth am 'gofalwyr' wedi'i restru o dan 'Iechyd a gofal cymdeithasol'. Nid yw'n deitl greddfol i'r cyhoedd. Unwaith ar y dudalen, diffiniad jargon o ofalwr. | Rhai elfennau cryf ar ôl i'r dudalen berthnasol gael ei darganfod. Er mwyn llywio i'r dudalen 'Gofalwyr', mae angen i | Gellir ysgrifennu prif ddewislen y wefan mewn termau haws eu defnyddio, gan osgoi jargon proffesiynol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Dolen dda, hawdd dod o hyd iddi i 'Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr'; disgrifiadau clir iawn o bwy sy'n ofalwr a pha wasanaethau a ddarperir. | | bobl ddeall eisoes eu bod yn ofalwr. | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Cymorth, cyllid, teithio; cyswllt â swyddogion cyswllt gofalwyr. Mae'r disgrifiad yn galonogol/croesawgar. | | | |
| https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/gofalwyr/gofalwyr.aspx | | | | |

## Cyngor Sir Ynys Môn

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Hawdd dod o hyd iddi ar y brif dudalen mynediad. Cysylltiadau hawdd i Wasanaeth Cynnal Gofalwyr Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru. | Angen dychwelyd i'r dudalen 'Gofalwyr' bob tro i ddilyn dolen newydd ar yr is-ddewislen. Jargon proffesiynol yw'r iaith drwyddi draw; gallai fod yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr. | Hawdd cael mynediad at wybodaeth os ydych chi eisoes yn gwybod eich bod chi'n ofalwr di-dâl. | Iaith haws ei defnyddio drwyddi draw. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Ydy, gweler uchod. | | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Cymorth a gwybodaeth. | | | |
| https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Trigolion/gofal-cymdeithasol-a-lles/gofalwyr/Adran.aspx | | | | |

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Manylion cyswllt clir ar y dudalen 'Gofalwyr Oedolion', gan gynnwys yr holl opsiynau. Mae fideo hygyrch ar gael ar y dudalen 'Grwpiau a sefydliadau cefnogi gofalwyr'. | Mae tudalen lanio 'Gofalwyr' yn eithaf gwag. Mae tudalen 'Gofalwyr oedolion' yn eiriol iawn. Mae'r paragraff uchaf yn cael ei ailadrodd. Nid yw'r dudalen 'Cymorth a Chyngor i Ofalwyr Ifanc' yn rhoi ystod oedran ar gyfer cymorth. Dim cyswllt e-bost na dolen we ar gyfer gofalwyr ifanc. | Manylion cyswllt clir gyda phob opsiwn – post, e-bost, ffôn. Mae'n wych bod gan Ferthyr Tudful strategaeth gofalwyr sy'n weladwy, OND mae'r fersiwn wedi dyddio. Rwy'n hoffi'r fideo fel esboniad o'r gwasanaeth. | Cynnwys dolen i ofalwyr ifanc o'r dudalen oedolion. Diweddaru 'Gwybodaeth bellach' – Mesur gofalwyr (newid i Strategaeth Gofalwyr LIC) a Strategaeth Gofalwyr MT. Ystyried rhannu testun yn dudalennau gwahanol gyda dolenni, neu rannu gyda delweddau. Ystyried fformat hawdd ei ddeall. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Dolenni clir ar y dudalen 'Gofalwyr Oedolion'. | Dim dolen i ofalwyr ifanc o'r dudalen oedolion. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Eiriolaeth. Age Connect. Cymdeithas Alzheimer.Cyngor ar fudd-daliadau. Gofalwyr Cymru. Carers Direct. Mind. Ymddiriedolaeth Gofalwyr. | Dolenni gwybodaeth sydd wedi dyddio. Mae dolen i Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010. Mae dolen i Strategaeth Gofalwyr Merthyr Tudful 2012–2017. | | |
| https://www.merthyr.gov.uk/resident/social-services-and-well-being/adult-social-care/carers/?lang=cy | | | | |

## Cyngor Sir Fynwy

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Tudalen Gartref > Gofal > Rhwydwaith gofalwyr (1 o ddim ond 6 opsiwn). Y cyfan ar un dudalen. Mae 'pethau pwysig i'w nodi' o dan y diffiniad o ofalwr yn syniad gwahanol. | Y cyfan ar un dudalen we heb offer llywio i benawdau. Nid yw defnyddio'r pennawd 'Rhwydwaith gofalwyr' yn awgrymu ei fod yn ymwneud â gofalwyr di-dâl (neu gymorth iddyn nhw); gallent fod yn ofalwyr cyflogedig neu wirfoddol o sawl math, hefyd maeth, perthynas ac ati. Mae pennawd ar y dudalen 'Gwasanaethau Oedolion' yn well – (Gofalu am rywun…). Dim dolen o gwbl ar gyfer gofal cymdeithasol plant. Nid yw'r diffiniad o ofalwyr yn cynnwys y rhai sy'n gofalu am rywun sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau 'o ran a ydych chi'n gallu ac yn fodlon darparu gofal i'r unigolyn rydych chi'n gofalu amdano' – y defnydd o 'gallu' – nid asesiad o allu mohono, ond asesiad o angen, felly efallai nad dyma'r ymadrodd gorau. | Dim ond un dudalen sydd yna (mae yna ychydig mwy ac fe ddes i o hyd iddyn nhw drwy beiriant chwilio ond rwy'n meddwl eu bod nhw wedi cael eu cuddio'n fwriadol rhag y llywio ond gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw o hyd drwy beiriant chwilio – mae gennym ni'r broblem hon ar wefan Caerdydd hefyd). Mae ffocws cryf ar asesu yn hytrach na gwybodaeth, cyngor a chymorth fel gwasanaeth neu gynnig annibynnol. Mae angen adolygu'r dolenni i sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu cyfeirio at dudalennau sy'n berthnasol i ofalwyr di-dâl drwy dudalennau oedolion a phlant. | Mae'n dudalen hir, tudalen sengl; ateb cyflym fyddai ychwanegu penawdau a chynnwys y gellir eu llywio ar y brig. Angen diweddaru ar ôl sefydlu arfer gorau. Mae angen gwell cyfeirio at gymorth perthnasol i ofalwyr di-dâl mewn dewislenni ar gyfer gofal cymdeithasol yn Nhrefynwy, a gofal cymdeithasol i blant. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Lwfans Gofalwr | Mae'r llawlyfrau y rhoddir dolenni iddynt yn ddiddorol ond mae angen eu hadolygu / eu diweddaru – mae ffurflen argyfwng yn arfer da. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Manylion cyswllt timau gwaith cymdeithasol gwasanaethau oedolion lleol a gwasanaeth gofalwyr ifanc. Mae'r adran 'Gwybodaeth ddefnyddiol' yn cynnwys llawlyfrau, dolen i Gov.uk ar gyfer y Lwfans | Dim arwyddion amlwg at wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth – dim ond timau gwaith cymdeithasol lleol – ac nid yw'n glir ble mae'r swyddogaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gofalwr, ac yn sôn am dudalen Facebook Rhwydwaith Gofalwyr Sir Fynwy, ond does dim dolen ffurflen gofrestru ar gyfer Rhwydwaith Gofalwyr Sir Fynwy. | | | |
| https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/gofal-cymdeithasol-yn-sir-fynwy | | | | |

## Cyngor Castell-nedd Port Talbot

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Hafan > Pob gwasanaeth > Gwasanaethau cymdeithasol oedolion > Cefnogaeth i ofalwyr (nid yr amlycaf ond nid y gwaethaf). | Mae'r ystod o wybodaeth yn gyfyngedig i asesiadau gofalwyr – cymorth ariannol – gofalwyr ifanc a seibiant / seibiannau byr. Dim gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth amlwg yn cael ei hyrwyddo o dudalennau gofalwyr. Nid yw'r adran oedolion a phlant yn sôn am ofalwyr di-dâl. | Mae hon yn enghraifft eithaf cyfyngedig ac mae ganddi ffocws cryf ar asesu yn hytrach na gwybodaeth, cyngor a chymorth. | Lle penodol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth, mwy o ddolenni i gymorth allanol gan y trydydd sector, ac esboniad o beth yw'r dolenni ac i bwy maen nhw. Cynnwys gwybodaeth a/neu ddolenni i Dewis Cymru. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Mae'r dudalen asesu gofalwyr yn iawn, mae'r rhannau ôl-asesu'n dda, yn onest ynglŷn â'r potensial ar gyfer taliadau am wasanaethau, ychydig gormod o ffocws ar asesu ac nid y camau a allai ddod o'u blaenau o dan yr agenda gwybodaeth, cyngor a chymorth ataliol. | Mae'r wybodaeth am gymorth ariannol, er ei bod yn gyfyngedig, yn ffordd well o'i chyflwyno trwy gysylltu â thudalennau a fydd yn cael eu diweddaru nag ar wefannau eraill sy'n rhestru cyfraddau talu ac sydd angen eu gwirio a'u diweddaru'n flynyddol. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | | Cyfyngedig iawn – dim ond dolenni allanol sydd ar gyfer budd-daliadau – dim dolenni i | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gofalwyr Cymru nac elusennau lleol – dim ond cyfeiriad bach yn yr adran asesu am yr asesiadau ar gyfer gofalwyr rhieni sy'n cael eu cynnal gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot. | | |
| https://www.npt.gov.uk/cy/gwasanaethau-cymdeithasol-oedolion/cefnogaeth-i-ofalwyr/ | | | | |

## Cyngor Dinas Casnewydd

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Unwaith i mi gyrraedd y dudalen gywir, mae'r esboniad o bwy sy'n ofalwr yn dda iawn; wedi'i ysgrifennu mewn iaith bob dydd. | Nid oes dolen uniongyrchol i'r brif dudalen mynediad; nid yw'n reddfol dod o hyd i wybodaeth am ofalwyr; defnyddiais y botwm chwilio. | Unwaith y bydd y dudalen gofalwyr wedi'i lleoli'n llwyddiannus, mae'r wybodaeth yn hygyrch ac yn hawdd ei deall. | Mae llywio'r wefan yn ei gwneud yn ofynnol i bobl wybod eu bod yn ofalwyr. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Dewislen dda ar yr ochr; dolenni i Gysylltwyr Cymunedol ac yn rhestru grwpiau, cymorth ac ati yn glir iawn. | Nid yw'r ddolen i wefan Care Collective yn gweithio. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Gwasanaeth allgymorth i ofalwyr ynghyd ag ystod gynhwysfawr o grwpiau mewnol ac allanol. | | | |
| https://www.npt.gov.uk/cy/gwasanaethau-cymdeithasol-oedolion/cefnogaeth-i-ofalwyr/ | | | | |

## Cyngor Sir Penfro

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Ydy – mae gwybodaeth wedi'i nodi'n glir gydag is-adrannau / dolenni cyflym ar wahanol bynciau. | Mae'r dudalen lanio gychwynnol wedi'i chynllunio'n dda, ond mae'r tudalennau is-bynciau eiriol iawn. | Mae'r llwybr yn hawdd ei ganfod. Mae'r dudalen lanio gychwynnol wedi'i chynllunio'n dda ac yn hawdd ei deall. Rhai adnoddau defnyddiol ond yn canolbwyntio ar gyflogaeth a chyllid. | Ystyried ehangu'r mathau o gymorth a'r adnoddau y cyfeirir atynt. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Dolenni perthnasol, h.y. cymorth ariannol. Yn mynd â chi i wefan uniongyrchol, e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau. Gwybodaeth dda ynglŷn â mathau o ofalwyr. | Rhoddir cyfeiriadau a gwybodaeth er yn canolbwyntio'n fawr ar hawliau cyflogaeth neu fynd yn ôl i'r gwaith. Gallai fod mwy o adnoddau ynglŷn ag iechyd a llesiant, pa grwpiau sydd yn yr ardal ac ati. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Adnoddau'r Adran Gwaith a Phensiynau, Carers UK, y bwrdd iechyd. | Rhoddir cyfeiriadau a gwybodaeth er yn canolbwyntio'n fawr ar hawliau cyflogaeth neu fynd yn ôl i'r gwaith. Gallai fod mwy o adnoddau o amgylch llesiant. | | |
| https://www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant/gofalwyr-di-dal | | | | |

## Cyngor Sir Powys

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Dolenni cyflym ar gael ar frig y dudalen (cymorth ariannol, seibiannau, asesiad a gofalwyr ifanc). Gwybodaeth ddefnyddiol a hawdd ei deall am asesiadau o anghenion | Llawn geiriau, ddim yn weledol iawn. | Cymerodd ychydig o amser i ddod o hyd i'r man cychwyn cywir – glaniais ar 'Cymorth i ofalwyr' yn hytrach | Ystyried rhannu testun gyda delweddau, gan ei gwneud hi'n haws ei ddarllen. Mae llwybrau'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gofalwyr a dolen glir a manylion cyswllt i ofyn am un. | | na 'Help i ofalwyr' – gallai fod yn ddryslyd. Mae manylion cyswllt clir yn dda. | ymddangos braidd yn ddryslyd. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Dolenni perthnasol, h.y. cymorth ariannol. | Gwybodaeth gyfyngedig ynghylch cyflyrau penodol neu grwpiau gofalwyr, er y cyfeirir at Dewis a Credu. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Dolen glir i Credu (sefydliad cymorth i ofalwyr). Llywodraeth Cymru. Cyngor ar Bopeth. | Cyfeirio cyfyngedig, er y gellid dod o hyd i rai trwy Credu. | | |
| https://cy.powys.gov.uk/article/14405/Chymorth-i-Ofalwyr | | | | |

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Tudalen lanio glir gyda dewisiadau clir ar gyfer chwilio. Gwybodaeth glir am asesiad o anghenion gofalwyr a sut i ofyn am un. | | Hawdd llywio o dan wahanol eiconau/teils. Gwybodaeth gynhwysfawr wedi'i rhannu'n wahanol adrannau. Byddai ychydig o addasiadau bach yn gwneud y tudalennau gwe hyn yn wirioneddol dda. | Ychwanegu dolen cymorth i ofalwyr ifanc o'r dudalen 'Gofalu am bobl eraill' yn ogystal â'r dudalen 'Cymorth i ofalwyr'. Ystyried ychwanegu manylion cyswllt at fwy o dudalennau – e-bost a rhif ffôn. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Cylchlythyrau chwarterol. Pecyn cymorth cynllunio at argyfwng. Dolen glir ar gyfer gofalwyr ifanc sy'n oedolion, yn anoddach dod o hyd iddi i ofalwyr ifanc. | Mae'n cymryd ychydig o lywio i ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer Rhondda Cynon Taf. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | | Methu dod o hyd i unrhyw gyfeiriadau at ffynonellau allanol heblaw am drwy gylchlythyrau. | | |
| https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/AdultsandOlderPeople/Caringforotherpeople/Supportforcarers/Supportforcarers.aspx | | | | |

## Cyngor Abertawe

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Hafan > Preswylwyr > Gofal cymdeithasol a lles > Gofalwyr di-dâl – dim ond tri chlic i lywio i'r dudalen. Mae'r datganiad croeso 'Beth yw gofalwr di-dâl' yn un o'r rhai gorau – yn canolbwyntio'n fawr ar y gofalwr nid yr unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth. Yn arbennig o hoff o'r frawddeg olaf yn y datganiad sy'n dechrau, 'Bwriedir i'r tudalennau hyn fod yn arwyddion … nid yn lle'r cyngor arbenigol y gallai fod ei angen ar ofalwyr unigol di-dâl'. | Nid oes unrhyw arwyddion amlwg at wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth – mae'n sôn am Ganolfan Gofalwyr Abertawe fel y lle cyntaf i fynd, os ydych yn ansicr, ond nid yw byth yn nodi mai dyma eu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. Yna fe'i rhestrir ar ôl 'cymorth pellach' a 'seibiannau byr'. · Rhywfaint o ddryswch gyda'r pwynt mynediad cyffredin gan ei fod yn sôn am 'y cymorth cywir ar yr amser cywir', a allai hefyd fod yn wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth iddynt. | Mae'r ffordd y mae tudalennau'n llifo gyda gwybodaeth syml yn arwain at fwy o fanylion ar dudalennau pellach yn dda – mae angen gwella rhai tudalennau; mae'r ddolen i Ganolfan Gofalwyr Abertawe yn arbennig o wael. Yn cynnwys rhai enghreifftiau o arfer diddorol a da. | Yn fwy eglur gyda'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a ble i fynd, mwy o ffocws ar wybodaeth, cyngor a chymorth fel cefnogaeth nid asesiad yn unig. Diweddaru tudalennau sydd wedi dyddio, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chyllid. (Y tu allan i gylch gwaith yr adolygiad hwn ond yn dadlau dros symud i ffwrdd o'r cefndir gwyn pur ar y wefan neu gael yr offer hygyrchedd wedi'u trwsio gan na ellid newid lliw'r cefndir.Dyma'r unig wefan awdurdod lleol a adolygais sydd â chefndir gwyn pur ac roedd yn amlwg iawn.)Cynnwys cyfeiriad at Dewis Cymru am ragor o wybodaeth am gymorth a chyfeiriadau at wybodaeth a chymorth lleol a chenedlaethol. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Mae tudalennau Oedolion Ifanc a Gofalwyr Ifanc yn dda gyda dolenni i gymorth statudol a'r trydydd sector – ffocws o hyd ar asesu ac nid gwybodaeth, cyngor a chymorth – cyfeiriad bach at gael cymorth gan Ganolfan Gofalwyr Abertawe. | Mae cyllid a budd-daliadau i ofalwyr wedi dyddio ac mae'r cyfraddau talu yn anghywir – byddai'n well cyfeirio at wefannau neu wasanaethau eraill sy'n diweddaru yn rheolaidd neu llyw.cymru i osgoi gwallau. Mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn canolbwyntio ar oedolion sy'n gofalu am oedolion a dim ond os cliciwch y cewch eich | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfeirio at asesiad gofalwyr ifanc neu rieni sy'n ofalwyr, ac mae hyn ar waelod y testun. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Tudalen ffynonellau pellach o gyngor a chymorth i ofalwyr ac mae yma amrywiaeth dda o wasanaethau cymorth allanol, gwasanaethau cyngor, offer fel AskSARA, mae wedi'i chynllunio'n dda gydag esboniadau o bwy/beth yw pwrpas pob un o'r dolenni. | | | |
| https://www.abertawe.gov.uk/cefnogaethiofalwyrddidal | | | | |

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Hafan > Gofal Cymdeithasol > 'Gofalu am Rywun' (y ddolen gyntaf) – hawdd dod o hyd i'r tudalennau – yn gweithio ar chwiliad mewnol. Mae'r 'dolenni gwyrdd' i wasanaethau cyflym sy'n rhedeg ar draws pob tudalen yn braf – gellid ychwanegu mwy fel cais am asesiad o anghenion gofalwyr / grantiau agored perthnasol ac ati. Mae pob tudalen we yn dangos y dyddiad y cafodd y dudalen ei haddasu ddiwethaf. | Mae'r peiriant chwilio eisiau mynd â chi i 'Gwasanaethau i Ofalwyr' yn hytrach na 'Gofalu am Rywun'. Tudalen 'Asesiadau Gofalwyr Oedolion' – nid yw'n dweud wrthych yn benodol sut i ofyn am un – addaswyd ddiwethaf 2018. Nid yw'n sôn am Hwb Gofalwyr Torfaen, sy'n cael ei grybwyll ar 'Gwasanaethau i Ofalwyr'. Nid oes unrhyw sôn am asesiad na sut i wneud cais ar dudalen 'Gofalwyr Ifanc'. Nid oes tudalen wedi'i neilltuo ar gyfer | Amrywiaeth dda o dudalennau, ond mae llawer ohonynt o bedair blynedd yn ôl neu fwy ac mae rhai yn gyfyngedig iawn o ran cwmpas, efallai y byddai'n well cael llai o dudalennau gydag ychydig mwy o wybodaeth ar bob un. Dolenni i wefannau allanol yn gyfyngedig, yr un dolenni allanol – | Mwy o fanylion cyswllt a mwy o gysondeb o ran manylion cyswllt – ai dim ond gofalwyr newydd sy'n ffonio Hwb Gofalwyr Torfaen – ai'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ydyw neu ai 'Galw Torfaen' yw'r gwasanaeth hwn.Nid yw'n glir. Mae yna enghreifftiau o dudalennau da gyda llawer o gynnwys a llif braf ond mae llawer o'r tudalennau'n |

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| | Tudalen gefn adborth gofalwyr gydag opsiynau digidol a ffôn. | 'Gwybodaeth a Chyngor' na thebyg – mae 'Gwasanaethau i Ofalwyr' – nid yw byth yn dweud yn benodol pa wasanaethau yw'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr – 'Cefnogaeth i Ofalwyr Torfaen'. Gwybodaeth gyfyngedig a dylid gwneud mwy o ddefnydd o'r gweithiwr cymorth oherwydd fel arall mae'n ymddangos mai dim ond cerdyn brys neu gerdyn llyfrgell y gallwch ei gael, a allai beri i breswylwyr beidio â gofyn am fwy o help os ydyn nhw'n meddwl mai dyna'r cyfan y byddan nhw'n ei gael. Nid yw'r dudalen 'Gofalu am Rywun' yn gyfyngedig i ofalwyr yn unig fel mae'r teitl yn awgrymu ond mae yma hefyd wybodaeth am y rhai sy'n gadael gofal a bywydau a rennir a gwybodaeth am fyw gyda dementia. Yn pylu'r llinellau rhwng gofalwyr a phobl ag anghenion cymorth ac yn gwrthdaro â'r dudalen 'Beth yw gofalwr?'. | Carers UK, Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr – ar y rhan fwyaf o dudalennau. Lle mae tudalen wedi'i diweddaru'n ddiweddar mae'n fwy addysgiadol gyda llawer mwy o gynnwys a dolenni allanol gwell – mae'r dudalen 'Taliadau Uniongyrchol' yn llawer gwell na'r rhan fwyaf o'r tudalennau eraill a ddiweddarwyd yn 2025 (ac eithrio'r 'fideo preifat' toredig sydd wedi'i fewnosod yn y dudalen). Mae tudalen 'Lwfans Gofalwyr' heb ei newid ers tair blynedd – yn fy marn i, byddai'n fwy doeth cyfeirio at asiantaeth arall – yn enwedig un a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel Advice Link Cymru. Ymagwedd Caerdydd yw peidio â rhestru unrhyw un o'r cyfraddau talu sy'n newid a'i hesbonio'n fwy | gyfyngedig. Dolenni i Dewis ar gyfer cyfeirio cymunedol lleol a chymorth/gwasanaethau cenedlaethol. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Mae gan gyfeiriadau ar dudalen 'Gofal Cymdeithasol' ddolenni cyflym da – Bathodyn Glas ac ati. | Byddai'n fuddiol diweddaru 'Beth yw gofalwr' – mae'n cyfeirio at yr hwb gofalwyr ond dim rhif ffôn – mae angen i'r rhif ffôn fod yn fwy | | |

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| | | amlwg. Mae 'Gwasanaethau i ofalwyr' yn eithaf cyfyngedig – efallai'n well pe bai'n 'Gwasanaethau'r cyngor i ofalwyr'. 'Byw yn dda gyda dementia ar ôl diagnosis' – dolen i PDF hir iawn. | cyffredinol fel nad oes rhaid i ni sicrhau ein bod yn diweddaru'r wybodaeth hon bob blwyddyn. | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Cais am gerdyn adnabod gofalwr ifanc (ar gyfer person ifanc a gwarcheidwaid). Mae dolenni ar dudalen 'Gofal Cymdeithasol' hefyd yn dda – tocynnau bws, Bathodynnau Glas ac ati. Tudalen 'Pan ddaw gofalu i ben' – yn benodol iawn ond argymhellir hynny wrth drafod marwolaeth/galar ac mae'n mynd i'r afael â marwolaeth y rhai sy'n derbyn gofal a marwolaeth y gofalwr. | Eich hawliau fel gofalwr – dim dolenni allanol ac mae'n drosolwg sylfaenol iawn – gallai gynnwys hawliau y tu hwnt i'r rhai yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – er enghraifft, deddfwriaeth absenoldeb ar gyfer gofalwyr neu weithio hyblyg. | | |
| https://www.torfaen.gov.uk/cy/HealthSocialCare/Caring-for-Someone/Carerssupportservice/Carers-support-services.aspx | | | | |

## Cyngor Bro Morgannwg

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Ydy, hawdd ei dilyn, mae'r offer llywio ar yr ochr chwith yn helpu. Llawer o ffyrdd i gysylltu â'r awdurdod lleol. | Byddai delweddau'n helpu i rannu'r testun. | Yn gyffredinol, hawdd ei deall a'i dilyn. Llawer o ddolenni, gwybodaeth gyswllt, galwadau cynnil | Byddai defnyddio delweddaeth yn ffordd dda o wahanu pob adran o wybodaeth. Symud y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Ydy, llawer o ddolenni gwych i wasanaethau cymorth penodol ac ehangach, yn yr awdurdod lleol ac yn allanol. | Dolenni allanol i wasanaethau a mentrau cymorth yn y Fro. | i weithredu, a sianelu trwy ddefnyddio botymau. Mae'r iaith yn gyfeillgar ac yn gefnogol. Yn teimlo fel eu bod nhw'n poeni am ofalwyr yn cael eu cefnogi. | dudalen 'Gwybodaeth ddefnyddiol arall' i waelod y dudalen 'Gwybodaeth i ofalwyr di-dâl', gan osgoi dyblygu dolenni/gwybodaeth. |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Fideo da am fanteision asesiadau o anghenion gofalwyr. Wedi'i gyfeirio at gymorth gan yr awdurdod lleol, Dewis, Learning Links, cymorth ar ôl yr ysgol ac ati. | Mae'r dudalen 'Gwybodaeth ddefnyddiol arall...' yn llawn gwybodaeth dda ond yn hawdd ei hanwybyddu. Gellid symud 'Seibiannau byr' i'r dudalen 'Gofalu amdanoch chi'ch hun'. | | |
| https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/adult_services/Unpaid-Carers/Carers.aspx | | | | |

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Ydy. | Llawer o wybodaeth wedi'i rhestru ar un dudalen – yn llawn geiriau, ddim yn weledol iawn. | Llawer o ddolenni am wybodaeth ychwanegol. Mae gwybodaeth unigryw i rieni sy'n ofalwyr yn ddefnyddiol. Gwybodaeth helaeth. | Ystyried mwy o ddelweddau gweledol i rannu testun a natur restredig yr wybodaeth. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Gwybodaeth am asesiad o anghenion gofalwr a sut i ofyn am un. Dolen glir i NEWCIS (sefydliad cymorth gofalwyr). Rhestr gynhwysfawr o wybodaeth. | | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Dolenni clir gyda llawer o wasanaethau allanol a mewnol. Dolen braf i rieni sy'n gofalu nad yw'n aml i'w gweld ar dudalennau gwe eraill. | | | |
| https://www.wrecsam.gov.uk/service/gofalwyr-di-dal | | | | |

## Unrhyw gyngor yn Lloegr

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Ydy, mae gwybodaeth wedi'i rhannu'n adrannau fel llesiant, asesiadau, cymorth ariannol, a gwasanaethau lleol, gan ei gwneud yn hygyrch i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. | Mae cymorth i ofalwyr ifanc wedi'i gynnwys ond gellid ei amlygu'n gliriach. | Mae'r ystod o gymorth a gwmpesir yn adlewyrchu dull cryf a chynhwysol. | Byddai gwella'r gwahanu rhwng gwybodaeth gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc yn gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth ymhellach. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Mae'r cyngor yn cyfeirio gofalwyr at sefydliadau a all ddarparu cyngor wedi'i deilwra a chymorth parhaus, gan gynnwys gwasanaethau a redir gan y cyngor. | Gwelededd cryfach o'r adnoddau allanol dibynadwy hyn. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Gwasanaeth llesiant Essex, asesiadau gofalwyr, sefydliadau lleol a gomisiynir, gwasanaethau cymorth ar-lein, gwybodaeth am gymorth ariannol, cynllunio at argyfyngau. | Nid yw adnoddau bob amser yn cael eu blaenoriaethu'n glir. | | |
| https://www.essex.gov.uk/adult-social-care-and-health/caring-someone | | | | |

## Unrhyw gyngor yng Ngogledd Iwerddon

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Ydy, pwyntiau cyswllt pwrpasol (ffôn/e-bost) i ofalwyr gael gwybodaeth yn uniongyrchol. | Efallai y bydd yn rhaid i ofalwyr symud rhwng tudalennau ymddiriedolaeth a gwefannau allanol i gael gwybodaeth lawn. | Mae gwybodaeth sylfaenol glir ar gael ar y cyfan, ond gellid symleiddio taith y defnyddiwr drwy greu un dudalen ganolog. | Gellid gwella'r llywio drwy un panel 'Dolenni cymorth i ofalwyr' ar bob tudalen ymddiriedolaeth sy'n cynnwys rhifau cyswllt. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Ydy, gan fod cyfeirio gofalwyr ifanc wedi'i integreiddio mewn sawl gwefan ymddiriedolaeth a thrwy dudalennau cymorth awdurdodau addysg. | Nid yw gwefannau'n amlygu'n glir sut y gellir cael mynediad at fudd-daliadau na phrosesau asesu. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Mae cynnwys manylion cyswllt uniongyrchol yn helpu gofalwyr i gael mynediad at gyngor a chymorth yn brydlon. | Mae gwybodaeth i ofalwyr wedi'i gwasgaru ar draws nifer o wefannau ymddiriedolaethau iechyd a gofal iechyd, a all wneud llywio'n ddryslyd ac yn anghyson. | | |
| https://belfasttrust.hscni.net/service/carers-services/ | | | | |

## Unrhyw gyngor yn yr Alban

| Pwyntiau ymchwil | Beth sy'n gweithio'n dda? | Beth allai fod yn well? | Casgliad | Awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall?** | Ydy, yn syml ac i'r pwynt. Llawer o bwyntiau bwled. | Mwy o wybodaeth a pham ei bod yn berthnasol i ofalwyr, y camau nesaf, sut i gofrestru fel gofalwr gyda'r awdurdod lleol. Dim sôn am asesiadau o anghenion gofalwyr. | Mae'n teimlo fel bod yr holl wybodaeth statudol wedi'i rhoi ond heb lawer o gyd-destun ynghylch pam. Yn teimlo'n amhersonol ac fel nad oes unrhyw gymorth pellach ar gael ar wahân i ap Bridgit. | Nid yw'n hawdd llywio tudalennau. Nid yw'n hawdd llywio tudalennau. Mae gan rai tudalennau offer llywio ar y gwaelod, nid oes hyn gan eraill. Ychwanegu offer llywio i bob tudalen. Mwy o wybodaeth am yr hyn mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i gefnogi gofalwyr a sut i gofrestru. Delweddau. |
| **A yw'r gofalwr yn cael ei gyfeirio at adnoddau defnyddiol?** | Yr unig adnodd yw ap Bridgit ac mae'n ymddangos yn dda ar yr olwg gyntaf. | Mwy o adnoddau – cymorth penodol, h.y. seibiannau byr. | | |
| **Pa adnoddau y cyfeirir y gofalwr atynt?** | Ap Bridgit a sefydliadau allanol – Bridgit Care. | Mwy o adnoddau a dolenni. Eglurhad gwell o sut y bydd yr adnoddau hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ofalwyr. | | |

# Atodiad D: Adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael ar wefannau sefydliadau gofalwyr y trydydd sector i gynorthwyo ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr

<table>
<tr><td colspan="4">Gofalwyr y DU (Cymru)<br>Trosolwg cyffredinol: Mae'r wybodaeth wedi'i hanelu at ofalwyr, nid at weithwyr proffesiynol.<br>Mae angen gwirio rhywfaint o'r wybodaeth gan y gallai fod yn gamarweiniol. Gallai godi disgwyliadau o beth yw asesiad o anghenion gofalwyr, e.e. cynnig darpariaeth gwasanaeth a rhestr wirio, yn hytrach na thrafodaeth sy'n cael ei llywio gan anghenion ac sy'n arwain at atebion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</td></tr>
<tr><td></td><td>Gwefannau ac adnoddau yr ymchwiliwyd iddynt<br><br>Asesiad o anghenion gofalwr \| Gofalwyr Cymru<br>assessments-wales-april-2025-26.pdf<br><br>Asesiadau yng Nghymru – Canllaw Hawdd ei Ddeall</td><td>• Pa mor hawdd yw llywio'r adnoddau hyn?<br><br>Fideo Asesiad Gofalwyr<br>Hawdd cael mynediad ato.<br>Mae'r graffigwaith yn ddefnyddiol ac yn ddeniadol.<br>Yn amlinellu gwybodaeth gyffredinol ar gyfer asesiadau gofalwyr ledled y DU<br>Yn ddefnyddiol i ofalwr ei ddeall<br><br>Mae'r wybodaeth ysgrifenedig yn glir<br>Yn cynnwys gwybodaeth i ofalwyr ifanc a rhieni<br><br>• Ydyn nhw'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu swyddog i gynnal asesiad o anghenion gofalwyr?<br><br>Mae'r wybodaeth wedi'i chyfeirio at ofalwyr yn hytrach na swyddogion. Mae taflenni ffeithiau hawdd eu deall yn lliwgar ac yn hawdd eu deall.<br>Mae'r daflen ffeithiau yn gynhwysfawr iawn</td><td>• Gwybodaeth sydd angen ei gwirio<br><br>Fideo<br>Mae enghreifftiau a roddir o gymorth y gellir ei ddarparu yn cynnwys "cymorth gyda ffioedd tacsi". Nid wyf yn ymwybodol bod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i ddarparu hyn. A ddylid gwirio hyn?<br><br>assessments-wales-april-2025-26.pdf<br>Tudalen 9 – Enghreifftiau o gymorth i ofalwyr<br>Adolygiad llawn o'r daflen ffeithiau<br>Mae'r enghreifftiau o gymorth a restrir yn benodol iawn a gallant roi'r argraff y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n awtomatig gan yr awdurdod lleol yn dilyn asesiad o anghenion gofalwr. Gallai hyn greu disgwyliadau afrealistig, gan fod asesiad anghenion</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • *Beth arall hoffech chi ei weld yn y canllawiau arfer da ar gyfer swyddogion sy'n cynnal asesiadau?*<br><br>Nid oes unrhyw ganllawiau arfer da i swyddogion. A ddylid cynnwys dolen ar y wefan hon i ble mae wedi'i storio, e.e. Gofal Cymdeithasol Cymru? | wedi'i fwriadu i nodi anghenion a phennu canlyniadau priodol – nid gwarantu gwasanaethau penodol.<br>A ddylem ni wirio a yw'r enghreifftiau hyn yn ofynion statudol ar gyfer awdurdodau lleol neu a ydynt yn ddarluniadol yn unig? Ar hyn o bryd, maen nhw mewn perygl o godi disgwyliadau ymhlith gofalwyr ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddarparu, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr egwyddor y dylid teilwra cymorth i anghenion asesedig.<br>**Detholiad o'r daflen ffeithiau:**<br>"Rhai enghreifftiau o'r math o gymorth a allai fod ar gael i chi fel gofalwr os ydych chi'n gymwys i gael cymorth:<br>• Cymorth gyda symud o gwmpas<br>• Prisiau tacsi<br>• Gwersi gyrru<br>• Costau atgyweirio ac yswiriant ar gyfer car lle mae cludiant yn hanfodol<br>• Technoleg i'ch cefnogi (e.e. ffôn symudol neu gyfrifiadur lle nad yw mynediad at wasanaethau llyfrgell yn bosibl)<br>• Cymorth gyda gwaith tŷ neu arddio<br>• Cymorth i leddfu straen, gwella iechyd a hyrwyddo llesiant (e.e. aelodaeth o gampfa) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Asesiadau yng Nghymru – Canllaw Hawdd ei Ddeall<br>Yn yr un modd, mae'r ddogfen hawdd ei deall yn rhoi'r argraff y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu'n awtomatig gan yr awdurdod lleol yn dilyn asesiad o anghenion gofalwr.<br><br>**Gwybodaeth am asesiad anghenion – t.10**<br>Gall cael asesiad anghenion ac asesiad o anghenion gofalwyr ar yr un ddalen roi'r argraff y bydd un asesiad yn sbarduno'r llall yn naturiol. Er mai cynnal y ddau asesiad gyda'i gilydd yw'r arfer gorau mewn theori, nid yw'n ei gwneud yn glir y gall y sawl sy'n derbyn gofal wrthod asesiad/cymorth. Yn ei dro, gall hyn arwain at beidio â gallu diwallu anghenion gofalwr.<br>Nid yw'r enghraifft isod yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r rhai sy'n derbyn gofal roi caniatâd, oni bai ei fod wedi cael ei asesu i fod heb y galluedd meddyliol i gael asesiad. Gweler yr enghraifft isod.<br><br>t.12 –<br>**"Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar oedolyn anghenion am ofal a chymorth, mae gan yr awdurdod ddyletswydd i gynnal asesiad,** waeth beth yw barn yr awdurdod lleol ar lefel yr angen am ofal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | a chymorth neu lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r oedolyn." |
| | | ***A oes unrhyw fylchau yn yr adnoddau?***<br><br>t.14 –Taflen ffeithiau<br>**"Gwybodaeth a chyngor"**<br>Mae'n rhaid i bawb, gan gynnwys oedolion sydd ag anghenion **nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth**, dderbyn gwybodaeth a chyngor gan yr awdurdod lleol ar bob un o'r canlynol:<br>• y darparwyr a'r gwasanaethau gofal y gallant eu dewis yn eu hardal<br>• sut i gael gafael ar gyngor ariannol<br>• sut i fynegi pryderon am faterion diogelu, h.y. beth i'w wneud os oes pryderon bod rhywun agored i niwed yn wynebu risg o niwed neu esgeulustod<br>• sut i gael gafael ar wasanaethau **ataliol** sy'n gallu atal eu hanghenion rhag cynyddu, neu arafu'r broses honno<br><br>**Gofalwyr ifanc – t.17**<br>Mae'r esboniad o asesiad gofalwyr ifanc yn fyr iawn. Ddim yn ddigon clir i ymarferwyr. | ***Beth allai gael ei wneud i lenwi'r bylchau hynny?*** Esboniad safonol cenedlaethol o'r hyn a olygir gan "**peidio â bod yn gymwys i gael cymorth**" a beth yw "cymwys i gael cymorth".<br><br>Weithiau nid yw gweithwyr proffesiynol yn deall yn llawn beth sy'n dod o dan fod yn gymwys i gael cymorth a beth nad yw'n gymwys i gael cymorth. Gall hyn egluro anghysondebau yn y cymorth a ddarperir ledled Cymru.<br><br>Rhoi esboniad o'r hyn a olygir gan wasanaethau **ataliol**.<br><br>Mwy o gymorth dan arweiniad i ymarferwyr. Mwy o wybodaeth am adnabod ac asesu a oes oedolyn yn y rhwydwaith gofalu. Er enghraifft, yn Sir Fynwy, drwy'r dull hwn, rydym wedi bod yn nodi mwy o ofalwyr sy'n oedolion nad oeddent yn cydnabod eu hunain fel y cyfryw ac nid oedd gweithwyr proffesiynol eraill, e.e. addysg, yn cydnabod y gallai fod oedolyn yn y rhwydwaith gofalu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Ar gyfer rhieni sy'n gofalu am blant anabl – t.18**<br>"a yw'n briodol i'r rhiant ddarparu, neu barhau i ddarparu, gofal ar gyfer y plentyn anabl, o ystyried anghenion cymorth y rhiant, ei anghenion eraill a'i ddymuniadau."<br><br>• A yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yr hyn sydd ei angen i helpu swyddog i gynnal asesiad o anghenion gofalwyr?<br><br>Na | Mae hyn yn rhywbeth na fyddai llawer o weithwyr asesu gofalwyr yn gymwys i'w wneud. Nid oes ganddynt yr awdurdod na'r hyfforddiant i wneud y penderfyniad hwn. Dylid adolygu geiriad hyn. |
| **Ymddiriedolaeth Gofalwyr (Cymru)**<br>***Trosolwg cyffredinol: Mae gwybodaeth wedi'i hanelu at ofalwyr, nid at weithwyr proffesiynol. Mae'r wybodaeth ar y brif dudalen yn gyffredinol ar gyfer gofalwyr y DU ac mae gwefan Cymru yn cynnwys adnoddau sydd ar gael yng Nghymru yn bennaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth i ofalwyr ifanc serch hynny.*** | | | |
| | Gwefannau ac adnoddau yr ymchwiliwyd iddynt<br><br>Carer's assessment > What does a carer's assessment cover? \| Ymddiriedolaeth y Gofalwyr<br>Fideo – Cymru<br><br>Ein gwaith yng Nghymru \| Ymddiriedolaeth y Gofalwyr<br>Carer Services Near You \| Ymddiriedolaeth y Gofalwyr | ***Pa mor hawdd yw llywio'r adnoddau hyn?***<br><br>Fideo<br>• yn ddeniadol yn weledol<br>• yn hawdd ei ddeall<br>• yn ddefnyddiol i ofalwyr<br>• yn egluro nad dim ond awdurdodau lleol y mae angen i chi eu hysbysu<br>• yn tynnu sylw at ofalwyr ifanc<br>• mae'r esboniadau o hawliau yn glir<br>• yn egluro o ble y gall cymorth ddod, e.e. trydydd sector, cymorth cymunedol, gweithwyr iechyd proffesiynol<br>• yr hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr wedi'i hegluro'n syml<br><br>Gwybodaeth ysgrifenedig | ***Gwybodaeth sydd angen ei gwirio***<br>Wrth fewnbynnu cod post neu leoliad, ni ddaeth o hyd i wasanaethau gofalwyr mewn gwahanol leoliadau. Ardaloedd a brofwyd: Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Mae gwybodaeth ar gael i weithwyr proffesiynol.<br>• Yn eithaf generig ac ar gyfer y DU gyfan.<br>• Mae yna lawer o adnoddau sy'n berthnasol i'r Alban. | |
| | | ***A oes unrhyw fylchau yn yr adnoddau?***<br>• Mae gwybodaeth i Gymru yn ymwneud mwy â'r gwaith y mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn ei wneud, e.e. grantiau, cynllun seibiannau byr, gwaith polisi.<br>• Heb ei thargedu'n benodol at ofalwyr a gweithwyr proffesiynol. | • ***Beth allai gael ei wneud i lenwi'r bylchau hynny?***<br>Nid yw gwefan Cymru yn dudalen y byddai gweithwyr proffesiynol yn ei chael yn ddefnyddiol, a byddai gofalwyr yn cael gwybodaeth gyffredinol o brif dudalen Ymddiriedolaeth y Gofalwyr (ar wahân i'r fideo sy'n benodol i Gymru). |
| Gofalwyr: help a chymorth – Cyngor ar Bopeth<br>***Trosolwg cyffredinol – gwybodaeth syml ac yn hawdd ei deall wedi'i hanelu at ofalwyr, nid at weithwyr proffesiynol.*** | | | |
| | Gwefannau ac adnoddau yr ymchwiliwyd iddynt<br><br>Gofalwyr: help a chymorth – Cyngor ar Bopeth | ***Pa mor hawdd yw llywio'r adnoddau hyn?***<br>• Hawdd dod o hyd i'r dudalen<br>• Dim gormod o wybodaeth ar y dudalen i'w gwneud hi'n llethol<br>• Esboniadau – cymorth ymarferol, ble i gael cymorth, asesiad syml iawn<br>• Gwybodaeth syml a dolenni i gymorth ariannol<br>• Gwybodaeth ddefnyddiol arall am y cymorth sydd ar gael<br>• Yn darparu cyfle i ofalwyr gael sgwrs uniongyrchol ar-lein<br><br>Er nad yw'r dudalen yn apelio'n weledol, mae'n syml ac yn rhoi gwybodaeth addysgiadol a dolenni uniongyrchol i'r asiantaethau perthnasol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • A yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yr hyn sydd ei angen i helpu swyddog i gynnal asesiad o anghenion gofalwyr?<br>Mae'r dudalen hon wedi'i hanelu at ofalwyr ac nid gweithwyr proffesiynol. Na<br>• A oes unrhyw fylchau yn yr adnoddau? Amherthnasol<br>• Beth arall hoffech chi ei weld wedi'i gynnwys mewn canllawiau arfer da ar gyfer swyddogion sy'n cynnal asesiadau? Amherthnasol | |
| **Age UK**<br>***Trosolwg cyffredinol. Mae'r wybodaeth wedi'i hanelu at ofalwyr, ac mae'n fwy generig i ofalwyr y DU.*** | | | |
| | Gwefannau ac adnoddau yr ymchwiliwyd iddynt<br>*Advice for carers information guide \| Age UK* | ***Pa mor hawdd yw llywio'r adnoddau hyn?***<br>• Tudalen hawdd ei chanfod<br>• Wedi'i chynllunio'n dda<br>• Rhai delweddau<br>• Mae'r wybodaeth yn gyffredinol ac yn sôn am ddarparu cyllideb bersonol. Nid yw hyn yn wir yng Nghymru<br>• Rhestr wirio ddefnyddiol<br>• Tabiau ochr clir i gyfeirio at bynciau penodol ar gyfer gofalwr<br>**Ydyn nhw'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu swyddog i gynnal asesiad o anghenion gofalwyr?**<br>Mae'r dudalen hon wedi'i hanelu at ofalwyr ac nid gweithwyr proffesiynol. Na<br>A oes unrhyw fylchau yn yr adnoddau? Amherthnasol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Beth arall hoffech chi ei weld wedi'i gynnwys mewn canllawiau arfer da ar gyfer swyddogion sy'n cynnal asesiadau? Amherthnasol | |
| **Gofalwyr Cymru**<br>**Amrywiaeth o adnoddau wedi'u hanelu at weithwyr cymdeithasol, fferyllfeydd a staff rhyddhau o'r ysbyty** | | | |
| | Having conversations with carers \| Gofalwyr Cymru<br><br>Working with carers – A conversation with Allison Hulmes | **Pa mor hawdd yw llywio'r adnoddau hyn?**<br>• Wnes i ddim dod o hyd i'r fideo yma pan wnes i chwiliad. Dywedodd rhywun arall wrtha i am fodolaeth y dudalen hon.<br>• Mae'r fideo wedi'i fewnblannu o dan 'Carer Aware – Resources – who is an unpaid carer'. | |
| | | **Ydyn nhw'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu swyddog i gynnal asesiad o anghenion gofalwyr?**<br><br>• Defnyddiwyd llais gofalwr yn y fideo i esbonio eu profiad o asesiad o anghenion gofalwyr.<br><br>• Mae'r derminoleg a ddefnyddir – "datgelu'r pethau rwy'n fwyaf sensitif yn eu cylch" ac "nid yw'n brofiad cyfforddus" – yn ei gwneud hi'n ymddangos bod gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol yn cynnal ymarfer holi. Mae eisoes yn gosod y naws bod yna ddeinameg chi a ni. Mae'n ymddangos y gallai asesiad o anghenion gofalwyr fod yn brofiad negyddol i'r gofalwr, gyda'r safle pŵer yn cael ei ddal gan weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol.<br><br>• Defnyddir gwrando, empathi a chydnabod, sy'n beth da i weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ei | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wneud. Mae pwysleisio ei bod yn berthynas gydweithredol yn ongl gadarnhaol hefyd.<br>• Dangosodd yr enghraifft o weithio'n llawn amser yr ystod o ofalwyr y byddwn yn dod i gysylltiad â nhw.<br><br>• Nod gweithwyr cymdeithasol yw bod yn asesydd – un sy'n helpu gofalwyr i fynegi eu rôl. Pwynt da wedi'i wneud.<br><br>• Mae'r fideo yn dangos dau o bobl mewn masgiau yn siarad dros ddesg. Nid yw'n ddelwedd realistig o sut mae asesiad o anghenion gofalwr yn cael ei gynnal. Mae hyn yn portreadu delwedd o drafodaeth ffurfiol iawn, nid y dull anffurfiol ond proffesiynol y mae llawer o asesiadau'n ei gymryd.<br><br>• Mae "cwestiwn gwyrthiol" yn cael ei ofyn yn y fideo y dylai gweithwyr proffesiynol ei ofyn. "Beth yw dyfodol a ffefrir gennych chi? Beth yw cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith?" Pwynt da wedi'i wneud.<br><br>• Cynllun gofalwr – camau i gyrraedd yno. Efallai y dylai hyn gynnwys disgwyliadau realistig, sut i weithio gyda gofalwr i gael canlyniadau realistig. Yn aml, gall gofalwyr ddweud, "Rwyf eisiau iddyn nhw wella neu iddyn nhw beidio â chael X." Dylai ailystyried camau i gyrraedd dyfodol realistig hefyd gynnwys rheoli disgwyliadau, a bod yn realistig ynglŷn ag amgylchiadau.<br><br>• Roedd pwyntiau i'w hystyried gan weithwyr cymdeithasol yn dda. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | – Deall eich rôl mewn asesiad<br>– Yn trafod y math o gwestiynau i'w defnyddio<br>– Canolbwyntio ar gryfderau<br>– Archwilio sefyllfa deuluol<br>– Defnyddio crynodebau a myfyrdod<br>– Heriau<br><br>• Gwybod eich dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth.<br>– Mae'r ongl hon yn dod o safbwynt gweithiwr cymdeithasol.<br>– Nid yw pob asesydd yn weithiwr cymdeithasol nac yn meddu ar y cymwysterau sy'n golygu bod yn rhaid iddynt wybod y ddeddfwriaeth yn drylwyr.<br>– Mae'r fideo hwn yn dangos bod asesydd yn weithiwr cymdeithasol.<br>• Nid yw atgyfeiriadau bob amser yn cynnwys digon o wybodaeth am ofalwr, sy'n rhwystro gallu'r gweithiwr cymdeithasol i wneud ei waith cartref ar gefndir gofalwr. Mae llawer o atgyfeiriadau'n dweud y gofynnwyd am asesiad o anghenion gofalwr yn unig. | |
| | | ***A oes unrhyw fylchau yn yr adnoddau?***<br><br>Wedi'u canoli o amgylch oedolyn sy'n gofalu am oedolyn. Nid person ifanc yn gofalu am oedolyn / person ifanc.<br><br>Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod atgyfeiriadau yn fwy cadarn a gwybodus. Sut i ddarparu atgyfeiriad effeithiol i ofalwyr. | |

| | | **Beth arall hoffech chi ei weld wedi'i gynnwys mewn canllawiau arfer da ar gyfer swyddogion sy'n cynnal asesiadau?** | |
|---|---|---|---|
| | Deall hawliau gofalwyr \| Gofalwyr Cymru<br><br>Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)<br><br>Good Practice Principles for Social Workers \| Gofalwyr Cymru<br>Egwyddorion ac awgrymiadau arfer da | Yn rhannu gwybodaeth gyfreithiol am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)<br><br>• Mae'r fideo (arfer da) yn egluro'r Ddeddf ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, sydd felly'n dweud yn benodol bod asesiad o anghenion gofalwr yn cael ei gynnal gan weithiwr cymdeithasol.<br><br>• Nid yw rhai o'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn gyraeddadwy. Mae Gofalwyr Cymru yn dadl dros hysbysu gofalwyr am newidiadau staffio – nid yw hyn yn gyraeddadwy.<br><br>• Mae sgwrs cynllun wrth gefn yn ddefnyddiol – nid yw hynny o reidrwydd yn cael ei wneud fel rhan o asesiad.<br><br>• Defnyddio'r gair "anwylyd" – yn y broses ryddhau. Mae hyn yn tybio bod perthynas gariadus rhwng y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal. Pan nad oes perthynas gariadus mewn rhai achosion.<br><br>• Asesiad gofalwr ar gyfer cynllunio gofal diwedd oes. Nid yw bob amser yn briodol gwneud hyn, a phwy yw'r unigolyn cywir i gael y sgwrs hon. Dylid archwilio hyn ymhellach. | ***Sut y gellir gwneud newidiadau***<br><br>Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r sefydliadau sy'n darparu'r fideos hyfforddiant hyn yn gallu dangos eu bod wedi bod yn rhan o asesiadau o anghenion gofalwyr, e.e. gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol a gweld yn uniongyrchol sut mae un yn cael ei gynnal. Mae cael persbectif gweithio yn helpu i lunio hyfforddiant/gwybodaeth mewn ffordd fwy gwybodus.<br><br>Darparu mwy o hyfforddiant i weithwyr gofal cymdeithasol ar sut i ymdrin â hyn a sut i annog gofalwyr i roi cynlluniau wrth gefn ar waith.<br><br>Adolygu'r derminoleg "anwylyd". Mae hyn yn rhoi pwysau'n anfwriadol ar ofalwyr nad ydyn nhw'n caru'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano, mewn sefyllfa lle dylen nhw eu caru nhw.<br><br>Mae angen mwy o waith ar hyn. Rwyf wedi gweld enghreifftiau lle gofynnwyd am asesiad o anghenion gofalwr ac nid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yw'r rhai sy'n ymgymryd ag asesiadau o anghenion gofalwyr wedi'u hyfforddi i reoli'r broses hon. Weithiau gall asesiad o anghenion gofalwr yn y cam hwn fod yn ofidus iawn, ac os na chaiff ei atgyfeirio'n briodol neu ei reoli'n briodol gall fod yn ddi-fudd neu'n ofidus iawn. |
| | | **Beth arall hoffech chi ei weld wedi'i gynnwys mewn canllawiau arfer da ar gyfer swyddogion sy'n cynnal asesiadau?**<br><br>Fideos cadarnhaol o asesiad o anghenion gofalwr<br>Archwilio ffyrdd eraill y gall gofalwyr gael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol.<br>Cynllunio wrth gefn<br>Diwedd bywyd | Fideos sy'n dangos gofalwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn siarad am effaith gadarnhaol ymgymryd â chael asesiad o anghenion gofalwr. Doeddwn i ddim yn gallu dod o hyd i fideos o weithwyr cymdeithasol yn siarad amdano o'u safbwynt nhw. Hefyd yn sôn am ffyrdd eraill o siarad am y rôl ofalu. Asesiad o anghenion gofalwr yw'r unig lwybr i gael cymorth i ofalwyr. Mae gweithwyr proffesiynol yn helpu gofalwyr i ddod o hyd i'w rhwydwaith cymorth eu hunain yr un mor rymusol i ofalwyr. |

## Crynodeb: Ymwybyddiaeth o Ofalwyr – Cymorth i weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol

### Gweledεdd a hygyrchedd

- Ni chafwyd hyd i'r dudalen drwy brif wefan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, sy'n cwestiynu a fyddai gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwybod ei bod yn bodoli neu a fyddent yn debygol o'i defnyddio.

### Ffocws yr hyfforddiant

- Mae fideo hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ofalwyr wedi'i anelu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn enwedig *nyrsys dan hyfforddiant mewn ysbytai*.
- Er bod y fideo hyfforddiant gofal cymdeithasol wedi'i labelu'n 'rhyngweithiol', yn ei hanfod mae'n fideo arddull cyflwyniad gyda sleidiau a throslais, a all leihau ymgysylltiad staff gofal cymdeithasol.

### Lleoli cynnwys gofal cymdeithasol

- Dim ond hanner ffordd i lawr y dudalen y mae gwybodaeth ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn ymddangos, nid yn amlwg.
- Mae dolenni'n arwain at dudalen 'Adnoddau' y prosiect Ymwybyddiaeth o Ofalwyr i weithwyr proffesiynol, sydd unwaith eto'n agor gydag adnoddau gofal iechyd yn gyntaf, gyda chynnwys gofal cymdeithasol wedi'i leoli ymhellach i lawr.

### Gofal cymdeithasol – adnoddau penodol a ddarperir

Mae'r dudalen yn cynnwys y canlynol:

- *Good Practice Principles and Tips for Social Workers* (PDF)
- *Principles for carers: getting the most out of your relationship with your social worker* (PDF)
- *Good Practice Principles for Social Workers* (YouTube)
- *Working with carers – A conversation with Allison Hulmes (YouTube)*
- Mae dolenni i *rai* adnoddau'n allanol (YouTube).

### Asesiad cyffredinol

- Mae cynnig Ymwybyddiaeth o Ofalwyr yn darparu rhai deunyddiau sy'n berthnasol i weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, ond:
    - Y prif ffocws yn amlwg yw gofal iechyd, nid gofal cymdeithasol.
    - Mae cynnwys gofal cymdeithasol yn teimlo'n eilradd, yn llai gweladwy, ac wedi'i deilwra'n llai.
    - Mae'n annhebygol y byddai gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwybodol o'r canlynol:
        - Ble i ddod o hyd i'r adnoddau hyn
        - Cydnabod bod yr hyfforddiant yn berthnasol i'w rôl

## Casgliad

Mae'r strwythur a'r pwyslais presennol yn awgrymu nad yw'r prosiect Ymwybyddiaeth o Ofalwyr yn cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol yn gryf, gan fod yr adnoddau:

- Yn fwy anodd eu lleoli
- Wedi'u harddangos yn llai amlwg
- Heb eu lleoli'n glir fel hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol

## Golwg gyffredinol

- Mae prif sefydliadau gofalwyr y trydydd sector yn cwmpasu'r DU gyfan. Mae'r rhain yn gyfyngedig o ran niferoedd.
- Mae gwasanaethau gofalwyr y trydydd sector wedi'u rhannu'n rhanbarthau ledled y DU. Nid yw pob un yn dod o dan y prif sefydliadau gofalwyr, felly mae'n ymddangos bod rhywfaint o wybodaeth yn benodol i'w hardal/rhanbarth.
- Mae rhywfaint o wybodaeth y trydydd sector wedi'i hanelu'n bennaf at ofalwyr sydd ag adnoddau cyfyngedig i weithwyr proffesiynol eu defnyddio.
    - Mae'r adnoddau a ddarperir i weithwyr proffesiynol yn fwy er mwyn iddyn nhw eu rhannu gyda gofalwyr, yn hytrach na'u cynorthwyo yn y ffordd maen nhw'n cefnogi gofalwr.
- Mae gwybodaeth Gofalwyr Cymru ar gael i weithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw rhoi hyfforddiant i weithwyr proffesiynol o dan faner Ymwybyddiaeth o Ofalwyr ac 'adnoddau' yn ei gwneud hi'n eglur mai adnoddau hyfforddi i weithwyr proffesiynol ydynt.
- Mae rhywfaint o'r derminoleg yn ei gwneud hi'n ymddangos fel pe bai rhai agweddau ar asesiad o anghenion gofalwr yn gwarantu y bydd yr hyn y mae gofalwr ei eisiau yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol, ac mae'n rhaid iddo gael ei ddarparu gan yr awdurdod hwnnw, e.e. ffioedd tacsi, costau tuag at gar.

# Atodiad E: Adolygiad o adnoddau a deunyddiau hyfforddi ar gyfer gweithio gyda gofalwyr di-dâl ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo ymarferwyr i gynnal asesiadau

(Dolen: Gweithio gyda gofalwyr di-dâl | Gofal Cymdeithasol Cymru)

| Maes adolygu | Pwyntiau ymchwil | Meysydd o arfer gorau | Meysydd i'w gwella | Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|---|
| **Prif dudalen**<br><br>**(Powys)**<br><br>Tudalen we o tua 760 o eiriau gyda dolenni i ddogfennau eraill | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | Mae penawdau adrannau ac adran 'cynnwys' sy'n eich galluogi i lywio i bob adran. | Mae'r dudalen o dan 'Gweithwyr gofal cymdeithasol', ond ni ddylai fod gan na fydd llawer o'r rhai sy'n gwneud y gwaith yn weithwyr cymdeithasol.<br><br>Nid yw'r ddolen i'r e-ddysgu yn mynd â chi i'r e-ddysgu, ac ni ellir cael mynediad at yr e-ddysgu. Nid yw'r ddolen i enghreifftiau ymarfer SCIR yn gweithio.<br><br>Mae'r dudalen we yn llawn testun, a all gyfyngu ar hygyrchedd, yn enwedig i'r rhai ag anghenion ychwanegol fel dyslecsia, amhariad ar y golwg, niwroamrywiaeth neu ddewisiadau dysgu amgen, e.e. dysgwyr gweledol neu glywedol. Mae nifer o adnoddau i glicio drwyddynt ac mae rhai ohonynt yn hir. | Efallai na fydd y dudalen yn hawdd ei chanfod i'r rhai a fyddai'n ei chael yn ddefnyddiol. Mae'r dudalen we yn llawn testun ac felly efallai na fydd yn hygyrch. Nid yw'n cynnwys crynodebau hawdd eu deall chwaith – efallai mai dull gwell fyddai cael crynodebau darllen cyflym ar y brif dudalen, gyda dolenni i adnoddau hirach a mwy manwl yn ôl yr angen.<br><br>Nid yw'r ddolen e-ddysgu yn gweithio, sy'n golygu nad yw'r adnodd hwn ar gael. Mae angen adolygu a datrys hyn.<br><br>Nid yw'r ddolen i enghreifftiau ymarfer SCIR: 'Cymorth ataliol i ofalwyr' yn mynd â chi i'r dudalen we / erthygl gywir – mae'n mynd â chi i erthygl ar-lein o'r enw 'Who owns standards of care – and how do we make them |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | work?' o 11 Rhagfyr 2025: [Who owns standards of care—and how do we make them work? - SCIE](). Mae angen adolygu a chywiro hyn. |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | Mae'n cynnwys dolenni i adnoddau sy'n rhoi cyngor ar asesu anghenion cymorth gofalwyr, gan gynnwys llawlyfr hyfforddi, sleidiau hyfforddi, llyfr gwaith hunanhyfforddi a phecyn cymorth i ymarferwyr. | Mae'r rhain yn ddogfennau cymharol fawr a gellid eu darparu mewn fformat mwy hygyrch. Mae'n debygol y bydd gan weithwyr gofal lwyth gwaith / achosion uchel ac felly efallai y bydd yr adnoddau'n anymarferol i'w cyrchu a'u defnyddio.<br><br>Ar y dudalen lanio, nid yw'n rhoi cyngor clir na cham wrth gam ar sut i gynnal asesiad o anghenion gofalwr, ac oherwydd y problemau hygyrchedd a drafodwyd uchod, gall fod yn anodd dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen. I ddod o hyd i wybodaeth ar sut i asesu anghenion gofalwyr, mae'n rhaid clicio drwy'r adnoddau eraill. | Yn lle gorfod clicio drwy'r adnoddau i ddod o hyd i'r wybodaeth ar sut i asesu anghenion gofalwr, gellid eu harddangos yn well mewn fformat hygyrch ar y dudalen lanio, gyda'r opsiynau ar gyfer gwybodaeth fideo/sain. Dylai'r wybodaeth ddarparu manylion ymarferol ar sut i gwblhau'r asesiad, ac ni ddylai fod yn rhy hir, fel ei bod yn fwy tebygol y bydd yn cael ei defnyddio gan y rhai y mae wedi'i hanelu atynt. Yna gallai fod dolenni i wybodaeth bellach yn ôl yr angen, gyda manylion am yr hyn y mae pob adnodd yn ei wneud / yn ei gynnwys. |
| | Oes unrhyw fylchau? | | | |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo | | | Mwy o wybodaeth ymarferol ar gael ar y dudalen we heb orfod clicio drwy'r dolenni i gael mynediad at adnoddau i ddechrau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | | Manylion am gynnwys pob un o'r adnoddau cysylltiedig a phryd/sut y gellir eu defnyddio.<br><br>Fformat mwy hygyrch gyda chrynodebau a gwybodaeth strwythuredig i ddarparu canllawiau ymarferol ar sut i asesu anghenion gofalwyr, neu ddadansoddiad o'r hyn sydd mewn adnoddau a sut y byddant yn helpu gyda hyn.<br><br>Esboniad cliriach at bwy mae'r adnoddau wedi'u hanelu a sut y gallant eu defnyddio. |
| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |
| Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr: Adnodd A – Llawlyfr Hyfforddwyr<br><br>**(Caerdydd a'r Fro)** | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | Yn darparu cyd-destun at bwy y mae'r adnodd wedi'i anelu – hyfforddwyr ymarferwyr sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio'n gyffredinol gyda gofalwyr di-dâl. Eithaf hawdd ei lywio; rhestr gynnwys gyda phynciau perthnasol. Dangosir pob sleid gyda nodiadau'r hwylusydd felly rhoddir darlun llawn o'r hyn y dylid ei drafod. | Gellid mewnosod hyperddolenni yn y rhestr gynnwys i fynd i'r adran berthnasol yn haws gan fod y ddogfen yn fawr. Mae'r llawlyfr hyfforddwyr yn cynnwys dolenni i fideos sy'n ffurfio'r deunydd hyfforddiant; nid oes modd cael mynediad at y fideos cysylltiedig oherwydd problem gyda chaniatâd. Crëwyd y ddogfen ym mis Ionawr 2019, felly byddai'n fuddiol adolygu'r cynnwys a'i diweddaru yn unol â deddfwriaeth newydd, e.e. y Ddeddf Absenoldeb i Ofalwyr. | Mewnosod hyperddolenni yn y rhestr gynnwys.<br>Adolygu'r cynnwys a'i ddiweddaru gan iddo gael ei ddatblygu saith mlynedd yn ôl.<br>Adolygu'r dolenni fideo i sicrhau y gellir eu cyrchu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | Ydy, mae'r ddogfen yn gynhwysfawr ac yn darparu sut i gwblhau asesiad gofalwr, ond mae bob amser yn cynnwys cyd-destun rôl ofalu, deddfwriaeth sylfaenol, a sut i baratoi ar gyfer asesiad. Mae adnoddau hyfforddiant hefyd yn darparu sgiliau ymarferol ar gwblhau sgwrs gydweithredol a'r hyn y dylid ei ystyried – cwestiynu agored, myfyrio.<br>Defnydd da o astudiaethau achos i ddarparu cyd-destun bywyd go iawn. Mae'r llawlyfr hyfforddwyr yn cynnwys ymarferion i gyfranogwyr eu cwblhau. | Nid yw rhai hyperddolenni yn y troednodiadau a'r pecyn cymorth yn gweithio ac yn mynd â chi i dudalen gwall. Llawlyfr llawn gwybodaeth ond gellid ystyried a ddylid ei leihau i ychydig o lawlyfrau ar gyfer pynciau penodol, e.e. gofalwyr ifanc. | Adolygu'r hyperddolenni a'r fideos gan nad yw pob un yn gweithio. |
| | Oes unrhyw fylchau? | | | |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | | Gan fod hyfforddiant yn seiliedig ar sut i gwblhau asesiad gofalwr, byddai safbwyntiau ymarferwyr trwy fideos yn fuddiol. Gellid cynnwys mwy o 'gymorth desg' crynodol hefyd gyda phrif bwyntiau ar bob pwnc, gan fod y llawlyfr yn hir ac yn llawn testun. |

| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |
|---|---|---|---|---|
| Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr: Adnodd B – Sleidiau Hyfforddi<br><br>**(Powys)**<br><br>57 sleid, pob sleid hanner Cymraeg, hanner Saesneg, neu sleidiau llawn yn Saesneg a Chymraeg yn olynol | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | Mae'r sleid gyntaf ar ôl y dudalen deitl yn cynnwys dadansoddiad o'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys (nodau a chanlyniadau dysgu) fel ei bod hi'n glir beth sydd ar y sleidiau. | Mae nifer fawr o sleidiau.<br><br>Mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pecyn o sleidiau – mae hyn yn gwneud y pecyn sleidiau'n hirach ac yn fwy anniben nag sydd angen iddo fod a gallai hyn fod yn gliriach ac yn fwy hygyrch pe bai fersiynau ar wahân yn cael eu darparu.<br><br>Mae dolenni fideo wedi'u cynnwys i ychwanegu gwahanol fformatau at y pecyn sleidiau, ond mae un ddolen yn mynd i 'fideo preifat' ar YouTube na ellir ei gyrchu ac mae'r nesaf yn mynd i dudalen gwall 404 'tudalen heb ei chanfod'.<br><br>Mae'r pecyn sleidiau yn hir ac yn cynnwys llawer o wybodaeth ond mae hefyd yn brin o fanylion a/neu ddefnyddioldeb – mae rhywfaint o'r wybodaeth yn ddefnyddiol, ond mae'n ymddangos y byddai'n fwy defnyddiol pe bai'n rhan o'r cwrs hyfforddiant perthnasol (fel y bwriadwyd yn wreiddiol) ac mae'n llai defnyddiol fel offeryn annibynnol. | Gan fod y sleidiau wedi'u creu i'w defnyddio ochr yn ochr â chwrs hyfforddi, maent yn cynnwys llawer o wybodaeth, ond mae llawer ohoni'n brin o fanylion digonol i fod yn ddefnyddiol mewn ffordd ymarferol heb y ddarpariaeth hyfforddiant gysylltiedig. Dylid creu offeryn penodol i ddarparu'r wybodaeth yn annibynnol ar y ddarpariaeth hyfforddiant, y gellir ei defnyddio mewn ffordd ymarferol ac sy'n cynnwys crynodeb o wybodaeth berthnasol, a'r camau i'w cymryd wrth asesu anghenion gofalwyr.<br><br>Mae cael fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pecyn sleidiau yn gwneud i'r pecyn ymddangos yn rhy hir ac yn anniben.<br><br>Nid yw'r dolenni fideo yn gweithio.<br><br>Dylid cynnwys manylion adnoddau perthnasol i gyfeirio atynt am gymorth i ofalwyr, e.e. Credu, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Dewis. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r fformat yn iawn, ond gallai fod yn ddefnyddiol cael pecyn sleidiau penodol neu offeryn tebyg wedi'i ddatblygu ar wahân i'r sleidiau hyfforddi, fel bod yr wybodaeth yn haws ei deall a'i chymhwyso.<br><br>Mae llawer wedi'i gynnwys, ond mae rhywfaint o gyd-destun yn brin pan gaiff ei gyrchu'n annibynnol o'r elfen hyfforddiant.<br><br>Byddai crynodeb cliriach o beth i'w wneud ar gyfer asesiad, gam wrth gam, yn gynhwysiad defnyddiol, wedi'i nodi mewn ffordd y gellir ei defnyddio mewn sefyllfaoedd ymarferol. | |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | Ydy, mae'n darparu gwybodaeth am asesiad o anghenion gofalwr (asesu anghenion gofalwyr, cyd-destun a goblygiadau ar gyfer cymorth i ofalwyr, rhwystrau i adnabod gofalwyr, hawliau gofalwyr i gael asesiad, cyfathrebu cydweithredol, cofnodi, deall canlyniadau, adolygu cynnydd). | Fel uchod, gallai adnodd annibynnol nad yw'n gysylltiedig â chwrs hyfforddi penodol fod yn ddefnyddiol, a gellid ei gyflwyno mewn ffordd sy'n darparu canllawiau cam wrth gam ar sut i asesu anghenion gofalwyr a gyflwynir mewn ffordd y gellid ei defnyddio mewn lleoliadau ymarferol. | |
| | Oes unrhyw fylchau? | | Mae cyd-destun a manylion perthnasol ar goll, gan fod y sleidiau wedi'u datblygu i'w cyrchu fel rhan o gwrs hyfforddi. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae un sleid yn sôn, ar ôl asesiad, fod yn rhaid i wasanaethau cymdeithasol roi gwybodaeth a chyngor i ofalwyr ar wasanaethau lleol i atal eu hanghenion rhag datblygu ymhellach – byddai'n dda darparu manylion am rai adnoddau perthnasol fel Credu, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr a Dewis i gynorthwyo ymarferwyr gyda'r cyfeirio hwn. | |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | Nid yw'r dolenni fideo yn y sleidiau'n gweithio – byddai'n dda pe bai'r rhain yn hygyrch.<br><br>Rhestr wirio / canllaw cam wrth gam i asesu anghenion gofalwyr. | |
| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |
| Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr: Adnodd C – Llyfr Gwaith Hunan Hyfforddi Ymarferwyr | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | Yn darparu cyd-destun i bwy y mae'r adnodd wedi'i anelu, llawlyfr hunanhyfforddiant ar gyfer ymarferwyr sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio'n gyffredinol gyda gofalwyr di-dâl. | Gellid mewnosod hyperddolenni yn y rhestr gynnwys i fynd i'r adran berthnasol yn haws gan fod y ddogfen yn fawr. Mae'r llawlyfr hyfforddwyr yn cynnwys dolenni i fideos sy'n ffurfio'r deunydd hyfforddiant; nid oes | Mewnosod hyperddolenni yn y rhestr gynnwys.<br>Adolygu'r cynnwys a'i ddiweddaru gan iddo gael ei ddatblygu saith mlynedd yn ôl.<br>Adolygu'r dolenni fideo i sicrhau y gellir eu cyrchu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **(Caerdydd a'r Fro)** | | Eithaf hawdd ei lywio; rhestr gynnwys gyda phynciau perthnasol. Defnydd da o ddiagramau i geisio rhannu darnau mawr o destun. | modd cael mynediad at y fideos cysylltiedig oherwydd problem gyda chaniatâd. Crëwyd y ddogfen ym mis Ionawr 2019, felly byddai'n fuddiol adolygu'r cynnwys a'i diweddaru yn unol â deddfwriaeth newydd, e.e. y Ddeddf Absenoldeb i Ofalwyr. | |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | Mae'r llyfr gwaith yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth am sut i gwblhau asesiad gofalwr, ond mae bob amser yn cynnwys cyd-destun rôl ofalu, deddfwriaeth sylfaenol, a sut i baratoi ar gyfer asesiad. Defnydd da o ymarferion myfyriol yn y llyfr gwaith i ymgorffori dealltwriaeth a darparu gweithgaredd ymarferol i'w gwblhau er mwyn cael seibiant. Mae adnoddau hyfforddiant hefyd yn darparu sgiliau ymarferol ar gwblhau sgwrs gydweithredol a'r hyn y dylid ei ystyried – cwestiynu agored, myfyrio. | Nid yw rhai hyperddolenni yn y troednodiadau a'r pecyn cymorth yn gweithio ac yn mynd â chi i dudalen gwall. Llawlyfr llawn gwybodaeth ond gellid ystyried a ddylid ei leihau i ychydig o lawlyfrau ar gyfer pynciau penodol, e.e. gofalwyr ifanc. Gellid hefyd gael mwy o 'gymhorthion desg' cryno gyda phrif bwyntiau ar bob pwnc, gan fod y llawlyfr yn hir ac yn llawn testun. | Adolygu'r hyperddolenni sydd wedi'u cynnwys. Defnyddio tudalennau crynodeb / cymhorthion desg i gefnogi dysgu pellach. |
| | Oes unrhyw fylchau? | Dim rhai wedi'u nodi. | | |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. | | | Gan fod hyfforddiant yn seiliedig ar sut i gwblhau asesiad gofalwr, byddai safbwyntiau ymarferwyr trwy fideos yn fuddiol. Gellid cynnwys mwy o 'gymorth desg' crynodol hefyd gyda phrif |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | | bwyntiau ar bob pwnc, gan fod y llawlyfr yn hir ac yn llawn testun. |
| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |
| Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr: Adnodd D – Pecyn Cymorth Ymarferwyr<br><br>**(Powys)**<br><br>Dogfen 32 tudalen | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | Mynegai gwych ar dudalen 2 sydd â hyperddolenni awtomatig i bob un o'r tudalennau 😊 | | |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | Mae dolen i ddogfen Gofalwyr Cymru, 'Assessment: A guide to getting an assessment in Wales from April 2016' (2016). Mae hyn yn awgrymu bod hwn yn adnodd gwych sy'n nodi gofynion cyfreithiol ar gyfer asesiadau mewn modd clir sy'n hawdd ei ddefnyddio. | | |
| | Oes unrhyw fylchau? | Mae dolen yn cwmpasu gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion. Ac mae dogfen y gellir ei rhannu gyda gofalwyr cyn asesiad neu ei defnyddio i roi pwyntiau trafod cyn ymweliad asesu. | | |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau | | | Mae'n ymddangos mai dyma'r ddogfen fwyaf cynhwysfawr rydw i wedi edrych arni yn y casgliad hwn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | | |
| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |
| **Adnodd e-ddysgu i helpu i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr:** **Mynediad i'r adnodd ar wefan ddysgu'r GIG**<br><br>**(Powys)** | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | | Yn mynd â chi i dudalen generig ac nid y cwrs – allwn i ddim dod o hyd i'r cwrs o fewn 30 eiliad (mae gan Nia ddolen ar fewnrwyd Powys).<br><br>Wedi dod o hyd i'r hyfforddiant yn fwy trwy lwc na thrwy farn! Felly, yn bendant mae angen gwella hyn. | Nid yw'r ddolen o fewnrwyd / tudalen hyfforddiant Powys yn gweithio. Mae'n caniatáu i chi gofrestru o safbwynt Powys, ond yna nid yw'r ddolen i'r cwrs yn caniatáu mynediad. Wedi chwilio drwy brif dudalen y GIG ond mae angen allwedd gofrestru – nid yw'r un generig ar gyfer Powys yn gweithio. Methu cael mynediad at y cwrs. |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | | Does dim sôn am asesiad o anghenion gofalwr tan y diwedd. Nid yw'n dweud wrthych chi sut i gynnal asesiad o anghenion gofalwr. | |
| | Oes unrhyw fylchau? | | | |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi | | Mae botwm parhau ym mhob un o'r enghreifftiau am a yw'r | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | unigolyn yn ofalwr ai peidio. Ond nid yw'r botwm yn eich symud ymlaen, dim ond eich dolennu'n ôl i ddechrau'r enghraifft rydych chi arni. | |
| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |
| **Cymorth ataliol ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion yng Nghymru: adolygiad cyflym** **(adroddiad 20 tudalen o 2018)**<br><br>**(Caerdydd a'r Fro)** | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | Mae gan y ddogfen strwythur clir gyda thabl cynnwys ac mae'n darparu cyd-destun ar gyfer y ddogfen hon – oherwydd bydd yr adolygiad hwn yn helpu i lywio datblygiad cynllunio gwella gwasanaeth<br>Gofal Cymdeithasol Cymru rhwng 2017 a 2022. | Mae'r ddogfen hon wedi dyddio gan ei bod yn adolygiad ac yn cynnwys y camau nesaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022. Yn ôl pob golwg, nid yw'n perthyn i'r pwnc cyffredinol o 'adnoddau a deunyddiau hyfforddi'. Diffyg cyd-destun ynghylch at bwy y mae hyn wedi'i anelu, a beth yw manteision yr adolygiad fel ymarferwyr. Mae'r adroddiad yn helaeth gyda pharagraffau testun dwys. | Mae'r ddogfen hon wedi dyddio, nid yw'n addas at y pwrpas, ac nid yw'n perthyn i gyd-destun deunyddiau hyfforddi. Efallai y byddai'n fwy buddiol cynnwys adroddiad 'Cyflwr Gofalu' Gofalwyr Cymru, gan ei fod yn ymdrin â themâu tebyg. |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | Mae'r adolygiad yn darparu cyd-destun, gan gynnwys polisi sylfaenol, cyfansoddiad gofalwyr yng Nghymru, a materion sy'n ymwneud ag adnabod. Mae'n rhoi enghreifftiau o arfer da ar draws gwahanol themâu a | Mae'r ddogfen hon wedi dyddio, nid yw'n addas at y pwrpas, ac nid yw'n perthyn i gyd-destun deunyddiau hyfforddi. Nid yw'n glir pwy yw'r gynulleidfa darged, ond nid yw'r adolygiad hwn yn darparu llawer o wybodaeth i gynnal asesiad gofalwr, ond | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | phrosiectau a weithredwyd gan awdurdodau lleol eraill. | mae'n rhoi themâu i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer gorau – gellid ei defnyddio'n fwy gan awdurdodau lleol wrth ystyried datblygu gwasanaethau, ond llai ar gyfer ymarfer o ddydd i ddydd. | |
| | Oes unrhyw fylchau? | | | |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | | Mae'r ddogfen hon wedi dyddio gan ei bod yn adolygiad ac yn cynnwys y camau nesaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022. Yn ôl pob golwg, nid yw'n perthyn i'r pwnc cyffredinol o 'adnoddau a deunyddiau hyfforddi'. Diffyg cyd-destun ynghylch at bwy y mae hyn wedi'i anelu, a beth yw manteision yr adolygiad fel ymarferwyr. Mae'r adroddiad yn helaeth gyda pharagraffau testun dwys. Gellid ei defnyddio'n fwy er mwyn i awdurdodau lleol ystyried datblygu gwasanaethau, ond llai ar gyfer ymarfer o ddydd i ddydd. |
| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |
| **Enghreifftiau ymarfer y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE): Cymorth** | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? Mae'r ddogfen yn llawn testun – gallai fod yn ddefnyddiol i'r rhai sydd am fynd i | Mae'n rhoi trosolwg manwl o'r dirwedd gofalwyr yng Nghymru a pha gymorth y gallant elwa ohono, ond dim ond yn fras y mae'n sôn am nodi anghenion, ac yn rhestru asesiad o | Nid yw'r ddolen o'r brif dudalen we yn mynd â chi i'r erthygl gywir – mae'n mynd â chi i 'Who owns standards of care – and how do we make them work?' o 11 Rhagfyr 2025 – roedd yn rhaid i | Mae hon yn ddogfen fanwl ac mae'n rhoi trosolwg da o'r sefyllfa i ofalwyr yng Nghymru, a pha gymorth y gellir ac a ddylid ei ddarparu, ond nid yw'n darparu cyngor ymarferol penodol ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ataliol ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion yng Nghymru (nid yw hyn yn cysylltu â'r erthygl gywir) Wedi cadw ffeil PDF ar SharePoint gan nad yw'r ddolen yn mynd â chi i'r ddogfen gywir: Cymorth-ataliol-ar-gyfer-gofalwyr-syn-oedolion-yng-Nghymru SCIE.pdf**<br><br>**(Powys)**<br><br>Dogfen 24 tudalen | fwy o ddyfnder am y pynciau a gwmpesir, ond nid yw'n cyflwyno offeryn ymarferol ar gyfer cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr.<br><br>Byddai'n haws llywio pe bai'r dudalen gynnwys yn caniatáu i chi glicio i bob adran heb orfod sgrolio drwy'r ddogfen. | anghenion gofalwyr fel un math o gymorth ac ymyrraeth – nid yw'n rhoi unrhyw wybodaeth na chyngor ar gynnal yr asesiad. | mi chwilio amdani'n uniongyrchol trwy beiriant chwilio i ddod o hyd iddi. Felly nid yw'r erthygl hon ar gael o'r brif restr o adnoddau.<br><br>O 2018 – efallai y bydd angen ei hadolygu i sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau i wasanaethau ers y pandemig. | asesiad o anghenion gofalwr. Gall fod yn ddefnyddiol fel offeryn i ymarferwyr fel cefndir i asesiad, gan ei bod yn tynnu sylw at ba gymorth ac ymyriadau a all fod yn ddefnyddiol, ond er mwyn bod o ddefnydd mewn lleoliad ymarferol, gallai fersiwn gryno a/neu fwy hygyrch fod yn fwy defnyddiol a defnyddiadwy. |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | | Na, nid yw'n cyfeirio at gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr – mae'n rhoi cefndir manwl ar dirwedd gofalwyr di-dâl yng Nghymru, yn trafod pa gymorth y gallant elwa ohono, ac yn ymdrin â chanlyniadau posibl os darperir cymorth o'r fath. | |
| | Oes unrhyw fylchau? | | | |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | | |
| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |
| **Gofalwyr a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Adnodd dysgu 'Gweithio gyda Gofalwyr'. (Mae hyn yn enfawr: mae 25 o adnoddau cysylltiedig o dan y ddolen hon)** | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | Mae tudalen gynnwys resymol ar y dechrau.<br><br>Penawdau adrannau a thudalennau clir. Mae'r 'trosolwg' yn cynnwys esboniad o'r ddwy elfen o fewn y dudalen – trosolwg (o'r Ddeddf) ac adnoddau ar gyfer gofalwyr di-dâl.<br>Mae dolenni'n mynd â chi'n uniongyrchol i'r adnodd gwe allanol, gyda syniad o fformat a maint y ddogfen gysylltiedig. | Ychydig o'r dolenni ymchwil, y pecynnau cymorth neu'r canllawiau sydd â dyddiad cyhoeddi. Mae'r rhan fwyaf dros ddeg mlwydd oed, ac mae llawer wedi cael eu diweddaru ers hynny.<br>Nid yw esboniad byr o'r hyn y mae'r adnodd cysylltiedig yn ei ddarparu wedi'i gynnwys. | - Trosolwg – modiwl hyfforddiant a chrynodeb<br>- Astudiaethau achos<br>- Pecyn adnoddau – ymchwil<br>- Pecyn adnoddau – pecynnau cymorth a chanllawiau<br><br>Mae gan Gofalwyr Cymru adran polisi ac ymchwil ar eu tudalennau gwe ac mae gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru adran adnoddau. Gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu dolen i'r rhain yn hytrach nag i ddogfennau unigol.<br>Ychwanegu dyddiadau cyhoeddi ac esboniad byr i unrhyw ddolenni. |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | Crynodeb – mae dogfen pedair tudalen yn edrych yn wych ar yr olwg gyntaf!<br>Astudiaethau achos – dwy dudalen, fformat tebyg i'r crynodeb uchod. Disgrifiadau byr yn unig o sefyllfaoedd gofalwyr. | Lleihau nifer y geiriau yn y dogfennau ymchwil a'u gwneud yn llai geiriog. Ddim yn siŵr a fydd gan ofalwr neu weithiwr proffesiynol amser i hyd yn oed fwrw golwg dros 94 tudalen. | Ymchwil – pum dogfen – yn edrych yn llawer mwy geiriog na'r crynodeb na'r astudiaethau schos – cyfanswm o 94 tudalen.<br><br>Pecyn cymorth a chanllawiau – tair dogfen 12 tudalen; 28 tudalen; 10 tudalen. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae’n darparu cysylltiadau ag ymchwil gan y ddwy elusen fwyaf ar gyfer gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Dylai unrhyw un sy’n gweithio gyda gofalwyr di-dâl mewn gofal cymdeithasol ac iechyd fod yn ymwybodol o’r ddau sefydliad allweddol hyn a’r adnoddau a’r cymorth sydd ar gael ganddynt. | Mae’r **ymchwil** yn hen ac mae fersiynau mwy diweddar ar gael o rai ohoni.<br>Nid yw’n darparu gwybodaeth benodol i gefnogi asesiad o anghenion gofalwr na’i ddarpariaeth ond mae’n rhoi gwybodaeth am ymchwil i effaith gofalu, ac mewn sefyllfaoedd rhoi gofal generig, e.e. dementia. Nid yw’n ystod gynhwysfawr o enghreifftiau ymchwil.<br><br>Mae’r **pecynnau cymorth a’r canllawiau** yn gymysgedd o dempled ar gyfer canllaw ar gyfer gofalwyr di-dâl, adroddiad ar fanteision cefnogi gofalwyr di-dâl gan y GIG, a chynllun gwella gwasanaethau ar gyfer sefydliadau sy’n cefnogi gofalwyr di-dâl. Nid pecynnau cymorth i gynorthwyo asesiad o anghenion gofalwr mewn gwirionedd, nac arweiniad.<br><br>Llawer iawn o wybodaeth ar y dudalen lanio – llawer i edrych arni ac nid yw’n hawdd iawn ei llywio – dim crynodebau na manylion heb glicio i’r adnodd, ac mae’n anodd cadw golwg ar ba adnodd rydych chi wedi edrych arno a pha un nad ydych chi wedi’i weld. | Efallai y byddai darparu dolen i dudalennau ymchwil y ddau sefydliad yn galluogi’r darllenydd i chwilio am ddogfennau sy’n berthnasol i’w rôl neu faes diddordeb eu hunain, yn hytrach na dewis o sampl fach (sy’n dyddio’n gyflym)? A/neu ddarparu dolen i’r prif adroddiadau rheolaidd fel ‘Cyflwr Gofalu’ (blynyddol) a’r Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl (Llywodraeth Cymru).<br>Darparu gwybodaeth a dolen i raglen Ymwybyddiaeth o Ofalwyr Gofalwyr Cymru, er mwyn cael mynediad at adnoddau i ymarferwyr (gan gynnwys arfer da). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Pecyn adnoddau gofalwyr – taflenni ffeithiau a briffiau – mae llawer yn ddeg oed ac felly'n ymddangos eu bod wedi dyddio braidd – efallai y bydd angen eu hadnewyddu a'u diweddaru yng ngoleuni'r amser sydd wedi mynd heibio. | |
| | Oes unrhyw fylchau? | | Gwybodaeth am gynlluniau, rhaglenni ac offer i wella darpariaeth gwasanaethau / sgiliau staff, ac ymwybyddiaeth. | Gwybodaeth am fentrau cenedlaethol fel Cyflogwyr i Ofalwyr, Cyfeillgar i Ofalwyr, Ymwybyddiaeth o Ofalwyr, Buddsoddwyr mewn Gofalwyr ac ati fel y gall arweinwyr strategol gael trosolwg a gwybodaeth am ffyrdd o gyflawni gwelliannau ar gyfer gofalwyr ifanc |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | | Adnoddau hyfforddiant sy'n dangos profiad yr asesiad o anghenion gofalwr o safbwynt gofalwr.<br>Awgrymiadau ar gyfer cyflawni asesiad ar y cyd effeithiol (y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal). |
| **Maes adolygu** | **Pwyntiau ymchwil** | **Meysydd o arfer gorau** | **Meysydd i'w gwella** | **Casgliad neu awgrymiadau ar gyfer gwella** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Arddangos sgiliau gofal i ofalwyr**<br><br>**(Powys)** | Pa mor hawdd yw hi i'w llywio? | | | Yn syml. Mae'r ddogfen yn cynnwys cyflwyniad a throsolwg ac yna rhestr o adnoddau, sesiynau a'u dogfennau cysylltiedig. |
| | A yw'n eich cynorthwyo gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gynnal asesiad o anghenion gofalwr? | | | Pecyn hyfforddi 55 tudalen yw hwn sy'n cynnwys cynlluniau gwersi, cyflwyniadau, taflenni gweithgareddau a ffurflenni adborth. Mae'r hyfforddiant yn ymwneud â sgiliau gofal ac nid oes ganddo ddim i'w wneud ag asesiad o anghenion gofalwr. |
| | Oes unrhyw fylchau? | | | Nid yw'n ymddangos ei fod yn cynnwys unrhyw beth am gwblhau asesiad o anghenion gofalwr. |
| | Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys mewn adnoddau hyfforddiant, e.e. enghreifftiau fideo o sgyrsiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gyfarwydd â chynnal asesiadau? | | | |

# Atodiad F: Pwnc 4 – Cofnodi gwybodaeth am sgyrsiau gyda gofalwyr:

## Pryd mae asesiad yn dechrau?

O ddeddfwriaeth – mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 3, adran 24 (1) yn nodi, lle mae'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod gan ofalwr anghenion cymorth, fod yn rhaid i'r awdurdod eu hasesu. Felly, pan fydd sgwrs wedi dechrau gyda rhywun i sefydlu a oes gan ofalwr anghenion cymorth, mae asesiad eisoes wedi dechrau.

## Beth ddylid ei gofnodi?

O ddeddfwriaeth – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 3, adran 24 (4), wrth gynnal asesiad o anghenion rhaid i'r awdurdod lleol – (a) asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu, ac y bydd yn parhau i allu, darparu gofal i'r person y mae'r gofalwr yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal iddo. Adran 28 (2): Ni chaiff awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion ar gyfer oedolyn â'r asesiad anghenion ar gyfer person arall oni bai fod eithriadau a, b, c… Mae'r canllawiau deddfwriaethol hyn yn herio'r angen i gofnodi asesiadau gofalwyr yn eu rhinwedd eu hunain.

O ddeddfwriaeth – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol *Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015*, mae gofynion penodol ar gyfer sut y caiff asesiadau gofalwyr eu cofnodi.

Mae rheoliadau a chanllawiau cyfreithiol allweddol ynghylch cofnodi asesiadau gofalwyr yng Nghymru yn cynnwys y canlynol:

- Cofnodion ysgrifenedig angenrheidiol: Ar ôl cwblhau asesiad gofalwr, rhaid i'r awdurdod lleol greu cofnod ysgrifenedig o'r canlyniadau.
- Set ddata graidd ofynnol genedlaethol: Er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, defnyddir offeryn asesu a chymhwystra cenedlaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gofnodi "data craidd" penodol.
- Gwybodaeth allweddol wedi'i chynnwys yn y cofnodion: Rhaid i'r cofnodion gynnwys y canlynol:
    - Y graddau y mae'r gofalwr yn fodlon ac yn gallu parhau i ddarparu gofal.
    - Y canlyniadau personol y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni.
    - Asesiad o a yw'r gofalwr yn gweithio, yn dymuno gweithio, neu'n cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu hamdden.
    - Gwybodaeth a chyngor a ddarperir i'r gofalwr.
    - Manylion sut y bydd y cymorth arfaethedig yn diwallu anghenion a nodwyd.
- Cofnodi sy'n canolbwyntio ar unigolion: Rhaid i'r cofnodion adlewyrchu dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Rhannu a chydsyniad: Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu copi o'r cofnod ysgrifenedig i'r gofalwr ac, os yw'n cydsynio, i'r unigolyn y mae'n gofalu amdano.
- Cofnodion y gellir eu hadolygu: Rhaid adolygu'r asesiad, a'i gofnod dilynol, os bydd newid sylweddol yn amgylchiadau'r gofalwr.

- Cymesuredd: Er bod rhaid gwneud cofnod, dylai fod yn gymesur ag anghenion ac amgylchiadau'r gofalwr.

## Ble mae'r wybodaeth yn cael ei chadw?

**Gofal Cymdeithasol Cymru** – yn hysbysu bod gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol: Cedwir y cofnod electronig meistr o fewn adran gwasanaethau cymdeithasol oedolion neu blant eich cyngor lleol.

**Gofal Cymdeithasol Cymru** – yn hysbysu bod yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol: Cofnodir data gan ddefnyddio offeryn cenedlaethol safonol sy'n cynnwys "set ddata graidd" i sicrhau y gall gwahanol ymarferwyr ddiweddaru gwybodaeth a chyfeirio ati.

## Pwy sydd angen cofnodi gwybodaeth, e.e. swyddogion pwynt cyswllt cyntaf?

Mae casglu gwybodaeth yn dechrau o'r adeg pan gaiff gofalwr ei adnabod.

## A ddylai fod fformat cyson ledled Cymru?

**Deddfwriaeth** – yn nodi bod rhaid i asesiad fod yn gludadwy ar draws Cymru: Os byddwch chi neu'r sawl rydych chi'n gofalu amdano yn symud i ardal wahanol yng Nghymru, rhaid i'r awdurdod lleol gwreiddiol sicrhau bod y cofnod asesu ar gael i'r cyngor newydd er mwyn sicrhau parhad y cymorth.

Isod mae dwy enghraifft o safbwynt gofalwr o'r hyn a ofynnwyd uchod a sut mae'n berthnasol i'r hyn y gallai ei ddeall o bosibl.

| **Bwrdd yr awdurdod iechyd** | **Aneurin Bevan (Gwent)** | |
|---|---|---|
| **Awdurdod lleol Casnewydd** | **Dolen/dolenni gwefan**<br>[Hafan \| Cyngor Dinas Casnewydd]<br>[Gofalwyr \| Cyngor Dinas Casnewydd] | **Prif gyswllt**<br>Rebecca Wilford |
| **Beth i chwilio amdano** | • Disgrifiadau o'r broses o asesu gofalwyr<br>• Canllawiau sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig"<br>• Ffurflenni neu byrth sy'n dangos arferion cofnodi<br>• Llwybrau ar gyfer y pwynt cyswllt cyntaf<br>• Ble mae gwybodaeth yn cael ei storio (sôn am WCCIS? system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid lleol?) | |
| **Tystiolaeth** | *Mae'r broses o asesu gofalwyr yn dechrau gyda sgwrs syml gydag aelod hyfforddedig o staff i ddarganfod sut y gallwch gael eich cefnogi fel rhywun sy'n gofalu am rywun arall.*<br><br>Mae cymorth hefyd ar gael trwy dudalen we Cysylltwyr Cymunedol. Er nad wyf yn siŵr sut mae hyn i gyd wedi'i gofnodi. Byddai cofnod mwy ffurfiol o fanylion yn cael ei gynnal drwy'r llwybr asesiad o anghenion gofalwr. Ddim yn siŵr beth mae'r cysylltwyr yn ei gofnodi.<br><br>Nododd adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn 2021 fod WCCIS yn fodd o gasglu a storio data.<br>Adroddiad AGC yn 2025 (Adroddiad AGC 2025) | |

| | |
|---|---|
| | *4.7 Caiff anghenion y rhan fwyaf o ofalwyr eu nodi a'u hasesu mewn modd amserol. Mae'r mwyafrif o ofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, a bod eu cyfraniadau yn cael eu cydnabod a'u cefnogi. Rhoddir gwybodaeth gywir ac amserol i ofalwyr am eu hawliau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, drwy adnoddau megis llawlyfr gofalwyr, cyfeiriadur gofalwyr a chylchlythyr misol. Nid oedd rhai gofalwyr yn ymwybodol eu bod wedi cael asesiad. Gellid atgyfnerthu'r cymorth i ofalwyr drwy sicrhau bod canlyniadau asesiadau yn cael eu rhannu mewn modd amserol a bod gofalwyr yn cael gwybod yn glir pan fyddant wedi cael eu hasesu.* |
| **Tracio'r Ddeddf (2024)** | Mae sawl llwybr i gael cymorth gan Gyngor Dinas Casnewydd a nifer o ganlyniadau ar gael i ofalwyr di-dâl, yn dibynnu ar eu hanghenion presennol. Felly, mae'n heriol disgrifio taith safonol gofalwr di-dâl.<br><br>Ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion, gallant hunangyfeirio am gymorth i'r tîm gwaith cymdeithasol ar ddyletswydd, neu drwy dîm arall, fel y Cysylltwyr Cymunedol, tîm Cartref yn Gyntaf (ysbyty) neu dîm gwaith cymdeithasol hirdymor.<br><br>Amryw o lwybrau eraill wedi'u crybwyll. Yn ogystal, nodwyd fod siarad â gofalwyr mewn digwyddiadau yn digwydd ac efallai nad oedd angen unrhyw gymorth pellach.<br><br>Unwaith y bydd gofalwyr sy'n oedolion yn cael eu hatgyfeirio i Gyngor Dinas Casnewydd, bydd eu hachos yn cael ei flaenoriaethu yn seiliedig ar eu hangen presennol, trwy swyddogaeth desg dyletswydd. Yn dibynnu ar yr angen sy'n cael ei gyflwyno, **cynorthwyydd gwaith cymdeithasol fydd yn aml yn gwneud y cyswllt cychwynnol i gwblhau'r sgwrs am 'yr hyn sy'n bwysig'.** Os oes angen, bydd eu hachos yn cael ei drosglwyddo i weithiwr cymdeithasol (os nad oedd wedi cael ei godi gan weithiwr cymdeithasol i ddechrau) i gwblhau asesiad integreiddiol llawn a chynllun gofal a chymorth o bosibl. Ar unrhyw adeg yn ystod y broses hon, gall taith y gofalwr ddod i ben, ar ôl i'w anghenion gael eu diwallu neu os yw'n datgysylltu â'r gwasanaeth.<br><br>Nid yw Cyngor Dinas Casnewydd yn recriwtio gweithiwr ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr yn unig, sy'n cael eu cwblhau gan lawer o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys therapyddion galwedigaethol, y tîm eiddilwch, staff rhyddhau o'r ysbyty, timau plant anabl, a thimau anableddau dysgu oedolion ac iechyd meddwl, yn ogystal â thimau gwaith cymdeithasol gofal a reolir (gwasanaethau oedolion a phlant). Mae'r gweithlu blynyddol yn amrywio oherwydd amserlenni recriwtio, felly nid oes data cyfwerth ag amser llawn ar gael. |
| Canlyniadau | O'r ymchwil, gellir dweud y byddai angen asesiad ar ofalwyr di-dâl er mwyn cael sgwrs fanylach am yr hyn sy'n bwysig o'r dystiolaeth a ganfuwyd. Mae canllawiau yn y ddogfen Asesiad Gofalwyr sy'n ymwneud â'r 'hyn sy'n bwysig' a phwysigrwydd hyn, yn ogystal â beth i feddwl amdano a beth sy'n cael ei drafod yn ystod asesiad.<br>Ar bwynt chwech y ddogfen, mae'n sôn am gwybodaeth, cyngor a chymorth. |
| Argymhellion | A allai fod yn gliriach i ofalwr di-dâl mai cymorth yw unrhyw gymorth?<br><br>Yn ei ffurf symlaf: |

| | | |
|---|---|---|
| | *'Rydym yma i'ch helpu a'ch cefnogi, ac efallai y bydd angen asesiad o anghenion gofalwr arnoch hefyd …'*<br><br>Mae asesiadau o anghenion gofalwyr yr un mor bwysig ond gallant gael canlyniadau mwy ffurfiol na thrafodaeth yn unig. Mae'r rhain yr un mor bwysig a gallant ddarparu cefnogaeth a chymorth heb fod angen asesiad o anghenion gofalwyr llawn.<br><br>Gall trafodaeth hefyd arwain at asesiad o anghenion gofalwr, ond efallai na fydd cysylltydd yn gwneud nodiadau o faterion a godwyd a dim ond yn cyfeirio at yr adran gwasanaethau cymdeithasol, sy'n golygu y bydd angen i'r gofalwr ailadrodd ei stori eto. Sut ydych chi'n goresgyn hyn? | |
| **Awdurdod lleol Torfaen** | **Dolen/dolenni gwefan**<br>https://www.torfaen.gov.uk/cy/HealthSocialCare/Caring-for-Someone/What-is-a-Carer/What-is-a-Carer.aspx<br><br>https://www.torfaen.gov.uk/cy/HealthSocialCare/Caring-for-Someone/Carerssupportservice/Carers-support-services.aspx | **Prif gyswllt** |

# Atodiad G: Adolygiad o'r derminoleg a ddefnyddir ar gyfer cynnal asesiad o anghenion gofalwr

## Cyflwyniad/trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r derminoleg a'r ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr a chyngor a gwybodaeth. Ei nod yw nodi terminoleg a fyddai'n elwa o safoni, adolygu'r hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, ac amlygu meysydd i'w gwella o safbwynt ymarferydd gofal cymdeithasol.

## Termau allweddol ar gyfer eu safoni

Mae'r termau canlynol wedi'u nodi fel rhai sydd angen diffiniadau cyson ar draws gwasanaethau:

- Gofalwr / gofalwr di-dâl
- Gweithiwr cymdeithasol
- Asesiad gofalwr (mae tystiolaeth gan ofalwyr nad yw hwn yn derm defnyddiol a gall roi'r argraff bod gallu'r gofalwr i ddarparu gofal yn cael ei asesu; roedd dewisiadau amgen a ddarparwyd gan ofalwyr yn llai ffurfiol fel "opsiynau cymorth i ofalwyr")
- Swyddog Gofalwyr / Cydgysylltydd Cymorth (a theitlau tebyg)
- Sgwrs am yr hyn sy'n bwysig
- Canlyniadau personol
- Cynllun cymorth
- Llesiant
- 'Cymhwystra'
- 'Gorfodol'
- Seibiant / seibiannau byr / seibiannau oddi wrth ofalu

## A fyddai dull safonol ar gyfer terminoleg yn ddefnyddiol?

Byddai dogfen gyffredinol, safonol a roddir i unigolion ar yr adeg y maent yn dod yn ofalwyr yn fuddiol. Canfu ymchwiliad yr ombwdsmon yn 2024, "A ydym yn gofalu am ein gofalwyr?", fod "loteri cod post" yn bodoli, wedi'i ysgogi'n rhannol gan ddefnydd anghyson o dermau a dogfennaeth ymhlith awdurdodau lleol. Mae gofalwyr yn nodi eu bod yn teimlo eu bod wedi llethu gan jargon a chyfathrebu aneglur â'r awdurdod a bod y term "asesiad o anghenion gofalwr" weithiau'n cael ei ddehongli fel un dyfarnol, a all atal ymgysylltiad. Cadarnhaodd adroddiad Gofalwyr Cymru yn 2024, 'Tracio'r Ddeddf', fod amrywiad sylweddol yn y ffordd y mae termau fel "asesiad", "cynllun cymorth" a "sgwrs am yr hyn sy'n bwysig" yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol, sy'n creu dryswch, ac mae gofalwyr yn gweld bod iaith yn anghyson ar draws gwasanaethau ac ardaloedd, sy'n tanseilio dealltwriaeth ac ymgysylltiad.

Yn ogystal, amlygodd adolygiad y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth o dystiolaeth yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr di-dâl yng Nghymru y gallai diffiniadau aneglur fod yn rhwystr i ofalwyr rhag uniaethu fel gofalwr, felly byddai terminoleg glir safonol hefyd o fudd cyn y cyswllt cychwynnol â gwasanaethau.

Felly, dylid safoni terminoleg ar draws y meysydd canlynol:

- ble i ddechrau eu taith
- pa gymorth sydd ar gael
- gyda phwy i gysylltu am gymorth a chyngor

Manteision safoni yw:

- Lleihau dryswch
- Sicrhau cysondeb ac iaith gyffredin (yn osgoi jargon)
- Tegwch
- Dangos cydymffurfedd â deddfwriaeth
- Gwella casglu data
- Hyrwyddo arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion (mae defnyddio termau fel 'yr hyn sy'n bwysig' neu 'ganlyniadau personol' yn gyson yn cadw'r asesiad yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ac anghenion y gofalwr)
- Iaith hygyrch

Mae nifer o ganllawiau terminoleg, rhestrau termau neu esboniadau wedi'u mewnblannu presennol y gellid eu hasesu ar gyfer arfer gorau er mwyn datblygu un canllaw cyfeirio i wella cysondeb ledled Cymru. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Mae Carers Cymru (Credu) yn cynnig geirfa gynhwysfawr, "Geiriau a thermau", sy'n egluro termau allweddol fel eiriolaeth, gofal cartref, taliadau uniongyrchol, seibiant preswyl, gofal amgen, a diogelu. Mae hyn yn cefnogi gofalwyr i ddeall jargon nodweddiadol. [gofalwyr.cymru]
- Mae'r rhan fwyaf o ganllawiau awdurdodau lleol yn defnyddio iaith glir (e.e. "gofalwr di-dâl", "asesiad o anghenion gofalwr") ac yn darparu deunyddiau paratoadol sy'n diffinio proses a chyd-destun asesiad.
- Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru a chod ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnig rhestrau termau ond yn diffinio terminoleg yn ôl cyd-destun (e.e. "sgwrs am yr hyn sy'n bwysig", cymhwystra, "llesiant") o fewn eu hadnoddau canllaw.
- Mae Gofalwyr Cymru / Gofalwyr y DU (rhifyn Cymru) yn egluro termau fel "asesiad", "meini prawf cymhwystra", "cynllun cymorth" a "sgwrs am yr hyn sy'n bwysig", gan bwysleisio nad prawf yw'r sgwrs.
- Mae Cymdeithas Alzheimer Cymru yn gwahaniaethu rhwng "asesiad gofal" (ar gyfer yr unigolyn â dementia) ac "asesiad gofalwr", ac yn egluro termau fel "angen gofal cymwys", "asesiad ariannol" a "seibiant".
- Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru yn diffinio beth mae asesiad gofalwr yn ei olygu – "sgwrs", "effaith ar eich bywyd", "nodau" a "llesiant" – ond ni ddarperir geirfa bwrpasol.

Mae yna hefyd arfer da i'w ystyried mewn tystiolaeth gan ofalwyr ifanc neu ganllawiau a ddatblygwyd i'w cefnogi:

- Mae Gofalwyr Ifanc Sir y Fflint a Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych wedi datblygu fersiynau iaith glir o asesiadau gofalwyr.
- Mae llyfryn gofalwyr ifanc Canolfan Arloesedd Cymru yn cydnabod yn benodol nad yw llawer o ofalwyr ifanc yn adnabod eu hunain fel y cyfryw ac felly mae'n osgoi labeli ffurfiol trwy ddefnyddio enghreifftiau ymarferol ("help gydag ymolchi", "gwneud y siopa") i wneud y cysyniad yn hygyrch.
- Mae astudiaeth PLOS One (2024), yn seiliedig ar gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda 133 o ofalwyr ifanc, yn datgelu y gall iaith broffesiynol fod yn annymunol. Yr hyn y mae gofalwyr ifanc yn ei werthfawrogi fwyaf yw perthnasoedd cefnogol, cyfrinachedd, gwybodaeth glir a syml, a bod yn rhan o benderfyniadau – nid terminoleg dechnegol.

Dylid nodi hefyd bod angen i unrhyw ymdrechion i gynhyrchu dogfennau safonol neu wybodaeth ar-lein gael eu 'diogelu at y dyfodol' (h.y. ystyried diwyg / hyd oes gwybodaeth).

## Beth sy'n gweithio'n dda

- Cydweithio presennol rhwng sefydliadau (e.e. Gofalwyr Cymru)
- Ymrwymiad i wella cysondeb ar draws rhanbarthau
- Taflenni canllaw / gwybodaeth ar wefannau
- Canllawiau fideo Gofalwyr Cymru

## Beth allai fod yn well

- Mae terminoleg yn amrywio'n sylweddol rhwng rhanbarthau a gwasanaethau
- Llai o ddefnydd o jargon a therminoleg aneglur
- Efallai y bydd gofalwyr yn teimlo'n ansicr ble i ddechrau neu gyda phwy i siarad
- Argaeledd anghyson pecyn gwybodaeth cyflwyniadol sylfaenol a safonol ar gyfer gofalwyr newydd ledled Cymru
- Gall teitlau amrywiol ar gyfer rolau tebyg achosi dryswch (e.e. Swyddog Gofalwyr yn erbyn Cydgysylltydd Cymorth)

## Casgliad

Mae tystiolaeth sylweddol bod angen egluro termau ymhellach mewn gwybodaeth a chyngor cyhoeddedig, a thystiolaeth gan ofalwyr y gall y derminoleg achosi dryswch.  Felly, byddai terminoleg gliriach a mwy cyson yn gwella profiad y gofalwr, yn lleihau dryswch, ac yn cefnogi gwell ymgysylltiad â gwasanaethau.  Byddai safoni o fudd i ofalwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd drwy wella cyfathrebu a disgwyliadau.

## Argymhellion ar gyfer gwella

- Ystyried ymchwil bellach ar ddefnydd terminoleg a'i effaith ar ddealltwriaeth ac ymgysylltiad gofalwyr(grŵp ffocws gyda gofalwyr)
- Cynnwys gofalwyr mewn datblygiad iaith ac wrth gydgynhyrchu terminoleg
- Datblygu **canllaw terminoleg safonol** i'w ddefnyddio ar draws holl awdurdodau lleol Cymru
- Hyrwyddo symleiddio
- Creu **dogfen wybodaeth gyflwyniadol sylfaenol** ar gyfer gofalwyr newydd, gan esbonio rolau allweddol, prosesau a llwybrau cymorth
- Archwilio canllawiau fideo a gynhyrchwyd ar y cyd gydag 'asesiadau ffug' i helpu i leihau pryder a 'chwalu mythau'

# Atodiad H: Adolygiad o’r adnoddau sydd ar gael i gefnogi staff gofal cymdeithasol i helpu gofalwyr i gael mynediad at daliadau uniongyrchol

## 1. Fframwaith cenedlaethol a chod ymarfer

Y cod ymarfer o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Yn cynnwys gofynion ynghylch cynnig taliadau uniongyrchol a pholisïau codi tâl, gan arwain staff ar asesiadau ariannol a dewis cleientiaid.

Y Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl: Yn nodi hawliau cyfreithiol gofalwyr, gan gynnwys yr hawl i gael asesiad, gwybodaeth, cyngor a dewis – gydag enghreifftiau ymarferol o arfer da ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy’n cefnogi gofalwyr di-dâl.

## 2. Arfer da, gwybodaeth ac adborth gan awdurdodau lleol

Mae arfer da ac adborth wedi’u darparu o nifer o feysydd:

Mae dysgu gan Dorfaen, Sir y Fflint, Wrecsam, Bro Morgannwg, Conwy, Sir Benfro a Merthyr yn dangos bod taliadau uniongyrchol i ofalwyr o ansawdd uchel wedi’u gwreiddio mewn asesiadau personol sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy’n archwilio’n wirioneddol beth sy’n bwysig i bob gofalwr. Mae enghreifftiau hyblyg Torfaen – o gardiau hamdden a tai chi, i seibiannau byr, seibiant, a chymorth sy’n seiliedig ar weithgareddau a ddarperir gan weithiwr gofal – yn dangos sut y gall taliadau uniongyrchol gynnal rôl ofalu trwy ddiwallu anghenion llesiant y gofalwr ei hun yn hytrach na chymryd lle cymorth yr unigolyn sy’n derbyn gofal. Mae canllawiau Sir y Fflint yn atgyfnerthu gwerth creadigrwydd, gan nodi bod trefniadau’n amrywio’n fawr ac y gallant gynnwys gweithgareddau therapiwtig, offer, hobïau, neu alluogi gofalwyr i gael mynediad at amser ystyrlon iddyn nhw eu hunain, gyda’r nod cyffredinol o gynnal gwydnwch ac annibyniaeth. Mae adborth Sir Benfro yn cyd-fynd yn gryf â’r pwyslais hwn ar hyblygrwydd sy’n galluogi gofalwyr i drefnu cymorth sy’n wirioneddol addas i’w bywydau.

Fodd bynnag, mae adborth hefyd yn tynnu sylw at rwystrau cyffredin: mae llawer o ofalwyr di-dâl yn ei chael hi’n anodd deall bod cymhwystra yn seiliedig ar angen asesedig, gan arwain at siom pan fydd anghenion yn gostwng o dan y trothwy, neu ddryswch pan fydd cyfraniadau ariannol yn berthnasol i’r unigolyn sy’n derbyn gofal ond nid i’r gofalwr. Mae hyn yn gwneud hyrwyddo eang, generig yn heriol ac yn tanlinellu pwysigrwydd cyfathrebu wedi’i dargedu trwy asesiadau, cynllunio gofal a llwybrau partneriaeth. Mae Sir Benfro hefyd yn nodi bod yr heriau’n adlewyrchu’r rhai a welir mewn taliadau uniongyrchol yn fwy cyffredinol. Er eu bod yn hyblyg, mae taliadau uniongyrchol yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr drefnu a rheoli eu cymorth eu hunain, gan gynnwys dod o hyd i ddarpariaeth addas, ymdrin â chyfrifoldebau, a deall agweddau sy’n gysylltiedig â chyflogwyr lle bo’n berthnasol.

Yn ogystal, mae ymchwil yn nodi amwysedd, canllawiau anghyson i ymarferwyr, ymwybyddiaeth gyhoeddus isel, a chraffu cynyddol ynghylch dangos dewisiadau amgen cyn cymeradwyo – sydd i gyd yn tynnu sylw at yr angen am fframweithiau cliriach, prosesau cymesur, a hyder cryfach yn y gweithlu.

At ei gilydd, mae’r dystiolaeth gyfunol yn tynnu sylw at y ffaith bod yr arfer cryfaf yn hyblyg, wedi’i gyfleu’n glir, wedi’i arwain yn dda, ac wedi’i seilio ar alluogi gofalwyr i barhau i ofalu’n ddiogel, yn gynaliadwy, a chyda urddas.

Ar draws sawl awdurdod lleol yng Nghymru, mae gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddefnyddio taliadau uniongyrchol trwy gymysgedd o ganllawiau clir, offer ymarferol, a gwasanaethau cymorth pwrpasol.

Er enghraifft, mae Sir y Fflint yn darparu cynnig cynhwysfawr, gan gynnwys taflen benodol i ofalwyr yn egluro sut y gall taliadau uniongyrchol ariannu cymorth personol (megis seibiant, gweithgareddau cymdeithasol, a chymorth cynorthwyydd personol), ochr yn ochr â llyfryn croeso manwl sy'n ymdrin â chyfrifoldebau cyflogwyr, cyllidebu, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cyflogres, opsiynau micro-ofal, a chyfrifon a reolir, i gyd wedi'u cefnogi gan dîm cymorth arbenigol.

Mae Sir Ddinbych yn cynnig canllawiau ar y we ac adnoddau y gellir eu lawrlwytho sy'n annog gofalwyr i ddechrau gydag asesiad o anghenion gofalwr ac yna dewis rhwng taliad uniongyrchol, trefniant a reolir gan y cyngor, trefniant cymysg, neu drefniant trydydd parti, gydag esboniadau ymarferol ar sut mae taliadau'n cael eu cyfrifo a'u rheoli, gan gynnwys defnyddio cynorthwywyr personol, asiantaethau, a micro-ddarparwyr. Mae yna rai enghreifftiau da o ofalwyr yn dod ynghyd â gofalwyr eraill sy'n rhieni ac yn cronni taliadau uniongyrchol, a hyd yn oed yn sefydlu menter gymdeithasol neu'n parhau â menter sydd eisoes yn bodoli.  Mae hyn yn ychwanegu at y dewis sydd ar gael ac yn cefnogi ethos y Ddeddf.

Mae Ceredigion yn cefnogi gofalwyr drwy ganolfan taliadau uniongyrchol strwythuredig sy'n cynnwys canllawiau croeso, gwybodaeth glir am gymhwystra a ffyrdd creadigol o ddefnyddio taliadau, gyda llawlyfrau a rhestrau gwirio wedi'u halinio â gofynion statudol.

Mae Caerdydd yn darparu gwybodaeth helaeth ar-lein yn egluro cymhwystra (gan gynnwys gofalwyr 16+ oed), yr hyblygrwydd y mae taliadau uniongyrchol yn ei gynnig, a sut y gellir defnyddio arian; mae gan ofalwyr hefyd fynediad at wasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol a gomisiynwyd i gael cymorth gyda recriwtio, cyflogres, hyfforddiant, sefydlu cyfreithiol, cyfrifon a reolir, a safonau cymorth meddyginiaeth ar gyfer cynorthwywyr personol.

Mae Powys yn amlinellu'r egwyddorion craidd a'r amodau ar gyfer taliadau uniongyrchol trwy ei ganllawiau ar-lein ac yn cefnogi gofalwyr trwy wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth mewnol sy'n cynorthwyo gyda chyfrifoldebau cyflogwyr, prosesau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cyflogres, rheolaeth ariannol, a'r broses barhaus o gadw cofnodion.

Mae gan bob un o'r 22 awdurdod bolisïau neu wybodaeth sy'n nodi cymorth i daliadau uniongyrchol ac mae 20 allan o'r 22 yn sôn yn benodol am ofalwyr di-dâl fel rhai cymwys. Mewn adolygiad a gynhaliwyd gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ar draws pob gwefan ar gyfer y 22 awdurdod, gwnaed cymariaethau mewn nifer o feysydd sy'n dangos bod anghysondebau yn y ffordd y cynigir taliadau uniongyrchol i ofalwyr a'r rheolau sy'n berthnasol iddynt, ac enghraifft o hyn yw'r anghysondeb ynghylch a ellir defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu perthnasau. Noder nad yw'r wybodaeth y mae deallusrwydd artiffisial wedi gallu ei hechdynnu o reidrwydd yn 100% yn gywir; fodd bynnag, os nad yw deallusrwydd artiffisial yn gallu canfod gwybodaeth gywir, gallai hyn ddangos y byddai gofalwyr hefyd yn ei chael hi'n anodd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Conwy wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y taliadau uniongyrchol i ofalwyr, gyda gwelliant o 655%. Mae'r twf hwn yn adlewyrchu dull strategol a chydweithredol o ymgorffori taliadau uniongyrchol fel opsiwn i ddarparu gwasanaeth craidd i ofalwyr.

Mae ffactorau allweddol sy'n cyfrannu'n cynnwys cydweithio'n agos â swyddogion gofalwyr a staff gwaith cymdeithasol i sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig yn rheolaidd yn dilyn asesiadau cyfannol, cyfeiriad cyson at daliadau uniongyrchol mewn cyflwyniadau cyhoeddus i grwpiau gofalwyr, arweinyddiaeth strategol trwy aelodaeth o'r Grŵp Gofalwyr Strategol, ac ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau etholedig i godi ymwybyddiaeth ac eiriolaeth.

Defnyddiwyd taliadau uniongyrchol yn hyblyg i ddarparu seibiant amgen, galluogi gwyliau teuluol, prynu offer i leihau dibyniaeth ar wasanaethau traddodiadol, cefnogi gofalwyr i ennill annibyniaeth wrth yrru, a hwyluso cronni taliadau uniongyrchol ar draws gwasanaethau plant, oedolion ag anableddau a phobl hŷn. Mae'r dulliau hyn wedi gwella llesiant, wedi lleihau gofid i unigolion sy'n derbyn gofal, ac wedi arwain at drefniadau gofalu mwy cynaliadwy.

Mae dysgu allweddol yn tynnu sylw at fanteision darparu taliadau uniongyrchol i ofalwyr ac unigolion sy'n derbyn gofal, yr angen i ddatblygu cyfleoedd cronni ymhellach, a phwysigrwydd ehangu'r farchnad micro-ofalwyr i gynnig opsiynau cymorth hyblyg, ad hoc i ofalwyr sy'n amharod neu'n methu â dod yn gyflogwyr.

## 3. Beth mae gofalwyr a sefydliadau sy'n darparu cymorth i ofalwyr yn ei ddweud am daliadau uniongyrchol

Yn adroddiad canfyddiadau Gofalwyr Cymru ar gyfer grwpiau ffocws Grŵp Cynghori'r Gweinidog, nid oes sôn uniongyrchol am daliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, mae gofalwyr yn siarad am y canlynol:

- Teimlo bod cymorth yn cael ei "gadw'n ôl", yn rhannol oherwydd *nad oes unrhyw gynorthwywyr personol ar gael*
  – e.e. *"Does dim arian, does dim cynorthwywyr personol, felly mae staff yr awdurdod lleol … yn codi rhwystrau …"*
- Anhawster cael gafael ar gymorth cyson ledled Cymru ("loteri cod post")
- Gorfod "ymladd" am wasanaethau neu asesiadau
- Oedi, diffyg eglurder, a chyfathrebu anghyson

Er nad ydynt yn benodol, mae'n bosibl bod rhai o'r pryderon hyn yn gysylltiedig yn anuniongyrchol â phrofiadau gofalwyr gyda thaliadau uniongyrchol, yn enwedig lle mae taliadau uniongyrchol yn dibynnu ar argaeledd cynorthwywyr personol a phrosesau awdurdodau lleol.

Mae **Gofalwyr Cymru** yn darparu un o'r canllawiau cliriaf ar daliadau uniongyrchol yn benodol ar gyfer Cymru. Maen nhw'n egluro:

- Beth yw taliadau uniongyrchol
- Sut maen nhw'n gweithio i ofalwyr yn erbyn i'r sawl rydych chi'n gofalu amdano
- Sut i'w trefnu drwy eich awdurdod lleol
- Manteision a chyfrifoldebau
- Pecynnau cymysg, asesiadau, ac ystyriaethau ariannol

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn darparu canllawiau clir ac ymarferol ar gyfer taliadau uniongyrchol i Gymru, gan gynnwys y canlynol:

- Cymhwystra
- Sut i ddefnyddio taliadau uniongyrchol
- Adolygiadau a chyfrifoldebau
- Defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer gofalwyr, plant ac oedolion
- Cyfyngiadau (e.e. talu aelodau'r teulu)

Mae canllaw taliadau uniongyrchol **Gofal Cymdeithasol Cymru** (wedi'i ddiweddaru 2025) yn darparu'r canlynol:

- Canllawiau cenedlaethol ar gyfer Cymru
- Astudiaethau achos

- Safonau ymarfer
- Chwalu mythau ac enghreifftiau o ddefnydd hyblyg – mae hyn yn cynnwys y myth mai dim ond ar gyfer pobl ag anabledd y mae taliadau ac yn nodi bod gofalwyr 16+ oed yn gymwys

Mae'n ymddangos bod gwefannau sefydliadau gofalwyr eraill yn canolbwyntio mwy ar y Lwfans Gofalwr, caledi ariannol, budd-daliadau eraill, a 'grantiau bach' neu daliadau uniongyrchol untro (y gellir eu galw'n daliadau uniongyrchol) yn hytrach na thaliadau uniongyrchol rheolaidd i'r gofalwr.

## 4. Argymhellion

- Datblygu canllawiau penodol i staff a gofalwyr ar gyfer taliadau uniongyrchol i ofalwyr, gan gynnwys cymhwystra clir gydag enghreifftiau (gall canllawiau ymddangos yn fwy perthnasol weithiau i'r rhai sy'n derbyn gofal, gan achosi dryswch)
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynnwys y trydydd sector
- Cynhyrchu taflen fer, syml i ofalwyr yn Gymraeg/Saesneg, yn esbonio sut i gael mynediad at daliadau uniongyrchol, defnyddiau nodweddiadol (seibiannau, llesiant, hyfforddiant), a phwyntiau cyswllt uniongyrchol (gan ddefnyddio taflen Sir y Fflint fel patrwm)
- Datblygu cynnig cyson ledled Cymru a datrys meysydd o amwysedd fel talu perthnasau

# Atodiad I: Pwnc 7 – Hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau

## 1. Beth yw'r gwrthdaro rhwng y cod ymarfer a'r ddeddfwriaeth?

**Rhan 3, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

Rhaid i awdurdodau lleol asesu unrhyw ofalwr lle mae'n ymddangos y gallai fod ganddynt anghenion cymorth – waeth beth fo'r lefel ganfyddedig o angen neu'r amgylchiadau ariannol.

Rhaid i asesiadau fod yn gymesur, gan ganolbwyntio ar ***yr hyn sy'n bwysig*** i'r gofalwr, ac ystyried canlyniadau fel cyflogaeth, addysg a llesiant.

Mae **Rhan 3: Cod Ymarfer** yn pwysleisio proses asesu gyson sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n berthnasol i bawb, gan gynnwys gofalwyr, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ddefnyddio barn broffesiynol.

Ffynhonnell: Gofal Cymdeithasol Cymru – [Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol]

**Codau ymarfer proffesiynol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol**

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion fod yn gymwysedig ac yn gymwys, cynnal diogelwch, a chynnal safonau uchel o ymddygiad proffesiynol.

**Er mwyn cymharu**

| **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** | **Cod ymarfer** |
|---|---|
| "sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd priodol". | Yn pwysleisio bod rhaid i weithwyr fod â *chymwysterau priodol,* bodloni safonau proffesiynol, a dilyn codau ymarfer |
| **Y gwrthdaro** | |
| Mae'r ddeddfwriaeth yn hyrwyddo *sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd*, tra bod y codau'n pwysleisio cymwysterau proffesiynol a safonau uchel cyson – gan adael amwysedd ynghylch *pwy yn union sy'n gymwys* i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. | |

## 2. Pwy sydd angen cael hyfforddiant?

- **Ymarferwyr gofal cymdeithasol** sy'n cynnal asesiadau gofalwyr
- **Swyddogion llesiant / cymorth cymunedol** sy'n cynnal sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig"
- **Staff y trydydd sector** lle mae awdurdodau lleol yn dirprwyo asesiadau (gyda chydsyniad gofalwyr)
- **Swyddogion asesu Lefel 4**
- **Ymarferwyr Lefel 4/5 sy'n goruchwylio neu weithwyr cymdeithasol** [gofalcymdeithasol.cymru]

## 3. Beth ydym ni'n ei olygu wrth gymhwysedd?

**Mae cymhwysedd yn cynnwys y canlynol:**

**Gwybodaeth**

- Deall dyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar gyfer gofalwyr, gan gynnwys y ddyletswydd i asesu.
- Ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr a statws cyfartal â'r unigolyn sy'n cael gofal.
- Gwybodaeth am y fframwaith cymhwystra a chanlyniadau personol. [gofalcymdeithasol.cymru]

**Sgiliau**

- Y gallu i hwyluso sgwrs am "yr hyn sy'n bwysig".
- Y gallu i archwilio cyflogaeth, addysg, llesiant, ac effaith gofalu.
- Y gallu i adnabod pryd mae angen asesiadau arbenigol.

**Ymddygiadau proffesiynol**

- Y gallu i ymarfer ar y cyd ac yn barchus gyda gofalwyr.
- Y gallu i ddilyn disgwyliadau'r Cod Ymarfer Proffesiynol (diogelwch, parch, gonestrwydd).

## 4. Beth yw dull rhai awdurdodau lleol o allanoli gwaith i aseswyr trydydd sector? Cymwysterau/cymhwysedd?

Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector ar gyfer sgyrsiau cychwynnol, gwiriadau llesiant neu asesiadau ataliol. Hefyd, mae rhai awdurdodau lleol yn comisiynu sefydliadau'r trydydd sector i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr llawn ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc.

Gan nad yw'r canllawiau'n glir o ran cymwysterau a/neu gymhwysedd, dim ond sicrhau bod eu prosesau comisiynu a sicrhau ansawdd yn cynnwys y gofynion sy'n dderbyniol yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau y gall rhai awdurdodau lleol eu gwneud.

Bydd sicrhau ansawdd yr asesiad o anghenion gofalwr, os caiff ei allanoli, yn sicrhau llywodraethiant clir ar gyfer safonau.

Er mai'r her yw, pan gaiff asesiadau eu darparu gan gyflenwyr allanol, y gall fod gan ddarparwyr safonau hyfforddiant amrywiol, gan ei gwneud hi'n anodd sicrhau cysondeb ledled Cymru.

## 5. A ddylai swyddogion Lefel 4 yn unig gynnal asesiad? Oes opsiynau eraill, fel cymeradwyo gan swyddog Lefel 4?

Mae bod yn glir beth yw Lefel 4, a beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol, yn bwysig. Nid yw'n glir beth yw disgwyliadau swyddog Lefel 4.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gael eu cwblhau gan rywun sydd â'r **sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd angenrheidiol** – *nid yw lefel cymhwyster wedi'i nodi.*

Er bod ymchwil yn awgrymu'r canlynol ar arfer da

| | |
|---|---|
| **Ymarferwyr Lefel 3:** | • Asesiadau gofalwyr risg isel neu ataliol<br>• Sgyrsiau syml am "yr hyn sy'n bwysig" |

| | |
|---|---|
| **Ymarferwyr Lefel 4:** | • Amgylchiadau gofalwr mwy cymhleth (e.e. straen uchel, pryderon diogelu, materion risg) |
| **Lefel 5 / gweithiwr cymdeithasol:** | • Risg gymhleth, ystyriaethau galluedd meddyliol, diogelu, anghenion gofal croestoriadol |

*Cymeradwyo gan opsiwn Lefel 4*

Unwaith eto, fel y gwelir, nid yw'n glir sut y gall ymarferydd benderfynu ymlaen llaw a fydd achos yn risg isel neu'n fwy cymhleth. Gall sgwrs am yr hyn sy'n bwysig ddechrau'n ddigon syml ond gall ddod yn fwy cymhleth ei natur. Felly, nid yw'r tabl uchod sy'n cynnwys Lefel 3 fel dewis arall yn addas wrth gwblhau asesiad o anghenion gofalwr ond gellir ei ystyried yn fesur ataliol cefnogol.

Gall y sgyrsiau cychwynnol cyntaf hyn arwain at atgyfeiriad at ymarferydd Lefel 4 sy'n cwblhau'r asesiad o anghenion gofalwr llawn.

*Arfer gorau*

Sicrhau bod rhaglenni astudio a chanllawiau clir i'r rhai sy'n cwblhau asesiad o anghenion gofalwr er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cymhwyso'n addas gyda'r offer a'r cymwyseddau cywir. Waeth ble maen nhw'n gweithio yn yr awdurdod lleol neu'r trydydd sector, rhaid i bawb gwblhau hyn.

Fel arall, gallai fod sgil-effaith ar safon y rhai sy'n cwblhau asesiad o anghenion gofalwr.

## 6. Pa fath o hyfforddiant yw'r arfer gorau / pa mor aml?

*Hyfforddiant gorfodol*

- **Dyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Rhan 3 a 4)** ar gyfer gofalwyr [llyw.cymru]
- Yr **Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol** (gan gynnwys gofynion penodol i ofalwyr) [gofalcymdeithasol.cymru]
- Diogelu (oedolyn a phlentyn) – *yn flynyddol*
- Deddf Galluedd Meddyliol – *ddwywaith y flwyddyn*

*Hyfforddiant arbenigol*

- Ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a chyfathrebu sy'n canolbwyntio ar unigolion
- Sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" [gofalcymdeithasol.cymru]
- Anghenion a chanlyniadau penodol i ofalwyr
- Cydnabod straen a diffygiad ymhlith gofalwyr ac effeithiau ar eu llesiant
- Cam-drin domestig, niwed cudd a rheolaeth drwy orfodaeth

*Goruchwyliaeth a datblygiad proffesiynol parhaus*

- Goruchwyliaeth fyfyriol bob mis neu bob deufis
- Datblygiad proffesiynol parhaus blynyddol yn unol â disgwyliadau'r Cod Ymarfer Proffesiynol

## 7. Pa argymhellion y gellid eu gwneud i Lywodraeth Cymru i roi eglurder ar hyfforddiant, cymwysterau, cymhwysedd a chymesuredd?

**1. Cynhyrchu fframwaith cymwyseddau cenedlaethol ar gyfer aseswyr gofalwyr**

- Diffinio cymwyseddau gofynnol ar gyfer staff Lefel 4 a staff allanol
- Alinio â'r Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol [gofalcymdeithasol.cymru]

**2. Cwricwlwm hyfforddi cenedlaethol safonol**
Dylai gynnwys y canlynol:

- Dyletswyddau gofalwr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Technegau cynnal sgwrs am "yr hyn sy'n bwysig"
- Penderfynu cymhwystra
- Straen, llesiant a hawliau gofalwyr

**3. Canllawiau clir ar ddirprwyo i sefydliadau'r trydydd sector**

- Gofynion cymhwyso lleiaf
- Modiwlau hyfforddiant gofynnol
- Safonau goruchwylio a sicrhau ansawdd

**4. Safonau datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol ar gyfer staff heb eu cofrestru**

- Sicrhau cysondeb â disgwyliadau ymarferwyr cofrestredig yn y Cod Ymarfer Proffesiynol

# Atodiad J: Camau i asesiad o anghenion gofalwr ar gyfer ymarferwyr

*Mae gan bob oedolyn, rhiant a gofalwr ifanc hawl i asesiad gofalwr annibynnol yn rhad ac am ddim i nodi anghenion cymorth waeth beth fo faint o ofal a ddarperir (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)*

## Cyn yr asesiad

**Cais wedi'i dderbyn a'i gofnodi**
**Dewis iaith wedi'i wirio a'i gofnodi** (Cymraeg; Saesneg; iaith arall)

↓

**Cais wedi'i ddyrannu** i weithiwr cymdeithasol penodol neu weithiwr proffesiynol hyfforddedig i gydlynu a chynnal asesiad

↓

**Trefniadau:** dyddiad/amser a dull sy'n gyfleus i'r ddwy ochr wedi'u cytuno, e.e. dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Ystyriwyd/trafodwyd yr angen am eiriolwr

↓

**Gwybodaeth am yr asesiad wedi'i darparu** i'r gofalwr dros yr e-bost, drwy'r post neu dros y ffôn i'w helpu i baratoi ar gyfer y sgwrs asesu

↓

Hunanasesiad â chymorth

- Oes → Holiadur hunanlenwi wedi'i roi → Asesiad
- Nac oes → Asesiad

## Asesiad

**Cynnal sgwrs gyda'r gofalwr dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb.** Cytuno ar leoliad addas, e.e. ar wahân i'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Y rôl ofalu – sut mae'n effeithio ar eu bywyd a'u llesiant; iechyd (corfforol/meddyliol/emosiynol); teimladau a dewisiadau ynghylch gofalu; parodrwydd/gallu i barhau; gwaith/astudio/hyfforddiant/hamdden; perthnasoedd, gweithgareddau cymdeithasol; yr hyn sy'n bwysig a nodau a chymorth i'w gynorthwyo i gael tai; cynllunio at argyfyngau

↓

**Cofnod ysgrifenedig** o'r asesiad wedi'i gynhyrchu; cynigiwyd copi i'r gofalwr

## Cynlyniad

**Yn gymwys i gael cymorth yn ogystal â gwybodaeth, cyngor a chymorth**

↓

**Cynllun cymorth** wedi'i baratoi gan yr awdurdod lleol

**Cymorth trwy ddarpariaeth**

↓

**Cyngor a gwybodaeth** wedi'u darparu i'r gofalwr ar sut i gael cymorth defnyddiol; ffynonellau cymorth; sut i atal y sefyllfa rhag gwaethygu ac ati

## Ar ôl yr asesiad

**Adolygiad:** Cynllun cymorth yn cael ei adolygu (o leiaf yn flynyddol) gan yr awdurdod lleol neu os bydd sefyllfa'r gofalwr yn newid → (yn ôl i'r Asesiad)